# Cyngor Castell-nedd Port Talbot

# Polisi Trwyddedu 2025 – 2031


| Rhagair – Y Cyngh. Anthony Richards – Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Statudol | **Rhif Tud.** |
|---|---|
| **Pennod 1 – Cyflwyniad** | 4 |
| I. Gofynion Darllen Hanfodol | 4 |
| i. Anelu at Ganiatáu | 5 |
| II. Proffil Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 |
| i. Castell-nedd | 5 |
| ii. Port Talbot | 6 |
| iii. Pontardawe | 6 |
| III. Egwyddorion Sylfaenol | 6 |
| IV. Cwmpas y Polisi | 8 |
| V. Adolygu'r Polisi ac Ymgynghori Arno | 9 |
| **Pennod 2 – Ceisiadau a Phenderfyniadau** | 10 |
| VI. Y Broses Gwneud Cais ac Ymgynghori | 10 |
| i. Ffurflenni a Manylion Cyswllt | 10 |
| ii. Ymgysylltu Cyn Gwneud Cais | 10 |
| iii. Hysbysebu'r Cais | 11 |
| VII. Amserlenni Gweithredu | 12 |
| i. Cyfnod Gorffen Yfed / Pwyllo | 14 |
| ii. Cerddoriaeth Awyr Agored | 15 |
| VIII. Digwyddiadau a Gwyliau | 15 |
| i. Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch | 16 |
| IX. Cyfraith Martyn | 16 |
| X. Amodau | 17 |
| XI. Awdurdodau Cyfrifol | 18 |
| XII. Personau Eraill a Sylwadau | 19 |
| XIII. Deisebau | 20 |
| XIV. Dirprwyo Swyddogaethau a'r Pwyllgor Trwyddedu | 21 |
| XV. Penderfynu ar Geisiadau | 23 |
| XVI. Ceisiadau Trwydded Bersonol | 24 |
| **Pennod 3 – Rheoli Trwyddedau Safle a Thystysgrifau Safle Clwb** | 25 |
| I. Cydymffurfiaeth a Gorfodi | 25 |
| i. Dull Gorfodi Graddedig | 26 |
| II. Cwynion | 30 |

| | |
|---|---|
| III. Digwyddiadau i Bobl o dan 18 Oed yn Unig | 30 |
| IV. Digwyddiadau Oedrannau Cymysg | 32 |
| V. Tystysgrifau Safle Clwb – Digwyddiadau Cyhoeddus | 32 |
| VI. Pobl sy'n Agored i Niwed yn Economi'r Nos | 33 |
| ii. Partneriaeth Lleihau Troseddau Busnes Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel | 33 |
| iii. Gofyn am Angela | 33 |
| iv. Sbeicio Diodydd | 34 |
| v. Get Me Home Safely | 34 |
| vi. Diogelu | 36 |
| VII. Ffioedd Blynyddol, Peidio â Thalu | 37 |
| vii. Sgamiau Ffioedd Blynyddol | 38 |
| **Pennod 4 – Integreiddio Cynlluniau, Strategaethau a Ffactorau Eraill** | 40 |
| I. Cynlluniau a Strategaethau Corfforaethol | 40 |
| viii. Strategaeth Gorfforaethol Cyngor CNPT | 40 |
| ix. Strategaeth Ddigwyddiadau CNPT | 40 |
| x. Cynllun Rheoli Cyrchfan CNPT | 41 |
| xi. Strategaeth Ddiwylliant CNPT | 41 |
| xii. Cynllun Cydraddoldeb Strategol CNPT | 42 |
| II. Ffactorau Eraill | 43 |
| xiii. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 | 43 |
| xiv. Caffi Stryd / Ardal Eistedd Awyr Agored | 44 |
| xv. Polisi Dosbarthu Ffilmiau | 44 |
| xvi. Asesiad Effaith Gronnol | 45 |
| xvii. Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore ac Ardoll gyda'r Hwyr | 45 |
| **Pennod 5 – Iechyd y Cyhoedd** | 46 |
| I. Niwed Alcohol | 46 |
| II. Camddefnyddio Cyffuriau | 48 |
| **Rhestr Termau** | 53 |
| **Atodiad 1 – Manylion Awdurdodau Cyfrifol** | 57 |
| **Atodiad 2 – Cronfa Amodau Enghreifftiol** | 58 |
| **Atodiad 3 – Trefn y Trafodion – Gwrandawiadau** | 99 |
| **Atodiad 4 – Dolenni i Bolisïau Corfforaethol** | 107 |
| **Atodiad 5 – Polisi Dosbarthu Ffilmiau** | 108 |

# Pennod 1 – Cyflwyniad i'r Polisi

*Mae'r bennod hon yn rhoi cyflwyniad i'r Polisi, yr Awdurdod Trwyddedu a'r ardal leol.*

## 1. Gofynion Darllen Hanfodol

1.1. Mae canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 wedi cael eu darparu er mwyn helpu awdurdodau trwyddedu i gyflawni eu swyddogaethau yn unol â Deddf 2003. Fodd bynnag, maent hefyd wedi cael eu darparu'n eang ac am ddim er budd pobl sy'n rhedeg safleoedd trwyddedig, eu cynghorwyr cyfreithiol a'r cyhoedd.

1.2. Mae'r canllawiau'n cynnwys manylion cynhwysfawr am ddiben Deddf Trwyddedu 2003, diffiniadau a'r broses sydd ynghlwm wrth wneud cais am drwyddedau a thystysgrifau. Mae'r canllawiau ar gael yn https://www.gov.uk/business-and-industry/alcohol-sales

1.3. Hefyd, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill sy'n berthnasol i bobl sy'n bwriadu gwneud cais am drwydded yng Nghastell-nedd Port Talbot.

1.4. Ni fwriedir i'r Polisi hwn atgynhyrchu gwybodaeth sydd eisoes wedi'i chynnwys yn y dogfennau eraill hyn. Bydd disgwyl i ddarpar ddeiliaid trwyddedau a phobl sydd eisoes â thrwyddedau fod wedi darllen y Canllawiau Statudol ac ystyried y rhannau perthnasol o strategaethau a chynlluniau corfforaethol y Cyngor.

### Anelu at Ganiatáu

1.5. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n mabwysiadu polisi o anelu at ganiatáu busnesau trwyddedig newydd a phresennol, ond dim ond pan fydd busnesau o'r fath yn dangos eu bod yn cefnogi ac yn hyrwyddo gweledigaeth strategol y Cyngor ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, fel y'i mynegir yn ei strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Dim ond ar gyfer cynigion sy'n rhesymol gyson â'r ymdrechion i gyflawni'r amcanion trwyddedu y caiff y safbwynt caniataol hwn ei fabwysiadu. Os bydd unrhyw wrthdaro neu anghysondeb, yr amcanion trwyddedu a gaiff y flaenoriaeth.

## 2. Proffil Cyngor Castell-nedd Port Talbot

2.1. Mae Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar yr arfordir rhwng dinas a sir Abertawe i'r gorllewin a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r dwyrain. Mae Castell-nedd Port Talbot hefyd yn rhannu ffiniau â Sir Gaerfyrddin, Powys a Rhondda Cynon Taf.

2.2. Poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yw 142,300(Cyfrifiad 2021), sef y nawfed fwyaf yng Nghymru, ac mae'n gorchuddio arwynebedd o 44,217 hectar. Prif drefi'r ardal yw Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe.

### Castell-nedd

2.3. Tref farchnad ar lannau Afon Nedd tua chwe milltir i fyny'r afon o Fae Abertawe yw Castell-nedd. Mae ei chanolfan fanwerthu mewn ardal i gerddwyr sy'n cynnwys Stryd y Maes, Stryd y Frenhines a Stryd Newydd. Mae'r prif ardaloedd ar gyfer safleoedd trwyddedig wedi'u clystyru o amgylch rhan orllewinol Castell-nedd, gan gynnwys Heol Windsor a'r Parêd ac ymestyn i Stryd Newydd.

2.4. Hefyd, mae gan Gastell-nedd theatr / sinema wedi'i hadnewyddu ar Stryd y Berllan ac ardal newydd ei datblygu rhwng Stryd y Gwynt a Stryd y Dŵr sy'n cynnwys sawl safle trwyddedig a chanolfan hamdden a ffitrwydd.

### Port Talbot

2.5. Mae Port Talbot tua dwy filltir o'r arfordir ar Draeth Aberafan ac mae Afon Afan yn llifo drwy'r dref. Lleolir y brif ardal fanwerthu yng Nghanolfan Siopa Aberafan ac ar hyd Heol yr Orsaf. Mae'r brif ardal ar gyfer safleoedd trwyddedig ym mhen isaf Heol yr Orsaf yn yr ardal nad yw i gerddwyr ac yn agos at orsaf drenau'r dref.

2.6. Yn ystod haf 2025, dechreuodd gwaith i ddiweddaru ac adnewyddu Theatr y Dywysoges Frenhinol a'r Sgwâr Dinesig cyfagos. Fel rhan o'r cynlluniau, bydd y theatr sy'n dal 798 o bobl yn cael ei hadfywiogi a'i moderneiddio a bydd y Sgwâr Dinesig yn cael ei drawsnewid yn fan cymunedol amlbwrpas a fydd yn cynnwys nodweddion fel mannau eistedd newydd a lle i'w ddefnyddio at ddibenion masnachol dros dro.

### Pontardawe

2.7. Tref wledig i'r gogledd-orllewin o Gastell-nedd a dim ond saith milltir i'r gogledd o ddinas Abertawe yw Pontardawe. Mae Pontardawe yn dref dawel sydd â phrif ardal ar gyfer safleoedd manwerthu a safleoedd trwyddedig ar hyd stryd ganolog y dref, sef Stryd Herbert, ac ar y Stryd Fawr.

2.8. Mae gan Bontardawe ganol tref llai o gymharu â Chastell-nedd a Phort Talbot ac fe'i nodweddir yn gyffredinol gan brif stryd sydd ag eiddo preswyl bob ochr iddi. Fodd bynnag, mae nifer o safleoedd trwyddedig sy'n cynnig adloniant byw yn y dref o hyd, a bydd hyn yn arbennig o amlwg ar drydydd penwythnos mis Awst pan gynhelir Gŵyl Pontardawe, sydd wedi bod yn cael ei chynnal yn flynyddol ers 1978.

2.9. Mae gan Bontardawe theatr hefyd, sef Canolfan Celfyddydau Pontardawe, a gafodd ei hadnewyddu'n ddiweddar i gynnwys sinema newydd sy'n dal 70 o bobl.

## 3. Egwyddorion Sylfaenol

3.1. Y Cyngor yw'r Awdurdod Trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac mae'n gyfrifol am ganiatáu trwyddedau safle, tystysgrifau safle clwb, a

thrwyddedau personol ar gyfer gwerthu a/neu gyflenwi alcohol a darparu Adloniant a Reoleiddir a Lluniaeth gyda'r Hwyr. Drwy'r ddogfen hon i gyd, cyfeirir at y Cyngor fel yr Awdurdod Trwyddedu lle bo hynny'n briodol er mwyn osgoi dryswch rhwng y rôl hon a'r swyddogaethau eraill a gyflawnir gan y Cyngor.

3.2. Nod yr Awdurdod Trwyddedu yw y bydd y broses drwyddedu'n caniatáu manwerthu / cyflenwi alcohol a darparu Adloniant a Reoleiddir a Lluniaeth gyda'r Hwyr mewn ffordd sy'n sicrhau cydymffurfiaeth ag amcanion y Ddeddf, a hynny heb beri anfantais i drigolion nac arwain at golli amwynder. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n anelu at hwyluso hyn drwy'r broses drwyddedu drwy sicrhau y caiff safleoedd eu rhedeg a'u rheoli'n dda ac y bydd deiliaid trwyddedau'n dangos na fydd y defnydd o'u trwyddedau'n peri anfantais i'r un o'r amcanion trwyddedu, ac yn cymryd camau i sicrhau hynny.

3.3. Mae'r Polisi hwn wedi cael ei baratoi er mwyn helpu'r Awdurdod Trwyddedu i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau am drwyddedau, gan nodi'r materion a gaiff eu hystyried fel arfer. Hefyd, mae'n nodi disgwyliadau'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfer y rhai hynny y rhoddir trwyddedau iddynt er mwyn sicrhau y caiff safleoedd eu rhedeg a'u rheoli'n dda.

3.4. Penderfynir ar bob cais am drwydded a wrthwynebir yn ôl ei rinweddau ei hun. Mae’r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod ei bod yn bosibl y bydd angen iddo wyro oddi wrth y Polisi hwn a'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 dan amgylchiadau unigol ac eithriadol, a phan fydd yr achos yn deilwng o benderfyniad o’r fath er mwyn hyrwyddo’r amcanion trwyddedu. Caiff unrhyw benderfyniad o’r fath ei wneud mewn ymgynghoriad â'r cynghorwyr cyfreithiol priodol ar gyfer yr Awdurdod Trwyddedu, a chaiff y rhesymau dros unrhyw wyriad o'r fath eu cofnodi'n llawn.

3.5. Ni fydd y Polisi Trwyddedu'n ceisio rheoleiddio materion y darperir ar eu cyfer mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall a bydd yn ceisio ategu cyfundrefnau o'r fath, e.e. cynllunio, iechyd a diogelwch, hawliau cyflogaeth, diogelwch tân ac ati.

## 4. Cwmpas y Polisi Hwn

4.1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r egwyddorion y bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau, hysbysiadau ac awdurdodiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- Manwerthu alcohol
- Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb, neu ar gais aelod o glwb
- Adloniant a Reoleiddir
- Darparu Lluniaeth gyda'r Hwyr, hynny yw cyflenwi bwydydd neu ddiodydd poeth o safle (heblaw safle â Thystysgrif Safle Clwb neu safle arall ag esemptiad cyfreithlon) rhwng 11:00pm a 05:00am.

4.2. Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu ddyletswydd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 i gyflawni ei swyddogaethau gyda'r bwriad o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Yr amcanion trwyddedu (sydd i gyd mor bwysig â'i gilydd) yw:

- Atal troseddu ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed.

Cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel yr "Amcanion Trwyddedu" o hyn ymlaen.

4.3. Bydd y Polisi hwn yn berthnasol mewn perthynas â thrwyddedau newydd, trosglwyddiadau, amrywiadau, adolygiadau ac unrhyw hysbysiadau neu awdurdodiadau eraill y gall fod eu hangen mewn perthynas â'r canlynol:

- Trwyddedau Safle
- Tystysgrifau Safle Clwb
- Datganiadau Dros Dro

A'r canlynol lle y bônt yn briodol:

- Trwyddedau Personol
- Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro
- Unrhyw geisiadau, awdurdodiadau neu hysbysiadau eraill sy'n ofynnol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

4.4. Nid yw'r Atodiadau sydd ar ddiwedd y ddogfen hon yn rhan o'r Polisi, a chânt eu cynnwys er hwylustod cyfeirio yn unig. Caiff yr Atodiadau eu diweddaru'n briodol fel y bo angen er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn aros yn gyfredol.

## 5. Adolygu'r Polisi ac Ymgynghori Arno

5.1. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n adolygu'r Polisi hwn ac yn cyhoeddi polisi trwyddedu newydd pryd bynnag y bydd angen ond, beth bynnag a fo, o fewn pum mlynedd i ddyddiad yr adolygiad diwethaf.

5.2. Wrth ddatblygu'r Polisi hwn, mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 wedi cael eu hystyried. Hefyd, mae cyngor cyrff fel Cymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac amrywiol gymdeithasau masnach wedi cael ei ystyried lle bynnag y bo modd.

5.3. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu ymgynghori â'r ymgyngoreion statudol a restrir yn Adran 5(3) o Ddeddf Trwyddedu 2003.

5.4. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng XXXX a XXXX, a chafwyd XXX o ymatebion. Y prif ddull ymgynghori oedd cyfeirio trigolion a busnesau at adran ymgyngoriadau gwefan y Cyngor lle y cafodd y Polisi drafft ei gyflwyno a'i atodi i bobl wneud sylwadau arno.

5.5. [Comments received in respect of the consultation will be detailed here]

# Pennod 2 – Ceisiadau a Phenderfyniadau

*Mae'r bennod hon yn ymwneud â'r broses o wneud cais am Drwyddedau Safle a Thystysgrifau Safle Clwb.*

## 6. Y Broses Gwneud Cais ac Ymgynghori

### Ffurflenni a Manylion Cyswllt

6.1. Dylai pob cais gael ei gyflwyno'n ddigidol gan ddefnyddio porth Gov.UK, y gellir mynd iddo drwy ddilyn y dolenni ar wefan y Cyngor yn www.npt.gov.uk/cy/busnes/trwyddedau. Fel arall, gelli lawrlwytho ffurflenni cais i'w hargraffu o wefan y Cyngor.

6.2. Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu ar gael i gynnig cyngor ac arweiniad cyffredinol i geisyddion ar y broses gwneud cais a pholisïau'r Cyngor; fodd bynnag, dylai ceisyddion geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain mewn perthynas â'u model busnes a'u hamserlenni gweithredu arfaethedig. I gael cyngor cyffredinol, gellir cysylltu â'r swyddogion trwyddedu yn LRS@npt.gov.uk neu drwy ffonio 01639 763050 (gwasanaeth galw'n ôl).

### Ymgysylltu Cyn Gwneud Cais

6.3. Anogir ceisyddion yn gryf i ymgysylltu'n gynnar â'r Awdurdodau Cyfrifol (gweler paragraff XX isod), yn enwedig yr Heddlu, Adran Iechyd yr Amgylchedd a'r Awdurdod Trwyddedu.

6.4. Bydd ymgysylltu cyn gwneud cais yn gyfle i Awdurdodau Cyfrifol fod yn rhan o'r broses drwyddedu yn gynnar, gyda'r nod o benderfynu pa weithgareddau ac oriau gweithredu fyddai'n dderbyniol er mwyn osgoi sylwadau, h.y. gwrthwynebiadau i'r cais.

6.5. Bydd ymgysylltu cyn gwneud cais yn gyfle i'r holl bartïon gael trafodaethau anffurfiol cyn i gais ffurfiol gael ei wneud. Gall ymgysylltu

agored a chydweithredol ar y cam cynnar hwn leihau'r amser y bydd yn ei gymryd i benderfynu ar gais yn sylweddol, a gwella'r tebygolrwydd o ganlyniad llwyddiannus i'r cais.

6.6. Mae manylion cyswllt ar gyfer yr holl awdurdodau cyfrifol i'w gweld ar wefan y Cyngor yn www.npt.gov.uk/cy/busnes/trwyddedau ac yn Atodiad 1.

## Hysbysebu'r Cais

6.7. Bydd yn ofynnol i geisyddion hysbysebu cais am Drwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb newydd neu amrywiad i drwydded neu dystysgrif o'r fath sydd eisoes yn bodoli, a chais am Ddatganiad Dros Dro.

6.8. Ar y diwrnod pan gaiff cais ei gyflwyno, bydd yn rhaid cyflwyno copïau o'r cais i'r holl Awdurdodau Cyfrifol hefyd (fel y nodir yn Adran 11). Os caiff cais ei gyflwyno'n ddigidol gan ddefnyddio porth Gov.UK neu drwy e-bost (gyda chytundeb yr Awdurdod Trwyddedu), bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cyflwyno'r copïau hyn ar ran y ceisydd. Fodd bynnag, os caiff cais ei gyflwyno drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol, e.e. ar bapur, cyfrifoldeb y ceisydd fydd cyflwyno'r copïau o'r cais i'r Awdurdodau Cyfrifol.

6.9. Bydd yn rhaid arddangos hysbysiad glas ar y safle am gyfnod o 28 diwrnod a fydd yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno. Rhaid i'r hysbysiad fod i'w weld yn glir 24 awr y dydd ac yn ddarllenadwy i bobl sy'n cerdded heibio. Mae cynnwys yr hysbysiad glas wedi'i ragnodi, ac mae templed ar gael ar wefan y Cyngor.

6.10. Rhaid i gopi o'r hysbysiad a ddisgrifir uchod gael ei hysbysebu ar un achlysur mewn papur newydd sy'n cylchredeg yng nghyffiniau'r safle, a hynny o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r Awdurdod Trwyddedu gael y cais.

6.11. Ar gyfer mân amrywiadau, ni fydd yn ofynnol i'r ceisydd anfon copïau i'r awdurdodau cyfrifol nac i bapur newydd er mwyn cyhoeddi hysbysiad, a

dim ond hysbysiad ar bapur gwyn y bydd angen ei arddangos ar y safle, a hynny am 10 diwrnod.

6.12. Mae manylion llawn am y gofynion hysbysebu ar gyfer ceisiadau i'w gweld yn y Canllawiau Adran 182 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.

## 7. Amserlenni Gweithredu

7.1. Dylai pob cais newydd a phob cais am amrywiad gynnwys 'Amserlen Weithredu' sy'n amlinellu sut y caiff y safle ei weithredu. Mae'r ffurflen gais ragnodedig yn cynnwys adran lle y gellir nodi'r wybodaeth hon neu, ar gyfer amserlenni gweithredu mwy, mae'n bosibl y bydd ceiswyr yn dymuno cynnwys gwybodaeth fel atodiad i'r cais.

7.2. Bydd yr Amserlen Weithredu yn cynnwys manylion am sut y bydd y ceisydd yn hyrwyddo'r pedwar Amcan Trwyddedu ac felly'n lleihau unrhyw effaith negyddol bosibl ar y gymuned leol yn sgil gweithredu ei fusnes, yn dibynnu ar y math o safle, y lleoliad a'r proffil cwsmeriaid.

7.3. Y cynigion a gaiff eu cynnwys yn yr Amserlen Weithredu fydd prif gorff yr amodau i'w gosod ar y drwydded, ynghyd â'r canlynol:

- unrhyw amodau gorfodol perthnasol;
- unrhyw amodau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdodau cyfrifol yn ystod y broses gwneud cais;
- unrhyw amodau a osodwyd gan Bwyllgor Trwyddedu (gweler paragraff XX isod) lle mae sylwadau wedi cael eu gwneud.

7.4. Pan fyddant yn cwblhau Amserlen Weithredu, disgwylir i geisyddion roi sylw i'r Polisi Trwyddedu hwn a dangos gwybodaeth addas am eu hardal leol wrth ddisgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

7.5. Bydd y cymhlethdod a'r manylder a fydd yn ofynnol yn yr Amserlen Weithredu'n dibynnu ar natur a defnydd y safle dan sylw. Ar gyfer safle megis tŷ tafarn lle na ddarperir Adloniant a Reoleiddir, mae'n bosibl mai

dim ond dogfen gymharol syml fydd yn ofynnol. Fodd bynnag, ar gyfer Amserlen Weithredu sy'n cyd-fynd â chais am leoliad neu ddigwyddiad adloniant mawr, disgwylir i faterion megis diogelwch y cyhoedd ac atal troseddu ac anhrefn gael sylw manwl.

7.6. Ar gyfer rhai safleoedd, mae'n bosibl na fydd dim mesurau'n briodol i hyrwyddo un neu fwy o'r Amcanion Trwyddedu, er enghraifft am eu bod wedi'u cwmpasu'n ddigonol gan ddeddfwriaeth arall sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pob Amserlen Weithredu:

- Yn fanwl gywir ac yn orfodadwy
- Yn ddiamwys
- Yn osgoi dyblygu darpariaethau statudol eraill
- Yn glir o ran yr hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni
- Yn briodol, yn gymesur ac yn gyfiawnadwy.

7.7. Rhaid cwblhau holl adrannau'r ffurflen gais, a dylai'r cais gynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r Awdurdod Trwyddedu, unrhyw berson arall ac unrhyw Awdurdod Cyfrifol i asesu'r camau y mae'r ceisydd yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

7.8. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys adrannau i gynnwys manylion am y canlynol:

- Gweithgareddau trwyddedadwy perthnasol i'w cynnal ar y safle
- Amseroedd/diwrnodau o'r wythnos, gan gynnwys amseriadau ansafonol, pan gaiff y gweithgareddau eu cynnal
- Unrhyw adegau eraill pan fydd y safle ar agor i'r cyhoedd
- Pan fydd angen y drwydded am gyfnod cyfyngedig, y cyfnod hwnnw
- Os bydd y gweithgareddau'n cynnwys cyflenwi alcohol, enw a chyfeiriad y Goruchwyliwr Safle Dynodedig (Trwyddedau Safle yn unig)
- Os bydd alcohol yn cael ei gyflenwi, p'un a fydd yn cael ei yfed ar y safle neu oddi arno neu'r ddau
- Os bydd adloniant neu wasanaethau oedolion o unrhyw fath (p'un a ydynt yn drwyddedadwy ai peidio) yn cael eu darparu ar y safle, rhaid rhoi manylion llawn

- Y camau y mae’r ceisydd yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo’r Amcanion Trwyddedu

7.9. Wrth ystyried y camau a gymerir i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, bydd disgwyl i geisyddion gynnal asesiad risg trylwyr o'r safle a'i weithrediad mewn perthynas â phob un o'r Amcanion Trwyddedu.

7.10. Dylid ystyried y canlynol yn arbennig:

- Y mesurau a gaiff eu rhoi ar waith i atal anhrefn a sicrhau diogelwch y cyhoedd, e.e. defnyddio teledu cylch cyfyng, cyflogi goruchwylwyr drysau, ffyrdd i mewn/allan, mathau o lestri yfed a ddefnyddir megis gwydr neu blastig.
- Y mesurau a gaiff eu rhoi ar waith i amddiffyn plant rhag niwed, megis atal gwerthiannau dan oed, Polisi Herio 25, cyfyngu ar fynediad plant i'r safle (lle bo hynny'n briodol).
- Y mesurau a gaiff eu rhoi ar waith i atal niwsans cyhoeddus, megis rheoli ymddygiad cwsmeriaid, gosod defnyddiau gwrthsain, dyfeisiau monitro lefelau sain/cyfyngu ar sain, cynlluniau rheoli sŵn, hysbysiadau wrth yr allanfeydd.
- Y mesurau y bwriedir eu rhoi ar waith i atal pobl rhag cymryd neu gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon a meddu ar arfau ymosodol, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau chwilio a pholisïau mynediad.
- Y tebygolrwydd o unrhyw anhrefn gyhoeddus, trais neu droseddau eraill sy'n gysylltiedig ag alcohol pe bai trwydded yn cael ei rhoi.

## Cyfnod Gorffen Yfed / Pwyllo

7.11. Er na chafodd y cyfnod gorffen yfed traddodiadol ei gario drosodd i Ddeddf Trwyddedu 2003, mae’r Awdurdod Trwyddedu'n argymell y dylai ceisyddion am drwyddedau / tystysgrifau ar gyfer gwerthu alcohol ymlaen ystyried cyfnod gorffen yfed / pwyllo. Yn ystod y cyfnod hwn, gellir gostwng lefel sain y gerddoriaeth, a gall y cwsmeriaid orffen eu diodydd a gwneud trefniadau i gael eu cludo o’r safle. Mae’r Awdurdod Trwyddedu o'r farn y bydd cyfnod gorffen yfed o 30 munud yn helpu i wasgaru cwsmeriaid yn raddol ac felly'n lleihau unrhyw effaith negyddol bosibl ar yr ardal.

## Cerddoriaeth Awyr Agored

7.12. Yn gyffredinol, bydd ceisiadau sy'n cynnwys chwarae cerddoriaeth fyw neu recordiedig yn yr awyr agored yn nodi y bydd y gerddoriaeth yn dod i ben am 23:00 o'r gloch.

7.13. Dan rai amgylchiadau, caniateir chwarae cerddoriaeth y tu hwnt i 23:00 o'r gloch, ond bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r ceisydd gyflwyno cynllun rheoli sŵn cynhwysfawr sy'n nodi'r mesurau a fydd ar waith i atal unrhyw niwsans cyhoeddus dan yr amgylchiadau hyn.

7.14. Bydd Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor yn talu sylw arbennig i unrhyw gais lle y cynigir darparu cerddoriaeth yn yr awyr agored ar ôl 23:00 o'r gloch.

7.15. Anogir ceisyddion i ymgysylltu â'r Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ar gam cynnar yn eu cais (gweler Atodiad 1).

# 8. Digwyddiadau a Gwyliau

8.1. Cyn trefnu digwyddiad neu ŵyl, bydd yn rhaid ystyried llawer o faterion. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried polisïau corfforaethol y Cyngor wrth benderfynu ar geisiadau am Drwydded Safle. Y prif bolisïau i'w hystyried yw:

- Strategaeth Ddiwylliant
- Cynllun Rheoli Cyrchfan
- Strategaeth Ddigwyddiadau

8.2. Mae gan y Cyngor wybodaeth fanwl am drefnu digwyddiadau a gwyliau, a'r prosesau y bydd angen eu dilyn i wneud cais am ganiatâd, ar wefan y Cyngor yn https://www.npt.gov.uk/cy/diwylliant-a-thwristiaeth/

8.3. Dylai unrhyw berson sy'n trefnu digwyddiad neu ŵyl yng Nghastell-nedd Port Talbot gofrestru ei ddigwyddiad yn y cyfeiriad gwe a roddir yn 7.2 uchod, gan mai dyna'r ffordd fwyaf effeithlon o sicrhau y bydd holl adrannau ac asiantaethau partner y Cyngor yn cael gwybod.

### Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch

8.4. Sefydlwyd Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch y Cyngor er mwyn annog pobl i drefnu digwyddiadau yn ardal Castell-nedd Port mewn ffordd sy'n sicrhau y caiff y digwyddiadau hyn eu cynnal gan roi'r sylw pennaf i ddiogelwch, a'u bod yn llwyddiannus yn y pen draw. Partneriaeth ymgynghorol rhwng yr awdurdod lleol a gwasanaethau brys yr ardal, gan gynnwys yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r Gwasanaeth Ambiwlans lleol, yw'r Grŵp Cynghori.

8.5. Bydd y Grŵp fel arfer yn cynghori ar drefnu digwyddiadau lle y bydd mwy na 500 o bobl yn bresennol ond, weithiau, pan ellid dehongli y gallai rhan o ddigwyddiad arfaethedig fod yn beryglus, bydd y Grŵp hefyd yn cynghori ar drefnu'r digwyddiad hwnnw, hyd yn oed os bydd y cyfanswm a fydd yn bresennol yn llai na 500 o bobl.

8.6. Lle y bo'n briodol, caiff trefnwyr digwyddiadau eu gwahodd i gyfarfod o'r Grŵp Cynghori i esbonio eu cynlluniau a chynnig cyfle i bob parti ofyn cwestiynau. Caiff y cyfarfodydd hyn eu cynnal yn rhithwir fel arfer, a chânt eu trefnu drwy Grŵp Rheoli Digwyddiadau a Digwyddiadau Arbennig y Cyngor o fewn yr Adran Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

## 9. Cyfraith Martyn

9.1. Cafodd Deddf Terfysgaeth (Diogelu Mangreoedd) 2025, a elwir hefyd yn Gyfraith Martyn, Gydsyniad Brenhinol ddydd Iau 3 Ebrill 2025. Prif Awdurdod Llywodraethu'r Ddeddf yw Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA). Mae'r Ddeddf yn cyflawni ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth i atgyfnerthu diogelwch safleoedd a digwyddiadau cyhoeddus. Disgwylir i safleoedd trwyddedig gydymffurfio'n llawn â'r Canllawiau a'r Rheoliadau a gyhoeddir yn y dyfodol.

9.2. Er mwyn hyrwyddo Cyfraith Martyn ymhlith safleoedd, mae cyrsiau hyfforddi ar ymwybyddiaeth o wrthderfysgaeth ar gael am ddim i safleoedd trwyddedig. Caiff deiliaid trwyddedau, Goruchwylwyr Safle Dynodedig a phobl mewn swyddi rheoli eu hannog yn gryf i gwblhau'r hyfforddiant. Gellir trefnu i gael yr hyfforddiant am ddim yn https://ct.protectuk.police.uk/

9.3. Mae rhagor o fanylion am Gyfraith Martyn i'w gweld ar wefannau'r Swyddfa Gartref a'r Awdurdod Diogelwch. https://www.gov.uk/government/news/martyns-law-to-ensure-stronger-protections-against-terrorism-in-public-places

## 10. Amodau

10.1. Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn nodi amodau gorfodol sy'n berthnasol i Drwyddedau Safle a Thystysgrifau Safle Clwb yn unol â'r gweithgareddau y maent wedi'u hawdurdodi i'w cynnal. Caiff yr amodau hyn eu hychwanegu'n awtomatig at bob trwydded a gymeradwyir.

10.2. Gall yr Awdurdod Trwyddedu drosi'r wybodaeth a gynigir yn yr Amserlen Weithredu yn amodau gorfodadwy. Lle y credir bod y wybodaeth yn amwys neu'n anorfodadwy, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio aralleirio'r amodau hyn gyda chytundeb y ceisydd.

10.3. Gall yr Awdurdod Trwyddedu hefyd osod amodau ychwanegol, os daw Sylwadau Perthnasol i law mewn perthynas â chais ac os ystyrir y bydd amodau o'r fath yn briodol er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. Dim ond os cânt eu gosod gan Bwyllgor Trwyddedu neu os bydd pob parti'n cytuno arnynt cyn i wrandawiad trwyddedu gael ei gynnal y gellir ychwanegu'r amodau hyn at drwydded.

10.4. Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi datblygu cronfa amodau enghreifftiol sy'n nodi'r mathau o amodau y gall ceisyddion ddisgwyl eu gweld yn cael eu cynnwys mewn unrhyw drwydded a gymeradwyir neu eu

hychwanegu ati.  Felly, anogir ceisyddion i gynnwys amodau priodol o'r gronfa hon yn eu hamserlenni gweithredu.

10.5. Mae'r gronfa amodau enghreifftiol i'w gweld yn Atodiad 2.

## 11. Awdurdodau Cyfrifol, Personau Eraill a Sylwadau

### Awdurdodau Cyfrifol

11.1. Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn pennu pa awdurdodau cyfrifol sy'n gallu gwneud sylwadau ar geisiadau, neu bwy sy'n gallu gwneud cais am adolygiad o drwydded sydd eisoes yn bodoli.  Yn y Cyngor, mae'r rhain fel a ganlyn:

- Heddlu De Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Awdurdod Trwyddedu Cyngor Castell-nedd Port Talbot (gweler paragraff 11.2 isod)
- Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot (Niwsans Cyhoeddus)
- Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot (Iechyd a Diogelwch)
- Adran Safonau Masnach Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Gwasanaethau Plant Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Adran Gynllunio Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Adran Fewnfudo'r Swyddfa Gartref
- Mewn perthynas â chwch neu long: awdurdod mordwyaeth; Cyfoeth Naturiol Cymru; neu Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain.

11.2. Mewn achosion lle y bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol, bydd gan yr Awdurdod Trwyddedu gyfrifoldebau wedi'u gwahanu er mwyn sicrhau tegwch gweithdrefnol ac osgoi gwrthdaro buddiannau.  Caiff hyn ei gyflawni drwy glustnodi rôl yr

awdurdod cyfrifol i'r Uwch-swyddog Rheoleiddio Cyfreithiol / yr Uwch-swyddog Trwyddedu er mwyn sicrhau y caiff cyfrifoldebau eu gwahanu'n briodol.

11.3. Gan ei bod yn bosibl y bydd manylion cyswllt Awdurdodau Cyfrifol yn newid, mae rhestr lawn wedi cael ei chyhoeddi ar wefan y Cygor yn www.npt.gov.uk/cy/busnes/trwyddedau ac yn Atodiad 1.

## Person Eraill a Sylwadau

11.4. Gall unrhyw 'berson arall' wneud Sylwadau Perthnasol ynglŷn â cheisiadau penodol a gyflwynir i'r Awdurdod Trwyddedu, waeth beth fo'i leoliad daearyddol mewn perthynas â'r safle. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn rhoi mwy o bwys i sylwadau a wneir gan bobl sy'n gallu dangos y byddai gweithgareddau trwyddedadwy ar y safle dan sylw yn cael effaith uniongyrchol arnynt.

11.5. Rhaid i bob sylw fod yn berthnasol. I fod yn berthnasol, rhaid i'r sylwadau fod yn gysylltiedig ag un neu fwy o'r Amcanion Trwyddedu.

11.6. Yn achos personau eraill, gall yr Awdurdod Trwyddedu wrthod sylwadau y mae'n credu eu bod yn amherthnasol, yn wamal, yn flinderus neu'n ailadroddus.

11.7. Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu fydd yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â dilysrwydd sylwadau fel arfer. Mewn achosion ffiniol, rhoddir mantais yr amheuaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd ar sylw i'r person sy'n gwneud y sylw hwnnw. Wedyn, byddai'r gwrandawiad dilynol yn gyfle i'r person neu'r corff sy'n gwneud y sylw ymhelaethu arno a'i egluro.

11.8. Er y gall pob Awdurdod Cyfrifol wneud sylwadau ynglŷn â cheisiadau am Drwyddedau Safle a Thystysgrifau Safle Clwb a cheisiadau amrywio llawn, cyfrifoldeb pob Awdurdod Cyfrifol fydd penderfynu a oes ganddynt sail briodol dros wneud hynny.

11.9. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod y gall pob Awdurdod Cyfrifol wneud sylwadau ynglŷn ag unrhyw rai o'r pedwar Amcan Trwyddedu.

Fodd bynnag, byddai'r Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn disgwyl i sylwadau ynglŷn â hyrwyddo Amcanion Trwyddedu unigol gael eu gwneud gan yr Awdurdod Cyfrifol mwyaf perthnasol sydd ag arbenigedd yn y maes hwnnw. Er enghraifft, byddai'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i sylwadau ynglŷn ag atal troseddu ac anhrefn gael eu gwneud gan yr Heddlu yn bennaf, ac i sylwadau ynglŷn ag atal niwsans cyhoeddus gael eu gwneud gan adran Iechyd yr Amgylchedd yn bennaf.

11.10. Rhaid i'r holl sylwadau gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu yn unol â'r amserlenni statudol a nodir yn y Ddeddf neu'r Rheoliadau cysylltiedig. Mae'r gyfraith yn atal yr Awdurdod Trwyddedu rhag derbyn sylwadau hwyr. Yn achos ceisiadau am Drwyddedau Safle/Tystysgrifau Safle Clwb newydd ac amrywiadau, bydd y dyddiad cau ar gyfer gwneud unrhyw sylwadau, a'r cyfeiriad y bydd yn rhaid eu hanfon iddo, i'w gweld ar hysbysiad a fydd yn cael ei arddangos ar y safle ac mewn hysbysiad y bydd y ceisydd yn ei gyhoeddi mewn papur newydd lleol.

## Deisebau

11.11. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n derbyn deisebau, ond ceir rhai ffactorau pwysig i'w hystyried cyn trefnu deiseb:

- Dylai trefnydd y ddeiseb enwi ei hun yn bwynt cyswllt canolog.
- Dylai pob un o dudalennau'r ddeiseb gynnwys gwybodaeth am ddiben y ddeiseb er mwyn sicrhau y bydd pob person yn gwybod beth mae'n ei lofnodi.
- Rhaid rhoi enwau a chyfeiriadau llawn.
- Rhaid rhoi gwybod i'r holl lofnodwyr y bydd copi o'r ddeiseb yn cael ei gyflwyno i'r ceisydd ac y bydd copi'n cael ei gadw o fewn papurau'r pwyllgor, ac felly y bydd eu manylion personol yn hysbys i'r cyhoedd.

11.12. Ni fyddwn yn ysgrifennu at bob llofnodwr ar wahân; yn lle hynny byddwn yn cymryd yn ganiataol y bydd y trefnydd yn rhannu dyddiad y gwrandawiad a chanlyniad y cais â phob llofnodwr.

11.13. Disgwylir i'r trefnydd gynrychioli'r llofnodwyr yn y gwrandawiad a siarad ar eu rhan. Wrth wneud penderfyniad, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi pwys priodol i ddeiseb. Dylai'r rhai hynny sy'n dymuno gwneud

sylwadau werthfawrogi bod ansawdd y sylwadau yn ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniad.

## 12. Dirprwyo Swyddogaethau a'r Pwyllgor Trwyddedu

12.1. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n rhan o amrywiaeth eang o benderfyniadau trwyddedu ac mae wedi sefydlu Pwyllgorau Trwyddedu i'w gweinyddu, sef y "Pwyllgor Trwyddedu Statudol" a'r "Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol" (yr "Is-bwyllgor").

- Y Pwyllgor Trwyddedu Statudol sy'n gyfrifol am lunio a chymeradwyo polisïau a goruchwylio'r Is-bwyllgor.
- Yr Is-bwyllgor sy'n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau cynhennus am drwyddedau.

12.2. Os na fydd cais am drwydded yn arwain at sylwadau gan unrhyw Awdurdod Cyfrifol na Phersonau Eraill, caiff y pŵer i gymeradwyo'r cais ei ddirprwyo i swyddogion. Mae rhestr o'r pwerau dirprwyedig i'w gweld yn y tabl isod:

| **Mater i ymdrin ag ef** | **Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol** | **Swyddogion** |
|---|---|---|
| Cais am Drwydded Bersonol heb ddim euogfarnau heb eu disbyddu | Os bydd gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Os na fydd gwrthwynebiad |
| Cais am Drwydded Bersonol gydag euogfarnau heb eu disbyddu | Pob achos | Os na fydd gwrthwynebiad |
| Cais am Drwydded Safle/Tystysgrif Safle Clwb | Os gwneir sylw perthnasol na chaiff ei dynnu'n ôl | Os na wneir sylw perthnasol neu os caiff sylw ei dynnu'n ôl neu os deuir i gytundeb ar ôl cyfryngu |

| | | |
|---|---|---|
| Cais am ddatganiad dros dro | Os gwneir sylw perthnasol na chaiff ei dynnu'n ôl | Os na wneir sylw perthnasol neu os caiff sylw ei dynnu'n ôl neu os deuir i gytundeb ar ôl cyfryngu |
| Cais i amrywio Trwydded Safle/Tystysgrif Safle Clwb | Os gwneir sylw perthnasol na chaiff ei dynnu'n ôl | Os na wneir sylw perthnasol neu os caiff sylw ei dynnu'n ôl neu os deuir i gytundeb ar ôl cyfryngu |
| Cais i amrywio Goruchwyliwr Safle Dynodedig | Os bydd gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais am fân amrywiad | | Pob achos |
| Cais i amrywio trwydded ar safle cymunedol i gynnwys amod trwydded amgen | Os bydd gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais i ddileu enw Goruchwyliwr Safle Dynodedig | | Pob achos |
| Cais i drosglwyddo Trwydded Safle | Os bydd gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais am awdurdodau dros dro | Os bydd gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais i adolygu Trwydded Safle/Tystysgrif Safle Clwb | Pob achos | |
| Penderfyniad ynghylch a yw cwyn yn amherthnasol, yn wamal, yn flinderus ac ati | | Pob achos |
| Penderfynu ar wrthwynebiad gan yr Heddlu neu adran Iechyd yr Amgylchedd i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro | Ym mhob achos oni chaiff ei dynnu'n ôl | |
| Atal trwyddedau am beidio â thalu ffioedd blynyddol | | Pob achos |

12.3. Yr Is-bwyllgor fydd yn delio â cheisiadau lle y gwneir Sylwadau Perthnasol, ac eithrio dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os bydd sylwadau o'r fath wedi cael eu gwneud gan 'bersonau eraill' ac os credir eu bod yn amherthnasol, yn wamal, yn flinderus, neu
- Os bydd yr Awdurdod Trwyddedu, y ceisydd a phawb sydd wedi gwneud sylwadau yn cytuno nad oes angen gwrandawiad, h.y. os bydd pob parti wedi dod i gytundeb ar y cais.

12.4. Os bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n galw cyfarfod i ystyried cais cynhennus, caiff pawb sydd wedi gwneud sylw perthnasol ei wahodd i wrandawiad.

12.5. Bydd trafodion y gwrandawiad yn dilyn trefn benodol y dylai pawb sy'n bresennol ymgyfarwyddo â hi. Nodir Trefn y Trafodion ar gyfer gwrandawiadau'r Is-bwyllgor yn Atodiad 3.

## 13. Penderfynu ar Geisiadau

13.1. Fel yr amlinellir yn 12.2 uchod, os na ddaw sylwadau i law mewn perthynas â chais, caiff y pŵer i gymeradwyo'r cais ei ddirprwyo i swyddogion.

13.2. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, caiff y ceisydd ei hysbysu bod y drwydded wedi cael ei chymeradwyo. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n llunio trwydded swyddogol a chrynodeb o'r drwydded, a bydd sêl y Cyngor ar y naill a'r llall.

13.3. Ar ôl i'r drwydded gael ei rhoi, rhaid iddi gael ei chadw'n ddiogel ar y safle a rhaid i'r crynodeb o'r drwydded gael ei arddangos mewn lle amlwg o fewn y safle.

13.4. Os caiff cais ei gymeradwyo, ei gymeradwyo â diwygiadau a/neu amodau neu ei wrthod yn yr Is-bwyllgor, caiff hysbysiad cynhwysfawr o benderfyniad ei gyflwyno i bob parti o fewn pum diwrnod gwaith.

13.5. Bydd yr hysbysiad o benderfyniad yn nodi'r trafodaethau a gafwyd yn ystod y gwrandawiad, y rhesymau dros benderfyniad yr Is-bwyllgor, a'r rhesymau dros apelio.

## 14. Ceisiadau Trwydded Bersonol

14.1. Dylai ceisiadau am Drwydded Bersonol gael eu gwneud ar y ffurflen gais ragnodedig a'u cyflwyno i awdurdod lleol yr ardal y mae'r ceisydd yn byw ynddi fel arfer.

14.2. Ar hyn o bryd, ni ellir gwneud cais drwy borth Gov.UK, ond gellir gwneud cais drwy e-bost, gyda chytundeb yr Awdurdod Trwyddedu. Gellir hefyd wneud cais drwy gwblhau a chyflwyno ffurflen gais bapur naill ai drwy'r post neu â llaw yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd neu Bort Talbot. Dylai unrhyw berson a hoffai gael cyngor ac arweiniad ar wneud cais gysylltu â swyddogion yn LRS@npt.gov.uk er mwyn gwneud apwyntiad i gael cyfarfod (os bydd angen).

14.3. Mae gwybodaeth fanwl am drwyddedau personol, gan gynnwys y broses gwneud cais, i'w gweld yn y Canllawiau Adran 182 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.

# Pennod 3 – Rheoli Trwyddedau Safle a Thystysgrifau Safle Clwb

*Mae'r bennod hon yn ymwneud â rheoli safle ar ôl i drwydded gael ei rhoi.*

## 15. Cydymffurfiaeth a Gorfodi

15.1. Ar ôl i drwydded gael ei rhoi, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ddeiliaid trwyddedau/tystysgrifau, goruchwylwyr safle ac aelodau eraill o staff sy'n gyfrifol am reoli safle gydymffurfio â thelerau ac amodau'r drwydded.

15.2. Ar gyfer Trwyddedu Safle a Thystysgrifau Safle Clwb, caiff y drwydded ei rhoi mewn dwy ran: Rhan 1 – "Trwydded" a Rhan 2 – "Crynodeb".

- Rhan 1 – Trwydded: Rhaid i'r rhan hon gael ei chadw'n ddiogel ar y safle yn rhywle lle y gellir cael gafael arni'n hawdd os bydd swyddog awdurdodedig yn gofyn am gael ei gweld.

- Rhan 2 – Crynodeb: Rhaid i'r rhan hon gael ei harddangos mewn lle amlwg ar y safle.

15.3. Bydd y Drwydded yn nodi'r telerau ac amodau a oedd yn sail dros roi'r drwydded, gan gynnwys yr amodau gorfodol, amodau sy'n gyson â'r Amserlen Weithredu ac unrhyw amodau a fydd wedi cael eu hychwanegu ar ôl gwrandawiad Pwyllgor Trwyddedu.

15.4. Bydd swyddogion cydymffurfiaeth a gorfodi o'r Awdurdod Trwyddedu yn cynnal arolygiadau rheolaidd o safleoedd trwyddedig yn seiliedig ar asesiad risg. Mae'n bosibl y bydd swyddogion hefyd yn cynnal arolygiadau mewn ymateb i gwynion a ddaw i law ynglŷn â safle trwyddedig.

15.5. Yn ystod arolygiadau, bydd swyddogion yn disgwyl gweld bod y crynodeb o'r drwydded yn cael ei arddangos, bod y safle'n cydymffurfio ag amodau'r drwydded, a bod person priodol wedi cael ei ddynodi'n unigolyn sy'n gyfrifol am y safle ar adegau pan fo'r safle ar agor ac yn cynnal gweithgareddau trwyddedadwy.

15.6. Os bydd swyddogion yn darganfod nad yw safle'n cydymffurfio â thelerau ac amodau ei drwydded, neu nad yw'r safle'n hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, byddant yn cymryd camau gorfodi yn unol â dull gorfodi graddedig yr Awdurdod Trwyddedu.

## Dull Gorfodi Graddedig

15.7. Bydd y dull graddedig yn aml yn dechrau â chyngor anffurfiol a rhybuddion llafar ac mae'n bosibl y caiff ei uwchgyfeirio drwy gamau cyflwyno hysbysiadau, rhoi rhybuddion ysgrifenedig a rhybuddiadau syml, gan arwain o bosibl at adolygiad neu erlyniad. Mae'n bosibl y bydd rhai materion yn achosion llai difrifol o dorri'r ddeddfwriaeth a orfodir, ac y bydd cymesuredd a thegwch yn mynnu y dylid rhoi cyngor a chymryd camau gorfodi ar raddfa lai. Fodd bynnag, bydd rhai materion yn fwy difrifol, gan ymwneud ag esgeuluster, anonestrwydd, twyll, gweithredoedd bwriadol neu bersonau agored i niwed o bosibl ac, oherwydd eu natur, dylid ystyried y byddai adolygiad neu erlyniad yn briodol ar gyfer y rhain, heb ddilyn y dull graddedig. Mae'r opsiynau sydd ar gael wedi'u hamlinellu isod.

### *Cyngor ac arweiniad anffurfiol*

15.8. Gall hyn fod ar ffurf arweiniad a chyngor ar lafar ynglŷn â sut i osgoi torri'r ddeddfwriaeth eto yn y dyfodol, ynghyd â llythyr ysgrifenedig i ddilyn. Bydd y cyngor a'r arweiniad yn glir ac yn syml, gan wahaniaethu'n glir rhwng gofynion cyfreithiol a chyngor ar arferion gorau os bydd hynny'n briodol. Caiff y cyngor a'r arweiniad a roddir eu cofnodi ac mae'n bosibl y cânt eu defnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos yn erbyn diffyg cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

*Rhybuddiad syml*

15.9. Bydd gan yr Awdurdod Trwyddedu hawl i gynnig rhybuddiad syml dan amgylchiadau lle y ceir tystiolaeth ddigonol o debygolrwydd realistig o euogfarn ac os bydd y troseddwr yn cyfaddef iddo gyflawni'r drosedd ac yn rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth i gael rhybuddiad. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried rhoi rhybuddiad syml wrth benderfynu ar gamau gorfodi, fel dewis arall yn lle erlyniad. Caiff penderfyniadau o'r fath eu gwneud ar ôl ystyried ffeithiau pob achos a lefel difrifoldeb y drosedd neu'r troseddau yr ymchwilir iddynt. Os caiff y ddeddfwriaeth ei thorri eto yn y dyfodol, gellir cyfeirio at y rhybuddiad mewn unrhyw achos llys dilynol.

*Adolygiad o drwydded*

15.10. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, yn rhinwedd ei rôl fel Awdurdod Cyfrifol, yn gallu gwneud cais am adolygiad o drwydded unrhyw bryd ar ôl i drwydded gael ei rhoi. Mae rôl yr Awdurdod Trwyddedu fel Awdurdod Cyfrifol wedi cael ei dirprwyo i'r Uwch-swyddog Rheoleiddio Cyfreithiol / yr Uwch-swyddog Trwyddedu yn unig, sy'n sicrhau y caiff cyfrifoldebau eu gwahanu'n briodol.

15.11. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod mai'r Awdurdodau Cyfrifol eraill fydd â'r prif arbenigedd yn eu meysydd gwaith eu hunain ac felly bydd yn disgwyl i'r Awdurdod Cyfrifol perthnasol gychwyn adolygiad (lle y bo'n briodol) yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu, wrth weithredu fel Awdurdod Cyfrifol, yn cychwyn adolygiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r Amcanion Trwyddedu os bydd ganddo gyfiawnhad dros wneud hynny.

15.12. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi ystyriaeth arbennig o ddifrifol i geisiadau am adolygiad o unrhyw Drwydded Safle sy’n ymwneud â'r canlynol:

- defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu cyffuriau a reolir a gwyngalchu enillion yn sgil troseddau cyffuriau
- defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu arfau tanio anghyfreithlon

- osgoi hawlfraint mewn perthynas â ffilmiau a cherddoriaeth wedi’u lladrata
- prynu ac yfed alcohol dan oedran
- defnyddio safle trwyddedig ar gyfer puteindra neu i werthu pornograffi anghyfreithlon
- defnyddio safle trwyddedig ar gyfer hapchwarae anghyfreithlon
- defnyddio safle trwyddedig fel canolfan ar gyfer gweithgarwch troseddol cyfundrefnol
- defnyddio safle trwyddedig i drefnu camdriniaeth neu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu rywiol
- defnyddio safle trwyddedig i werthu tybaco neu nwyddau wedi’u smyglo
- defnyddio safle trwyddedig i storio neu werthu nwyddau wedi’u dwyn
- yr Heddlu'n cael ei alw'n aml er mwyn mynd i’r afael ag achosion o anhrefn
- achosion estynedig a/neu fynych o niwsans cyhoeddus
- risg ddifrifol i ddiogelwch y cyhoedd wedi’i hadnabod a'r rheolwyr yn methu neu'n anfodlon ei hunioni
- risg ddifrifol i blant.

15.13. Bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu’n ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynir yn y gwrandawiad ac yn rhoi pwys priodol i’r dystiolaeth honno wrth wneud ei benderfyniad.

15.14. Bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu’n ystyried yr holl sancsiynau sydd ar gael iddo a ddarperir yn Neddf Trwyddedu 2003 a’r canllawiau priodol, gan gynnwys peidio â chymryd camau os bydd hynny'n briodol.

15.15. Mewn achosion lle y caiff un o'r Amcanion Trwyddedu ei danseilio’n ddifrifol, ystyrir dirymu'r drwydded, hyd yn oed yn y lle cyntaf, os bydd hynny'n briodol er mwyn sicrhau y caiff yr Amcanion Trwyddedu eu hyrwyddo.

### *Erlyniad*

15.16. Gall erlyniad arwain at ganlyniadau difrifol i fusnes neu unigolyn: cosbau ariannol, cofnod troseddol, cyhoeddusrwydd andwyol, effaith andwyol

ar sefyllfa fasnachu busnes, a hyd yn oed golli rhyddid mewn rhai achosion. Am y rhesymau hyn, nid ar chwarae bach y caiff y penderfyniad i erlyn ei wneud ac, fel arfer, dim ond yn achos y troseddau mwyaf difrifol y gwneir hyn.

15.17. Wrth benderfynu a ddylid cychwyn achos, rhoddir sylw arbennig i'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron, sy'n ei gwneud yn ofynnol asesu dwy elfen, sef y prawf tystiolaethol a'r prawf lles y cyhoedd.

15.18. Mae'r prawf tystiolaethol yn mynnu ei bod yn rhaid i'r dystiolaeth i ategu erlyniad gael ei hystyried yn dderbyniadwy yn y llys, yn ddibynadwy, ac o ansawdd a dyfnder digonol i roi tebygolrwydd realistig o euogfarn. Un rhan annatod o'r broses hon yw ystyried unrhyw amddiffyniad statudol a all fod ar gael a'r tebygolrwydd y bydd amddiffyniad o'r fath yn llwyddiannus.

15.19. Yn fras, mae'r prawf lles y cyhoedd yn golygu ystyried nifer o ffactorau sy'n ategu'r farn mai parhau â'r achos fyddai er lles y cyhoedd. Amlinellir y ffactorau perthnasol hyn yn y paragraff isod. Un ffactor ychwanegol sy'n arbennig o berthnasol i erlyniad yw p'un a fydd yr euogfarn yn arwain at ddedfryd neu gosb sylweddol ai peidio, gan gynnwys fforffedu nwyddau nad ydynt yn cydymffurfio, atafaelu enillion y drosedd, datgymhwyso cyfarwyddwyr cwmni a/neu iawndal i'r dioddefwr. Hefyd, rhoddir ystyriaeth i unrhyw effaith y gall erlyniad ei chael ar iechyd corfforol neu iechyd meddwl dioddefwr, yn amodol ar ddifrifoldeb y drosedd.

15.20. Nid mater o adio'r ffactorau ar y naill ochr a'r llall yw'r prawf lles y cyhoedd. Gwneir penderfyniad ym mhob achos unigol yn seiliedig ar y pwys a roddir i'r ffactorau perthnasol ac asesiad o'r sefyllfa gyffredinol, sy'n cyd-fynd â'r dull a amlinellir yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

15.21. Mewn achosion lle y bydd achos cyfreithiol yn cael ei gychwyn, rhoddir ystyriaeth i hawl y diffynnydd i'r mater gael ei ddwyn o flaen y llys heb oedi gormodol. Bydd yr hyn sy'n gyfystyr ag oedi gormodol yn dibynnu ar y dyddiad y daeth y drosedd i'r amlwg, cyfraniad y diffynnydd at yr

oedi, cymhlethdod y drosedd a/neu'r ymchwiliad a difrifoldeb y drosedd.

## 16. Cwynion

16.1. Mae'n bosibl y bydd trigolion a 'phersonau eraill' yn gwneud cwyn yn erbyn safle ni waeth p'un a ydynt wedi gwneud sylwadau neu wedi galw am adolygiad o drwydded sydd eisoes yn bodoli yn flaenorol ai peidio. Gall cwyn gael ei gwneud yn y lle cyntaf i'r Awdurdod Trwyddedu, a fydd yn delio â'r gŵyn a/neu'n ei hanfon ymlaen i'r Awdurdod Cyfrifol perthnasol (e.e. yn achos trosedd, caiff y gŵyn ei hanfon ymlaen i'r Heddlu).

16.2. Fel arall, gellir gwneud cwyn yn uniongyrchol i'r Awdurdod Cyfrifol priodol gan ddefnyddio'r manylion sydd yn Atodiad 1 ac ar ein gwefan yn www.npt.gov.uk/cy/busnes/trwyddedau.

16.3. Bydd personau eraill hefyd yn gallu cychwyn adolygiad o Drwydded Safle fel y disgrifir yn Adran 14.

## 17. Digwyddiadau / Partïon i Bobl o dan 18 oed ac Oedrannau Cymysg

### Digwyddiadau i Bobl o dan 18 oed yn Unig

17.1. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae amddiffyn plant rhag niwed yn un o'r pedwar Amcan Trwyddedu. Yn gyffredinol, nid yw'r Awdurdod Trwyddedu'n argymell digwyddiadau a gaiff eu hyrwyddo i ddenu pobl o dan 18 yn unig mewn safleoedd sydd wedi'u hawdurdodi i werthu alcohol, oherwydd y risg o niwed i bobl ifanc. Os bydd deiliad trwydded/Goruchwyliwr Safle Dynodedig yn penderfynu trefnu / cynnal digwyddiad o'r fath, dylai cynlluniau rheoli digwyddiad clir fod ar waith

sy'n dangos y mesurau a fydd ar waith i reoli a lliniaru'r niwed posibl i unigolion o dan 18 oed.

17.2. Gallai'r mesurau addas gynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr):

- Defnyddio system teledu cylch cyfyng sy'n bodloni gofynion a disgwyliadau'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu.
- Defnyddio niferoedd digonol o staff diogelwch sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- Rhoi gweithdrefnau mynediad a gwasgaru ar waith er mwyn sicrhau na chaiff pobl ifanc eu gadael mewn sefyllfa fregus y tu allan i'r safle.
- Os bydd bar fel arfer, sicrhau nad oes alcohol yn cael ei arddangos a'i fod o'r golwg dan glo.
- Sicrhau bod cyfnod o awr o leiaf rhwng diwedd y digwyddiad i bobl ifanc ac agor y lleoliad er mwyn dechrau darparu unrhyw adloniant oedolion.
- Chwiliadau ar y ffordd i mewn gan staff trwyddedig yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch, gan gynnwys pob bag, er mwyn atal pobl rhag mynd ag alcohol a sylweddau anghyfreithlon i mewn i'r safle.
- Os caiff alcohol ei atafaelu oddi ar unigolion o dan 18 oed, cofnodi'r manylion ar gofrestr.
- Os caiff y digwyddiad ei farchnata ymlaen llaw (ar y rhyngrwyd, ar daflenni, ar bosteri ac ati), nodi'n glir na fydd alcohol yn cael ei werthu i bobl o dan 18 oed, na fydd neb sy'n ymddangos fel pe baent yn feddw neu dan ddylanwad unrhyw sylwedd anghyfreithlon yn cael mynediad i'r digwyddiad, ac y bydd chwiliadau'n cael eu cynnal er mwyn sicrhau na fydd neb yn mynd ag alcohol i mewn i'r lleoliad. Argraffu'r oedrannau a ganiateir yn y digwyddiad mewn ysgrifen amlwg ar unrhyw docynnau a ddosberthir ar gyfer y digwyddiad.
- Sicrhau bod polisi ar waith ar gyfer delio â phobl ifanc o dan 18 oed sy'n ymddangos fel pe baent dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol sy'n ymgorffori'r lefel ddisgwyliedig o ddyletswydd gofal.
- Archwilio'r toiledau'n rheolaidd a chadw cofnodion o'r archwiliadau hynny.
- Sicrhau bod darpariaeth cymorth cyntaf ar gael ar y safle.

- Sicrhau bod polisi ar waith i atal unigolion dan oed rhag gadael a dychwelyd i'r safle ar ôl yfed alcohol y tu allan.
- Dylai digwyddiadau ddod i ben am 11.00pm fan bellaf.
- Dylid clustnodi ardal lle y gall unigolion sy'n sâl neu'n feddw, gan gynnwys pob ifanc dan oed, fynd i fan diogel i gael triniaeth feddygol neu, yn achos pobl ifanc dan oed, i gwrdd â rhiant, gwarcheidwad neu oedolyn cyfrifol.

### Digwyddiadau Oedrannau Cymysg

17.3. Digwyddiadau ar safleoedd trwyddedig a gaiff eu hyrwyddo i ddenu nifer sylweddol o bobl ifanc, heb oruchwyliaeth oedolion/gwarcheidwaid priodol, yw digwyddiadau oedrannau cymysg. Yn y digwyddiadau hyn, bydd alcohol ar gael i unigolion dros 18 oed ei brynu a'i yfed ar y safle, ond yng ngŵydd unigolion o dan 18 oed.

17.4. Ym marn yr Awdurdod Trwyddedu, hyd yn oed os bydd cynlluniau rheoli cadarn a ystyriwyd yn ofalus ar waith, bydd y risg o niwed i blant yn dal yn rhy uchel i allu rheoli digwyddiadau o'r fath yn ddiogel. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n annog pobl i beidio â chynnal digwyddiadau o'r fath ar safleoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol.

17.5. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod y dylai pob digwyddiad gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun ac, os caiff digwyddiadau o'r fath eu cynllunio, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n awgrymu y dylai'r trefnwyr ymgysylltu â'r awdurdodau cyfrifol yn gynnar yn y broses gynllunio.

## 18. Tystysgrifau Safle Clwb – Digwyddiadau Cyhoeddus

18.1. Caiff Tystysgrifau Safle Clwb eu rhoi i glybiau aelodau cymwys a rhaid eu gweithredu yn unol â'r rheolau ar gyfer clybiau.

18.2. Er y caniateir i glwb cymwys werthu a chyflenwi alcohol i'w aelodau a'u gwesteion, ni chaniateir iddo ddarparu gwasanaethau masnachol i'r cyhoedd mewn ffordd sy'n groes i'w statws fel clwb cymwys.

18.3. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod ei bod yn bosibl y bydd clybiau aelodau yn dymuno rhoi clwb neu ystafell mewn clwb ar log i bobl nad ydynt yn aelodau ar gyfer digwyddiadau, e.e. partïon priodas, penblwyddi ac ati, ond nid yw telerau'r Dystysgrif Safle Clwb yn caniatáu hyn, a bydd yn rhaid ceisio awdurdodiad amgen.

18.4. Bydd yn rhaid i glybiau aelodau sy'n dymuno gwerthu alcohol i bobl nad ydynt yn aelodau mewn digwyddiadau yn eu safleoedd naill ai feddu ar Drwydded Safle sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r Dystysgrif Safle Clwb, neu gael awdurdodiad ar gyfer pob digwyddiad unigol drwy Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro.

18.5. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n monitro clybiau aelodau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau hyn, a bydd yn cymryd camau gorfodi yn erbyn safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio.

## 19. Pobl sy'n Agored i Niwed yn Economi'r Nos

### Partneriaeth Lleihau Troseddau Busnes Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel

19.1. Ar hyn o bryd, mae dau gynllun ar waith, sef un yng nghanol tref Castell-nedd ac un yng nghanol tref Port Talbot. Mae'r ddau gynllun wedi hen ennill eu plwyf ymhlith aelodau o'r sectorau manwerthu a busnes.

19.2. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cefnogi Partneriaeth Lleihau Troseddau Busnes Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel ac yn annog deiliaid trwyddedau yng nghanol trefi Castell-nedd a Phort Talbot i fod yn aelodau ohoni ac, yn arbennig, i ddefnyddio system radio “NiteNet” i gyfathrebu â safleoedd trwyddedig eraill, lleihau nifer y troseddau a lleihau ofn troseddau.

## Gofyn am Angela

19.3. Cynllun nid-er-elw sydd â'r nod o sicrhau y gall unrhyw un sy'n teimlo'n agored i niwed neu'n anniogel gael y cymorth angenrheidiol yw Gofyn am Angela.

19.4. Mae'r cynllun yn gweithio drwy roi hyfforddiant i staff ar sut i ymdrin â phobl agored i niwed a beth i'w wneud pan fydd rhywun yn "Gofyn am Angela". Mae gwefan y cynllun yn www.askforangela.co.uk yn cynnwys rhagor o wybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau am ddim i unrhyw safleoedd a hoffai gymryd rhan.

19.5. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cefnogi'r cynllun ac yn annog safleoedd trwyddedig i ystyried cynnwys manylion Gofyn am Angela yn eu cynlluniau gweithredu busnes ochr yn ochr ag unrhyw bolisïau diogelu ehangach.

## Sbeicio Diodydd

19.6. Dylai safleoedd trwyddedig roi mesurau addas ar waith i atal achosion o sbeicio. Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd sbeicio'n cael ei wneud yn drosedd newydd, a bydd miloedd o staff sy'n gweithio yn economi'r nos hefyd yn cael hyfforddiant ar sut i adnabod sbeicio a mynd i'r afael ag ef.

19.7. Dyma enghreifftiau o'r amrywiaeth o ffyrdd o ymddwyn a fyddai'n cael eu hystyried yn gyfystyr â sbeicio:

- Rhoi alcohol yn niod unigolyn heb yn wybod iddo neu heb ei ganiatâd
- Rhoi cyffuriau yn niod alcoholaidd neu ddialcohol unigolyn heb yn wybod iddo neu heb ei ganiatâd

19.8. Rhaid i safleoedd weithredu bob tro y rhoddir gwybod am sbeicio ac y caiff pob achos o sbeicio honedig ei gofnodi a'i rannu â'r Heddlu. Bydd yn ddefnyddiol i'r Heddlu os bydd y staff yn gwneud y canlynol:

- casglu manylion llawn yr unigolyn yr effeithiwyd arno sy'n rhoi gwybod am y digwyddiad, gan gynnwys disgrifiad o'r hyn y mae'n ei wisgo;
- disgrifio'r troseddwr honedig, os yw'n hysbys, gan gynnwys dillad;
- nodi amser y digwyddiad yn fras a'r lleoliad ar y safle lle y credir iddo ddigwydd; sicrhau'r llestr(i) yfed yr honnir ei fod/eu bod yn cynnwys y 'cyffur' fel y bydd modd ei brofi/eu profi'n nes ymlaen;
- atafaelu unrhyw lestr yfed roedd yr unigolyn dan amheuaeth yn ei ddefnyddio o bosibl.

19.9. Sicrhau iechyd a diogelwch y cwsmer, er enghraifft drwy ffonio'r gwasanaethau brys, sicrhau ei fod gyda ffrindiau y mae'n ymddiried ynddynt ac a fydd yn gofalu amdano, cynnig cymorth os bydd angen, a chynnig man diogel i'r cwsmer.

19.10. Sicrhau y rhoddir hyfforddiant priodol i aelodau perthnasol o'r staff.

19.11. Adolygu gweithdrefnau chwilio a'u diwygio yn ôl yr angen, yn ogystal ag adolygu pa mor aml y caiff y toiledau eu harchwilio, gan fod dioddefwyr sbeicio wedi cael eu darganfod yno. Dylai safleoedd hefyd sicrhau bod unrhyw systemau teledu cylch cyfyng yn gweithio'n iawn ac nad oes dim byd yn ffordd y camerâu.

19.12. Ystyried rhoi gwybodaeth (megis posteri) am sbeicio diodydd yn y safle.

19.13. Ystyried a fyddai'n ddefnyddiol darparu topynnau poteli atal sbeicio a chaeadau amddiffyn diodydd.

19.14. Os caiff diodydd eu prynu o'r bar a'u gadael heb oruchwyliaeth ar fyrddau, dylid cymryd camau addas i sicrhau na fydd hyn yn peri risg ychwanegol o ganlyniad i arllwys yn rhydd neu roi alcohol yn niod unigolyn heb yn wybod iddo neu heb ei ganiatâd. Gallai hyn wneud pobl yn fwy agored i niwed, yn enwedig menywod a merched.

## Get Me Home Safely

19.15. Menter fyd-eang gan Undeb Unite er mwyn annog pawb i weithio gyda'i gilydd i gadw gweithwyr, yn enwedig menywod, yn ddiogel wrth gymudo i'r gwaith ac oddi yno yw Get Me Home Safely.

19.16. Egwyddor arweiniol ymgyrch Get Me Home Safely yw y dylai pob gweithiwr allu cael cludiant diogel bob awr o'r dydd ac y dylai cyflogwyr a staff fel ei gilydd ddatblygu atebion er mwyn sicrhau y gall pobl sy'n gweithio y tu hwnt i 11pm ddefnyddio cludiant i'r gwaith ac oddi yno yn ddiogel.

19.17. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n annog deiliaid trwyddedau i ystyried cludiant staff fel rhan annatod o weithredu busnes diogel a chynaliadwy, gan helpu i sicrhau y caiff pobl sy'n gweithio yn y sectorau hyn eu gwerthfawrogi. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n annog busnesau i ystyried beth y gallant ei wneud er mwyn i'r staff deimlo'n ddiogel. Ymhlith yr enghreifftiau i'w hystyried mae: -

- Costau teithio, sy'n aml yn anfforddiadwy i bobl sy'n gweithio patrymau shifft ac sydd ar gyflog isel a chontractau dim oriau
- Diffyg argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus ar ddiwedd shifft
- Y pellter y bydd yn rhaid i aelod o staff ei gerdded at y car, y tacsi, y trên neu'r bws
- Y llwybr y bydd yn rhaid i aelod o staff ei ddilyn
- Sut y bydd aelod o staff yn cyrraedd adref
- Gofyn i staff am eu pryderon

19.18. Er mwyn sicrhau bod aelodau'r gweithlu'n dawel eu meddwl ac yn hyderus ynghylch eu diogelwch, gofynnir i ddeiliaid trwyddedau ddod o hyd i atebion ymarferol i hwyluso teithiau diogel adref, drwy gyflwyno mesurau megis: -

- Patrymau shifft lle na fydd yr un unigolyn yn gadael ar ei ben ei hun
- Amseroedd diwedd shifft addas ar gyfer pobl y bydd angen iddynt ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau y gallant wneud y daith

- Cyfeillio, fel na fydd yn rhaid i'r un aelod o staff unigol deithio ar ei ben ei hun
- Darparu cludiant fel tacsi neu fws mini i fynd â staff adref
- Rhoi rhifau cyswllt cwmnïau tacsis yn yr ardal
- Cynnig tâl atodol ar gyfer teithiau tacsi i weithwyr shifft.

## Diogelu

19.19. Mae diogelu llesiant oedolion a phlant yn gyfrifoldeb i bawb, ond mae pobl sy'n gweithio mewn safleoedd trwyddedig yn cyflawni rôl arbennig o bwysig o ran adnabod pryderon posibl sy'n ymwneud â diogelu a rhoi gwybod amdanynt.

19.20. Bydd staff sy'n gweithio mewn safleoedd trwyddedig yn dod i gysylltiad â llawer o bobl, boed wrth weini diodydd wrth far, gweini byrddau, neu gasglu gwydrau a llestri gwag. Mae'n bosibl y bydd staff yn pryderu am ddiogelwch neu lesiant unigolyn:

- Os bydd unigolyn yn dweud rhywbeth wrthynt
- Os bydd unigolyn yn dweud rhywbeth sy'n peri pryder
- Os bydd trydydd parti yn codi pryderon
- Os bydd y staff yn gweld rhywbeth – digwyddiad neu anaf neu arwydd arall

19.21. Dylai hyfforddiant i staff, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i adnabod sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed a beth ddylai'r ymyriadau priodol fod, gael ei gynnwys yn yr holl hyfforddiant sefydlu a'r hyfforddiant gloywi a roddir i staff.

19.22. Gellir rhoi gwybod i Bwynt Cyswllt Unigol Diogelu'r Cyngor am unrhyw bryderon ynglŷn â phlant ac oedolion drwy ffonio 01639 686803 neu e-bostio spoc@npt.gov.uk. Os credir bod plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed mewn perygl ar unwaith, bydd yn rhaid cysylltu â'r gwasanaethau brys (yr Heddlu, Gwasanaeth Ambiwlans, Gwasanaeth Tân ac Achub) ar unwaith.

## 20. Ffioedd Blynyddol, Peidio â Thalu, a Sgamiau

20.1. Mae Deddf Trwyddedu 2003 a Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Ffioedd) 2005 yn nodi gofynion ar gyfer ffioedd blynyddol ac yn ei gwneud yn ofynnol talu'r ffi ar y dyddiad dyledus, sef bob blwyddyn ar ben-blwydd rhoi'r drwydded yn y lle cyntaf.

20.2. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n atal unrhyw drwydded neu dystysgrif dros dro os na chaiff y ffi ofynnol ei thalu erbyn y dyddiad dyledus, a bydd yn dilyn y weithdrefn isod: -

- Ar ôl cael gwybod/darganfod nad yw ffi flynyddol wedi'i thalu, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r deiliad trwydded/tystysgrif y bydd y drwydded/y dystysgrif yn cael ei hatal am 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad.
- Bydd yr hysbysiad hefyd yn nodi na fydd yr ataliad dros dro yn dod i rym os caiff y ffi ei thalu cyn y dyddiad atal.
- Os na chaiff y ffi ei thalu erbyn y dyddiad a nodir ar yr hysbysiad, tybir bod y drwydded/y dystysgrif wedi'u hatal dros dro.
- Bydd y deiliad trwydded/tystysgrif a'r Goruchwyliwr Safle Dynodedig/Rheolwr yn cael eu hysbysu ar unwaith fod yr ataliad dros dro wedi dod i rym, ac na chaniateir i'r safle gynnig unrhyw weithgareddau trwyddedadwy mwyach, nes y caiff y ffi ei thalu a'r ataliad dros dro ei godi.
- Pan gaiff y taliad ei wneud yn llawn, bydd y Cyngor yn codi'r ataliad yn syth, ac yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig.

20.3. Os caiff gweithgareddau trwyddedadwy eu cynnal pan fydd trwydded/tystysgrif wedi'i hatal, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried cymryd camau gorfodi.

### Sgamiau Ffioedd Blynyddol

20.4. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol o weithgarwch twyllodrus sy'n targedu safleoedd trwyddedig. Mae sawl awdurdod lleol, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot, wedi rhoi gwybod am unigolion sy'n

cysylltu â safleoedd trwyddedig gan honni eu bod yn cynrychioli'r Awdurdod Trwyddedu ac yn gofyn am ffioedd blynyddol. Nid yw'r twyllwyr hyn yn gysylltiedig â'r Awdurdod Trwyddedu.

20.5. Wrth ymdrin ag unrhyw fater sy'n ymwneud â ffioedd blynyddol, dylai deiliaid trwyddedau, Goruchwylwyr Safle Dynodedig a Rheolwyr/staff fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Caiff yr holl ohebiaeth ddilys sy'n ymwneud â ffioedd blynyddol ei hanfon drwy lythyr ar bapur â phennawd y Cyngor arno ar hyn o bryd. Yn y dyfodol, mae'n bosibl y daw'r ohebiaeth hon drwy e-bost, a hynny o'n cyfeiriad e-bost swyddogol yn unig, sef LRS@npt.gov.uk.
- Dim ond os byddwch wedi gofyn yn benodol i'r Cyngor gymryd taliad dros y ffôn y bydd yn gwneud hynny. Ni fyddwn yn galw'n ddiwahoddiad i ofyn am daliad drwy'r dull hwn.
- Y dull talu a ffefrir gennym yw drwy wefan Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn www.npt.gov.uk/cy – "Rydw i eisiau… Talu am". Mae taliad BACS gan ddefnyddio'r manylion sydd yn ein llythyr ffi flynyddol swyddogol hefyd yn dderbyniol.
- Os cewch gais amheus am daliad, peidiwch â'i ateb. Yn lle hynny, cysylltwch â'r Cyngor yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar ein gwefan.

# Pennod 4 – Integreiddio Cynlluniau, Strategaethau a Ffactorau Eraill

*Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Polisi hwn yn integreiddio â pholisïau corfforaethol a chenedlaethol eraill. Nid yw'n dyblygu'r polisïau ac anogir ceisyddion/deiliaid trwyddedau i ddarllen ac ystyried y dogfennau hyn ar y cyd â'u ceisiadau a'r Polisi hwn.*

## 21. Cynlluniau a Strategaethau Corfforaethol

### Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Castell-nedd Port Talbot

21.1. Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor – Gweithio tuag at CNPT mwy ffyniannus, tecach a gwyrddach 2025-2028 – yn nodi pedwar amcan llesiant y Cyngor, sef:

- Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy
- Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, ein diwylliant a'n treftadaeth leol
- Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad i swyddi gwyrdd o safon uchel.

21.2. Ategir yr amcanion llesiant gan nodau tair blynedd, sy'n canolbwyntio ar ble yr hoffem fod erbyn 2028, ac mae disgwyl i geisyddion am drwyddedau a deiliaid trwyddedau gyfrannu at helpu'r Cyngor i gyflawni'r uchelgeisiau hyn. Felly, mae'n hanfodol bod darpar ddeiliaid trwyddedau a phobl sydd eisoes wedi cael trwyddedau yn gyfarwydd â chynllun corfforaethol y Cyngor ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag ef.

21.3. Mae dolenni i'r cynllun corfforaethol i'w cael yn Atodiad 4.

### Strategaeth Ddigwyddiadau Castell-nedd Port Talbot

21.4. Mae'r Strategaeth Ddigwyddiadau'n ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o ddathlu ardal ryfeddol Castell-nedd Port Talbot, gan ddod â phobl

ynghyd i sicrhau bod pob cymuned yn cael budd o ddigwyddiadau a gwyliau, a buddsoddi mewn prosiectau ledled ardal y Cyngor.

21.5. Yn y Strategaeth, ceir amlinelliad o'r manteision a'r cyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol allweddol i drigolion a busnesau yn sgil cynnal digwyddiadau a gwyliau.

21.6. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod gweledigaeth y Cyngor i ddenu digwyddiadau a gwyliau diogel a chynaliadwy o safon uchel i'r ardal, a bydd yn ystyried y Strategaeth Ddigwyddiadau drwy gydol y broses drwyddedu. Er mai prif ddiben trwyddedu bob amser fydd sicrhau bod ceisyddion a deiliaid trwyddedau'n hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu; anogir darpar ddeiliaid trwyddedau a deiliaid trwyddedau presennol i ymgyfarwyddo â'r Strategaeth Ddigwyddiadau.

21.7. Mae dolenni i'r Strategaeth Ddigwyddiadau i'w cael yn Atodiad 4.

## Cynllun Rheoli Cyrchfan Castell-nedd Port Talbot a Strategaeth Ddiwylliant Castell-nedd Port Talbot

21.8. Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Castell-nedd Port Talbot yn nodi'r glasbrint ar gyfer y ffordd y mae'r sir yn bwriadu cynnal, tyfu a rheoli ei heconomi ymwelwyr.

21.9. Bwriedir i Strategaeth Ddiwylliant Castell-nedd Port Talbot helpu i wella iechyd a hapusrwydd ein holl gymunedau – yn drefol, yn wledig ac yn arfordirol – a chynnig llawenydd i drigolion ac ymwelwyr o bob oedran, gallu a hunaniaeth drwy gyfleoedd i gymryd rhan mewn diwylliant.

21.10. Yn debyg i'r Strategaeth Ddigwyddiadau y sonnir amdani ym mharagraff 20 uchod, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n annog darpar ddeiliaid trwyddedau a deiliaid trwyddedau presennol i ymgyfarwyddo â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a'r Strategaeth Ddiwylliant wrth gynllunio busnes lletygarwch newydd neu ddatblygu busnes sydd eisoes yn bodoli yng Nghastell-nedd Port Talbot.

21.11. Mae dolenni i'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a'r Strategaeth Ddiwylliant i'w cael yn Atodiad 4.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

21.12. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ymhlith a rhwng pobl o wahanol grwpiau gwarchodedig; hynny yw, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

21.13. Yng Nghymru, mae dyletswyddau penodol wedi cael eu cyflwyno o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. O dan y Rheoliadau hyn, mae dyletswydd ar y Cyngor i ddatblygu amcanion cydraddoldeb a llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n cynnwys yr amcanion cydraddoldeb a gwybodaeth arall. Mae amcanion cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2024 – 2028 wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor – “Byddwn yn Deg”.

21.14. Amcanion cydraddoldeb y Cyngor yw:

- Addysg – Sicrhau bod plant a phobl ifanc y gorau gallan nhw fod
- Iechyd a Llesiant – Hybu llesiant ac iechyd meddwl da, a mynd i’r afael â gwahaniaethu a stigma iechyd meddwl
- Diogelwch Personol – Sicrhau bod pobl a chymunedau yn ddiogel, yn cael eu parchu ac yn rhydd rhag trais a chamdriniaeth
- Cyflogaeth – Sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned yn well, bod ein polisïau yn deg, a bod bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu lleihau
- Cyfranogiad – Sicrhau bod gwasanaethau’n hygyrch i bawb, a bod pobl a chymunedau’n gallu dylanwadu’n well ar benderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw
- Safonau Byw – Gweithio i leihau tlodi a chefnogi byw’n annibynnol

21.15. Wrth wneud penderfyniad, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw i hyn oherwydd y nod o sicrhau bod economi'r nos yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb.

## 22. Ffactorau Eraill

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

22.1. Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

22.2. Mae'r Ddeddf yn cefnogi'r Amcanion Trwyddedu'n glir ac yn mynd ati i'w hyrwyddo. Ceir cysylltiad penodol rhwng y Ddeddf hon ac atal troseddu ac anhrefn a niwsans cyhoeddus. Mae'n cydnabod bod angen creu seinweddau priodol – yr amgylchedd acwstig cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ffyrdd o reoli sŵn a seinweddau ac, yn arbennig, y pum ffordd o weithio sydd yn y Ddeddf hon, sef:

- Hirdymor – pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd,
- Integreiddio,
- Cynnwys,
- Cydweithio,
- Atal.

22.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023' https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ynghylch-swn-a-seinwedd.pdf

## Caffi Stryd / Ardal Eistedd Awyr Agored

22.4. Mae'n ofynnol i safleoedd trwyddedig sy'n dymuno gosod byrddau a chadeiriau y tu allan i'w safleoedd ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor (y briffordd fel arfer) gael trwydded gan y Cyngor.

22.5. Mae caffis stryd yn ychwanegu at liw ac awyrgylch trefi yng Nghastell-nedd Port Talbot ac mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau, pan gaiff trwyddedau eu rhoi ar gyfer caffis stryd, bod y caffis hynny o safon uchel ac wedi'u dylunio'n briodol.

22.6. Adran Priffyrdd y Cyngor sy'n rheoli'r broses o gael trwydded. Mae rhagor o fanylion am drwyddedau caffis stryd a sut i wneud cais ar gael ar wefan y Cyngor yn www.npt.gov.uk/cy

22.7. Rhaid i safleoedd trwyddedig sydd wedi cael trwydded caffi stryd ac sy'n dymuno gweini alcohol yn yr ardaloedd hyn sicrhau bod eu trwydded yn cynnwys yr awdurdodiad cywir ar gyfer gwerthu alcohol, e.e. bod y drwydded yn caniatáu gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle, amodau trwyddedu ac ati. Os na fydd trwydded safle yn caniatáu gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle, gall deiliaid trwyddedau wneud cais i amrywio eu trwydded gan ddefnyddio'r broses ar gyfer mân amrywiadau.

## Polisi Dosbarthu Ffilmiau

22.8. Caiff y rhan fwyaf o ffilmiau eu dosbarthu gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (“BBFC”), ond bydd achlysuron pan fydd ffilm heb ei dosbarthu, er enghraifft:

- Gŵyl ffilmiau dros gyfnod penodol
- Dangosiad untro o ffilm
- Rhaghysbyseb ar gyfer ffilm

22.9. Un o'r amodau trwyddedu yw, lle yr awdurdodir dangos ffilmiau, ei bod yn rhaid i'r drwydded gynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfyngu

ar fynediad plant i ffilmiau yn unol ag argymhellion y BBFC neu'r Awdurdod Trwyddedu.

22.10. Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi mabwysiadu polisi dosbarthu ffilmiau ar gyfer ceisiadau i osod dosbarthiad oedran ar ffilmiau neu geisiadau i ailddosbarthu ffilmiau sydd eisoes wedi cael eu dosbarthu gan y BBFC.

22.11. Mae'r Polisi Dosbarthu Ffilmiau ar gael yn Atodiad 5.

## Asesiad Effaith Gronnol

22.12. Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu wedi cyhoeddi asesiad effaith gronnol ac nid yw'n bwriadu gwneud hynny ar hyn o bryd.

## Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore ac Ardoll Hwyr y Nos

22.13. Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu wedi cyflwyno Gorchymyn Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore nac Ardoll Hwyr y Nos ac nid yw'n bwriadu gwneud hynny ar hyn o bryd.

# Pennod 5 – Iechyd y Cyhoedd

*Mae'r bennod hon yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, a'r hyn y mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ei ddisgwyl gan fusnesau sy'n darparu lleoliadau lletygarwch yng Nghastell-nedd Port Talbot.*

## 23. Niwed Alcohol

23.1. Mae Canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol yn argymell mai'r ffordd fwyaf diogel o gadw risgiau iechyd yn sgil alcohol i lefel isel yw peidio ag yfed mwy na 14 o unedau yr wythnos yn rheolaidd.

23.2. Mae’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer effaith negyddol defnyddio alcohol ar iechyd a llesiant yn gadarn. Mae defnyddio alcohol wedi cael ei nodi fel ffactor achosol mewn mwy na 200 o gyflyrau meddygol, gan gynnwys clefyd yr afu, clefyd y galon, strôc, dementia, anhwylder sbectrwm alcohol y ffetws a sawl math o ganser, gan gynnwys canser yr afu, y geg, y fron a'r coluddyn. Gall gael effaith negyddol ar ein hiechyd meddwl a'n llesiant emosiynol, cynyddu ein risg o ddamweiniau ac anafiadau, ac arwain at oblygiadau cymdeithasol hirdymor. Mae alcohol yn gallu peri risgiau ychwanegol i bobl ifanc, gan gynnwys cael effaith negyddol ar eu datblygiad gwybyddol a chymdeithasol.

23.3. Gall niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol hefyd gynnwys cynnydd yn y risg o droseddau treisgar, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd, ymhlith pryderon eraill.

23.4. Mae alcohol yn un o'r prif ffactorau sy'n achosi marwolaeth a salwch yng Nghymru. Yn seiliedig ar ddata gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a Gofal Iechyd Digidol Cymru, noda Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Yn ystod 2023/24 yng Nghymru, cafwyd 12,236 o achosion o dderbyn claf i'r ysbyty am resymau'n ymwneud yn benodol ag alcohol, a 52,177 o achosion o dderbyn claf i'r ysbyty am resymau y gellid eu priodoli i alcohol.

- Yn 2023, cofrestrwyd 683 o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol a 562 o farwolaethau oherwydd alcohol yn benodol yng Nghymru. Mae hyn yn gynnydd o 10.5 a 15.6 y cant, yn y drefn honno, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

23.5. Mae data safonedig yn ôl oedran o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2021-22 a 2022-23 yn dangos bod lefelau defnyddio alcohol ymhlith oedolion a phobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot fel a ganlyn:

- Nododd 20% o unigolion 16+ oed mai cyfanswm yr alcohol y maent yn ei yfed bob wythnos ar gyfartaledd yw dim. Y cyfartaledd ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw 19% a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yw 18%.
- Nododd 68% o unigolion 16+ oed mai cyfanswm yr alcohol y maent yn ei yfed bob wythnos ar gyfartaledd yw 14 o unedau (yfwyr cymedrol). Y cyfartaledd ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw 66% a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yw 66%.
- Nododd 12% o unigolion 16+ oed fod cyfanswm yr alcohol y maent yn ei yfed bob wythnos ar gyfartaledd yn fwy na 14 o unedau (mwy na'r canllawiau). Y cyfartaledd ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw 15% a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yw 16%.
- Nododd 10% o unigolion 16+ oed fod cyfanswm yr alcohol y maent yn ei yfed bob wythnos ar gyfartaledd rhwng 14 o unedau a 50 o unedau ar gyfer dynion / 35 o unedau ar gyfer menywod (peryglus). Y cyfartaledd ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw 12% a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yw 14%.
- Nododd 2% o unigolion 16+ oed fod cyfanswm yr alcohol y maent yn ei yfed bob wythnos ar gyfartaledd yn fwy na 50 o unedau ar gyfer dynion / 35 o unedau ar gyfer menywod (niweidiol). Y cyfartaledd ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw 2% a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yw 3%.

23.6. Mae data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn dangos y canlynol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn 2023:

- Nododd 34.9% o fechgyn 11-16 oed eu bod wedi yfed alcohol. Mae hyn yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru (33.8%) ac awdurdod lleol Abertawe (28.2%) ond fymryn bach yn is na Phen-y-bont ar Ogwr (35%).

- Nododd 39.8% o ferched 11-16 oed eu bod wedi yfed alcohol. Mae hyn yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru (37.1%) ac awdurdodau lleol cyfagos Abertawe (35.3%) a Phen-y-bont ar Ogwr (38.5%).

23.7. Yng nghyd-destun hyrwyddo'r pedwar Amcan Trwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i geisyddion gynnig amodau trwyddedu er mwyn lliniaru'r effaith y gall eu safleoedd ei chael ar iechyd a llesiant eu cwsmeriaid, y gymdogaeth a'r gymuned ehangach, sy'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd lle y ceir mwy o ddefnydd o alcohol ac ardaloedd â mwy o amddifadedd.

23.8. I weld enghreifftiau o amodau trwyddedu sy'n gallu hyrwyddo iechyd a llesiant, gellir cyfeirio at y 'Gronfa Amodau Enghreifftiol' sydd yn Atodiad 2.

23.9. Hefyd, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i geisyddion ystyried yr effaith y gall eu safleoedd ei chael ar leoliadau sensitif a phobl sy'n agored i niwed yn sgil defnyddio alcohol, yn enwedig cyfleusterau addysg, plant a phobl ifanc, cyfleusterau triniaeth am alcohol a phobl ag anhwylderau defnyddio alcohol. Caiff gwasanaethau triniaeth am alcohol a gomisiynir eu lleoli yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Gall argaeledd alcohol yn agos at wasanaethau triniaeth greu problemau penodol i ddarparwyr a derbynyddion triniaeth, megis mwy o chwant. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i geisyddion ystyried a lliniaru'r niwed drwy gynnwys amodau trwyddedu pan fydd eu safleoedd yn agos i leoliad gwasanaethau triniaeth, ac ardaloedd lle y gall plant a phobl ifanc ymgynnull, megis ysgolion, clybiau ieuenctid a pharciau.

## 24. Camddefnyddio Cyffuriau

24.1. Bydd camddefnyddio cyffuriau yn arwain at nifer o fathau o niwed, ac nid dim ond niwed i iechyd. Roedd lefelau marwolaethau oherwydd cyffuriau yng Nghymru ar eu huchaf erioed yn 2018-19, yn sgil cynnydd o 78% mewn marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau dros y 10 mlynedd blaenorol. Ymddengys fod marwolaethau oherwydd

cyffuriau yn digwydd fwyfwy i bobl sy’n defnyddio cyffuriau at ddibenion hamdden.

24.2. Mae data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn dangos y canlynol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn 2023:

- Nododd 7.2% o fechgyn 11-16 oed eu bod wedi rhoi cynnig ar fewnanadlu nwy chwerthin neu gymryd meffedron neu gyffuriau anterth cyfreithlon. Mae hyn yn is na'r ffigur ar gyfer Cymru (7.7%) ac awdurdodau lleol cyfagos Abertawe (8.1%) a Phen-y-bont ar Ogwr (8.2%).
- Nododd 5.7% o ferched 11-16 oed eu bod wedi rhoi cynnig ar fewnanadlu nwy chwerthin neu gymryd meffedron neu gyffuriau anterth cyfreithlon. Mae hyn yn is na'r ffigur ar gyfer Cymru (6.7%) ac awdurdodau lleol cyfagos Abertawe (35.3%) a Phen-y-bont ar Ogwr (6.5%).

24.3. Mae data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn dangos:

- Cynnydd graddol yng nghyfran y bobl rhwng 16 a 59 oed sy'n nodi defnydd o unrhyw gyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru o 8.5% (Ebrill 2019–Mawrth 2020), i 9.3% (Ebrill 2022–Mawrth 2023) ac i 9.9% (Ebrill 2023–Mawrth 2024).

- Cynnydd graddol yng nghyfran y bobl rhwng 16 a 59 oed sy'n nodi defnydd o unrhyw gyffuriau Dosbarth A yng Nghymru o 2.7% (Ebrill 2019–Mawrth 2020), i 2.8% (Ebrill 2022–Mawrth 2023) ac i 3.6% (Ebrill 2023–Mawrth 2024).

- Cynnydd graddol yng nghyfran y bobl rhwng 16 a 59 oed sy'n nodi defnydd o unrhyw gyffuriau Dosbarth A yng Nghymru o 2.7% (Ebrill 2019–Mawrth 2020), i 2.8% (Ebrill 2022–Mawrth 2023) ac i 3.6% (Ebrill 2023–Mawrth 2024).

Tabl 1 – Cyfran y bobl rhwng 16 a 59 oed sy'n nodi eu bod wedi defnyddio unrhyw gyffuriau anghyfreithlon yn ôl amlder eu hymweliadau â thafarndai/bariau fesul mis yng Nghymru a Lloegr.

| | Ebrill 2019 – Mawrth 2020 | Ebrill 2022 – Mawrth 2023 | Ebrill 2023 – Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|
| Dim | 5.5 | 5.8 | 5.1 |
| 1-3 ymweliad | 9.0 | 10.1 | 9.9 |
| 4-8 ymweliad | 17.2 | 17.4 | 15.5 |
| 9 ymweliad neu fwy | 26.3 | 27.0 | 31.4 |

Tabl 2 – Cyfran y bobl rhwng 16 a 59 oed sy'n nodi eu bod wedi defnyddio unrhyw gyffuriau Dosbarth A yn ôl amlder eu hymweliadau â thafarndai/bariau fesul mis yng Nghymru a Lloegr.

| | Ebrill 2019 – Mawrth 2020 | Ebrill 2022 – Mawrth 2023 | Ebrill 2023 – Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|
| Dim | 0.9 | 1.1 | 1.0 |
| 1-3 ymweliad | 3.0 | 3.4 | 3.3 |
| 4-8 ymweliad | 8.6 | 8.1 | 7.0 |
| 9 ymweliad neu fwy | 14.5 | 14.3 | 17.8 |

Mae ‘unrhyw gyffuriau’ yn cynnwys cocên powdr, crac cocên, ecstasi, LSD, madarch hud, heroin, methadon, amffetaminau, canabis, tawelyddion, steroidau anabolig, cetamin, methamffetamin, meffedron a GHB ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023 ac ocsid nitrus ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.

Mae ‘unrhyw gyffuriau Dosbarth A’ yn cynnwys cocên powdr, crac cocên, ecstasi, LSD, madarch hud, heroin, methadon a methamffetamin.

24.4. Mae marchnad gyffuriau’r DU yn datblygu'n gyflym iawn, gyda chyffuriau stryd cyffredin yn parhau i gynyddu mewn cryfder a phurdeb, ac amrywiaeth fwyfwy eang o sylweddau mewn cylchrediad. Mae gan drwyddedu rôl i'w chyflawni er mwyn helpu i leihau niwed camddefnyddio cyffuriau yn economi'r nos ac mewn safleoedd trwyddedig.

24.5. Lle y ceir materion sy'n destun pryder, bydd yr Awdurdod Trwyddedu’n disgwyl gweld tystiolaeth bod polisi cyffuriau wedi cael ei roi ar waith a’i adolygu.

24.6. Yng nghyd-destun hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu ar gyfer atal troseddu ac anhrefn a sicrhau diogelwch y cyhoedd, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i geisyddion a deiliaid trwyddedau wneud y canlynol:

- Cymryd pob cam rhesymol i atal pobl rhag mynd â chyffuriau i mewn i safle trwyddedig
- Cymryd pob cam rhesymol i atal cyffuriau rhag newid dwylo o fewn y safle
- Hyfforddi staff i adnabod arwyddion camddefnyddio cyffuriau mewn pobl fel y gellir cymryd camau ymarferol i ddelio ag achosion sy'n digwydd
- Bod â staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddelio ag achosion sy'n ymwneud â chyffuriau
- Arddangos gwybodaeth ymwybyddiaeth o gyffuriau i gwsmeriaid
- Cynnig ystafell cymorth cyntaf ac offer cymorth cyntaf, gan gynnwys diffibriliwr mewn lleoliadau mwy
- Defnyddio staff sydd wedi'u hyfforddi i helpu â digwyddiadau meddygol
- Rhoi polisi gwahardd priodol ar waith
- Swabio am gyffuriau
- Chwilio'r safle
- Rhoi mesurau ffisegol ar waith er mwyn atal pobl rhag defnyddio cyffuriau ar y safle
- Arddangos arwyddion a gwybodaeth am les yn y lleoliad

24.7. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod nad yw camddefnyddio cyffuriau yn rhywbeth sy'n berthnasol i bob safle trwyddedig. Fodd bynnag, mae'n ymrwymedig i leihau cyffuriau a chael gwared arnynt o safleoedd trwyddedig yn gyfan gwbl lle bo modd fel rhan o'i rôl i hyrwyddo'r Amcan Trwyddedu sy'n ymwneud â throseddau ac anhrefn. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i bob deiliad trwydded fynd ati i gefnogi'r nod hwn yn y ffordd y bydd yn cynllunio, yn rheoli ac yn gweithredu safleoedd.

24.8. Os daw Sylwadau Perthnasol i law mewn perthynas â chais am drwydded newydd neu amrywiad i drwydded, mae'n bosibl y caiff amodau arbennig eu gosod er mwyn helpu i atal pobl rhag cyflenwi neu ddefnyddio cyffuriau a reoleiddir yn anghyfreithlon. Gofynnir am gyngor ar amodau gan yr heddlu neu unrhyw sefydliad perthnasol arall sy'n rhan o'r gwaith o reoli cyffuriau a reolir neu roi cymorth a/neu driniaeth i ddefnyddwyr cyffuriau.

24.9. Mewn safleoedd lle mae camddefnyddio cyffuriau'n broblem a lle y bydd unrhyw Awdurdod Cyfrifol neu berson arall yn gwneud cais am adolygiad o'r drwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried bod hyn yn ddifrifol iawn a bydd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r amrywiaeth lawn o opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys atal y drwydded dros dro a'i dirymu yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod bod pob achos yn unigryw a bydd yn penderfynu ar bob achos yn ôl ei ffeithiau a'i rinweddau penodol ei hun.

## 25. Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Adloniant a Reoleiddir | Gweithgareddau adloniant sy'n drwyddedadwy o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. |
| Amcanion Trwyddedu | Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu ddyletswydd o dan Ddeddf 2003 i gyflawni ei swyddogaethau gyda'r nod o hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu:<br>• Atal troseddu ac anhrefn<br>• Diogelwch y cyhoedd<br>• Atal niwsans cyhoeddus<br>• Amddiffyn plant rhag niwed |
| Amserlen Weithredu | Mae'r Amserlen Weithredu'n rhan o'r wybodaeth y bydd yn rhaid i chi ei chynnwys fel rhan o'ch cais. Mae'r Amserlen Weithredu'n nodi sut y cynigir y bydd y safle'n gweithredu pan fydd gweithgareddau trwyddedadwy'n cael eu cynnal. |
| Ardoll Hwyr y Nos | Pŵer dewisol sy'n caniatáu i Awdurdodau Trwyddedu godi cyfraniad tuag at gostau plismona economi'r nos drwy godi ardoll ar ddeiliaid Trwyddedau Safle a Thystysgrifau Safle Clwb sydd wedi'u hawdurdodi i werthu alcohol. |

| | |
|---|---|
| Awdurdodau Cyfrifol | Corff statudol sy'n gallu gwneud sylwadau ar geisiadau o dan y Ddeddf. |
| Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore | Maent yn cyfyngu ar yr amser pan ellir cyflenwi alcohol. Gallant wahardd cyflenwi alcohol rhwng 0000 a 0600 o'r gloch ac maent yn berthnasol i Drwyddedau Safle, Tystysgrifau Safle Clwb a Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro. |
| Goruchwyliwr Safle Dynodedig | Yr unigolyn a nodir ar drwydded sy'n gyfrifol am redeg y busnes o ddydd i ddydd. |
| Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro | Awdurdodiad ar gyfer digwyddiadau untro ar raddfa fach lle y bwriedir:<br>- Gwerthu neu gyflenwi alcohol<br>- Darparu Adloniant a Reoleiddir<br>- Gwerthu bwydydd/diodydd poeth rhwng 11pm a 5am. |
| Lluniaeth gyda'r Hwyr | Gwerthu bwydydd neu ddiodydd poeth i'r cyhoedd eu bwyta/eu hyfed ar y safle neu oddi arno rhwng 11pm a 5am. |
| Polisi Effaith Gronnol | Mae’n creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy y bydd ceisiadau am Drwyddedau Safle neu Dystysgrifau Safle Clwb newydd, neu amrywiadau i rai sydd eisoes yn bodoli, sy'n debygol o ychwanegu at yr effaith gronnol bresennol, yn cael eu gwrthod fel arfer. |

| | |
|---|---|
| Sylwadau Perthnasol | Sylwadau sy'n ymwneud ag effaith debygol y cais ar hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. |
| Trwydded Bersonol | Mae'n awdurdodi person i werthu alcohol. |
| Trwydded Safle | Mae'n awdurdodi defnyddio safle i gynnal gweithgareddau trwyddedig. |
| Tystysgrif Safle Clwb | Mae'n awdurdodi'r defnydd o safle er budd ei aelodau a'u gwesteion ac ni ellir ei defnyddio i gynnal gweithgareddau trwyddedig i bobl nad ydynt yn aelodau. |

# Atodiadau

Nid yw'r atodiadau canlynol yn rhan o'r Polisi a chânt eu cynnwys er hwylustod cyfeirio yn unig.

Cânt eu diweddaru'n briodol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn aros yn gyfredol.

# Atodiad 1 – Awdurdodau Cyfrifol

| | | |
|---|---|---|
| Prif Uwch-arolygydd yr Heddlu<br>At sylw'r Swyddog Trwyddedu<br>Gorsaf Heddlu Castell-nedd<br>Heol Parc y Gnoll<br>Castell-nedd<br>SA11 3BW<br>Nick.Bailey2@south-wales.pnn.police.uk | Prif Swyddog Tân<br>At sylw'r Swyddog Trwyddedu<br>Ardal Reoli Sirol Castell-nedd Port Talbot<br>Pencadlys<br>Heol Cimla Uchaf<br>Castell-nedd<br>SA11 3UG<br>bfs.npt@mawwfire.gov.uk | Arweinydd Tîm Safonau Masnach<br>CBS Castell-nedd Port Talbot<br>The Quays<br>Ffordd Brunel<br>Parc Ynni Baglan<br>SA11 2GG<br>tsd@npt.gov.uk |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>CBS Castell-nedd Port Talbot<br>Y Ganolfan Ddinesig<br>Castell-nedd<br>SA11 3QZ<br>k.warren@npt.gov.uk | Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio<br>CBS Castell-nedd Port Talbot<br>The Quays<br>Ffordd Brunel<br>Parc Ynni Baglan<br>SA11 2GG<br>planning@npt.gov.uk | Arweinydd Tîm Iechyd yr Amgylchedd<br>Niwsans Cyhoeddus<br>CBS Castell-nedd Port Talbot<br>The Quays<br>Ffordd Brunel<br>Parc Ynni Baglan<br>SA11 2GG<br>ehd@npt.gov.uk |
| Lisa Way<br>Abertawe Bro Morgannwg<br>Tîm Iechyd y Cyhoedd<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Llawr 1 Matrix House<br>Northern Boulevard<br>Abertawe<br>SA6 8RE<br>lisa.way@wales.nhs.uk | *Joy Gunning<br>Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch<br>Adeiladau'r Llywodraeth<br>Tŷ Glas<br>Llanisien<br>Caerdydd CF14 5SH<br>Joy.Gunning@hse.gov.uk | *Arweinydd Tîm Iechyd yr Amgylchedd<br>Iechyd a Diogelwch<br>CBS Castell-nedd Port Talbot<br>The Quays<br>Ffordd Brunel<br>Parc Ynni Baglan<br>SA11 2GG<br>ehd@npt.gov.uk |
| | *Ar gyfer safleoedd a weithredir gan y Cyngor (gan gynnwys cynghorau cymuned), anfoner i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Ar gyfer pob safle arall, anfoner at arweinydd tîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor. | |
| Alcohol Licensing Team<br>Home Office Immigration<br>Lunar House<br>40 Wellesley Road<br>Croydon<br>CR9 2BY<br>Alcohol@homeoffice.gsi.gov.uk | | |

# Atodiad 2 – Cronfa Amodau Enghreifftiol

## Amodau Enghreifftiol ar gyfer Trwyddedau Safle a Thystysgrifau Safle Clwb

Mae'r holl amodau a restrir mewn fformat y dylid ei ystyried yn fan cychwyn ac maent yn addas i gael eu teilwra i ddiwallu anghenion safleoedd unigol. Ni fydd pob un yn berthnasol, ac nid oes rheidrwydd i'w cynnwys mewn unrhyw gais.

## Atal troseddu ac anhrefn

| | | |
|---|---|---|
| CD1 | **Alcohol (Cyfyngiadau ar werthu)** | 1. Ni chaniateir cyflenwi alcohol o dan y Drwydded Safle:<br>a. Ar adeg pan nad oes Goruchwyliwr Safle Dynodedig mewn perthynas â'r Drwydded Safle;<br>b. Ar adeg pan nad oes gan y Goruchwyliwr Safle Dynodedig Drwydded Bersonol neu pan fydd ei Drwydded Bersonol wedi'i hatal dros dro.<br><br>2. Rhaid i bob achos o gyflenwi alcohol o dan y Drwydded Safle gael ei wneud neu ei awdurdodi gan berson sydd â Thrwydded Bersonol.<br><br>3. Caiff yr holl alcohol ei arddangos y tu ôl i'r cownter a'i gyflenwi drwy ddarparu gwasanaeth dros y cownter yn unig.<br><br>4. Ni chaniateir gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y Safle ar ôl [23:00] o'r gloch.<br><br>5. Rhaid i'r holl alcohol a werthir i'w yfed oddi ar y Safle fod mewn cynwysyddion seliedig yn unig, ac ni chaniateir ei yfed ar y Safle.<br><br>6. Y tu allan i'r oriau a awdurdodir ar gyfer gwerthu alcohol a thra bydd y Safle ar agor i'r cyhoedd, bydd Deiliad y Drwydded Safle yn sicrhau y caiff yr holl alcohol yn y Safle (gan gynnwys alcohol y tu ôl i'r cownter) ei gadw'n ddiogel mewn storfa dan glo neu y tu ôl i rwyllau wedi'u cloi, sgriniau wedi'u cloi neu ddrysau cabinet wedi'u cloi er mwyn sicrhau na fydd yr alcohol o fewn cyrraedd cwsmeriaid na staff.<br><br>7. Ni chaniateir i gwsmeriaid gael alcohol drwy hunanwasanaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 8. Dim ond i bersonau sy'n eistedd wrth y cownter neu wrth fyrddau y caniateir gwerthu neu gyflenwi alcohol, a hynny drwy wasanaeth gweinydd yn unig.<br><br>9. Ni chaniateir cyflenwi na gwerthu alcohol ar y Safle nac o'r Safle heblaw i bersonau sy'n archebu bwyd.<br><br>10. Rhaid i gynhwysydd seliedig pob diod alcoholaidd sydd ar werth i'w hyfed oddi ar y Safle fod wedi'i labelu neu ei farcio'n glir ag enw a chod post y Safle.<br><br>11. Bydd gwerthu alcohol yn ategol at weithrediad y Safle fel 'masnachwr gwin' a bydd unrhyw alcohol a werthir i'w yfed ar y Safle yn adlewyrchu'r stoc a gedwir, h.y. gwin, siampên a gwirodydd. Rhaid i werthu alcohol ar y Safle fod at ddibenion hyrwyddo'r stoc a gedwir.<br><br>12. Dim ond i gwsmeriaid sy'n bresennol mewn digwyddiad cwrs coginio gwirioneddol y gwnaethant drefnu lle ynddo ymlaen llaw y gellir manwerthu alcohol, ac nid i'r un aelod arall o'r cyhoedd.<br><br>13. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n sicrhau na chaiff alcohol ei werthu i unrhyw bersonau y bydd yr Heddlu'n tynnu sylw atynt fel 'yfwyr stryd' ac sydd wedi'u gwahardd o'r Safle.<br><br>14. Bydd yr oerwyr/oergelloedd y caiff alcohol ei arddangos ynddynt ar glo/wedi'u gorchuddio y tu allan i'r oriau a ganiateir. |
| CD2 | **Alcohol (Cyflenwi gyda gwasanaeth cludfwyd)** | 1. Rhaid i'r taliad am bob gwerthiant alcohol sy'n deillio o archeb dros y ffôn i'w danfon gael ei wneud gan ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd.<br><br>2. Rhaid i'r taliad am bob gwerthiant alcohol i'w ddanfon gael ei wneud ar adeg archebu gan ddefnyddio cerdyn debyd neu gredyd.<br><br>3. Rhaid i bawb sy'n danfon alcohol fod yn [nodwch oedran] oed neu'n hŷn.<br><br>4. Rhaid i'r alcohol gael ei becynnu ar wahân i'r nwyddau nad ydynt yn ddarostyngedig i werthiannau ar sail oedran, fel bod modd cael gafael arno'n hawdd er mwyn atal gwerthiant anghyfreithlon.<br><br>5. Bydd yn rhaid i fanylion yr archeb (gan gynnwys y math o alcohol a faint ohono, enw a chyfeiriad y cwsmer) gael eu cadw ar y Safle Trwyddedig ac ymddangos ar yr allbrint a anfonir gyda'r archeb.<br><br>6. Rhaid i bob gyrrwr a beiciwr danfon ganiatáu i unrhyw swyddog(ion) Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu |

| | | |
|---|---|---|
| | | Awdurdodau Cyfrifol eraill archwilio unrhyw fanylion archeb neu alcohol ar gais.<br><br>7. Dim ond i gyfeiriad preswyl neu fusnes y caniateir danfon alcohol, a bydd yn rhaid iddi fod yn amlwg bod y cwsmer yn byw, yn aros neu'n gweithio y tu mewn i'r adeilad. Ni chaiff alcohol ei ddanfon i berson mewn lle cyhoeddus (er enghraifft cornel stryd, parc neu safle bws).<br><br>8. Rhaid i'r sawl sy'n cymryd yr archeb a/neu'n danfon yr alcohol sicrhau bod y derbynnydd yn 18 oed o leiaf. Cynhelir gwiriad er mwyn sicrhau bod gan y person sy'n derbyn yr alcohol y cerdyn debyd/credyd a ddefnyddiwyd i'w brynu. Os bydd yn ymddangos ei fod o dan 25 oed, bydd angen iddo ddangos prawf adnabod ffotograffig cyn i'r alcohol gael ei roi iddo. Ymhlith yr enghreifftiau o brawf adnabod priodol mae trwydded yrru neu basbort, cerdyn adnabod lluoedd arfog y DU ac unrhyw gardiau a gymeradwywyd gan y Cynllun Safonau Prawf Oedran ("PASS").<br><br>9. Os defnyddir cludwr trydydd parti i gyflenwi alcohol, rhoddir cyfarwyddiadau iddo ddarparu gwasanaeth gwirio oedran neu fabwysiadu polisi o wirio oedran a phrawf adnabod ar adeg danfon. Rhaid i'r cludwr fabwysiadu polisi o beidio â chaniatáu i bobl ifanc dan oed dderbyn alcohol a ddanfonir na llofnodi amdano. Caiff cofnod o'r holl gludwyr a ddefnyddir a'r system a ddefnyddir ganddynt i wirio oedran ei gadw a'i ddangos i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol eraill ar gais.<br><br>10. Ni chaniateir cyflenwi na gwerthu alcohol ar y Safle nac o'r Safle heblaw i bersonau sy'n archebu bwyd.<br><br>11. Rhaid rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig clir i yrwyr danfon ddefnyddio eu cerbydau mewn modd cyfrifol er mwyn sicrhau na fyddant yn achosi niwsans i unrhyw drigolion nac yn gyffredinol y tu allan i'r Safle; peidio â gadael injans yn rhedeg pan fydd y cerbydau wedi'u parcio; peidio â rhwystro'r briffordd/priffyrdd, a pheidio â defnyddio cyrn cerbydau ar unrhyw adeg ac eithrio yn unol â Rheolau'r Ffordd Fawr. |
| CD3 | **Gwahardd poteli** | 1. Ni chaniateir rhoi poteli gwydr sy'n cynnwys diodydd o unrhyw fath (boed yn ddiodydd alcoholaidd neu beidio), p'un a ydynt ar agor neu wedi'u selio, i gwsmeriaid ar y Safle boed wrth y bar neu drwy wasanaeth gan staff i ffwrdd o'r bar.<br><br>2. Ni chaniateir i gwsmeriaid sy'n cario poteli agored neu seliedig gael mynediad i'r Safle ar unrhyw adeg pan |

| | | |
|---|---|---|
| | | fydd y Safle ar agor i'r cyhoedd.<br><br>3. Caniateir gwerthu poteli sy'n cynnwys gwin i gwsmeriaid sy'n eistedd yn [nodwch ardal] i fwyta bwyd, i'w yfed gyda phryd wrth y bwrdd.<br><br>4. Ni chaniateir mynd â photeli na llestri gwydr i'r ardal drwyddedig allanol ar ôl [19:00] o'r gloch. |
| CD4 | **Teledu Cylch Cyfyng (Niferoedd, lleoliadau a chynnal a chadw)** | 1. Caiff system teledu cylch cyfyng ddigidol ei gosod a'i chynnal a'i chadw (neu caiff system bresennol ei chynnal a'i chadw) mewn cyflwr effeithiol ar y Safle. Bydd y system yn weithredol ar bob adeg pan fydd y Safle ar agor i'r cyhoedd, ac yn gallu tynnu lluniau/ffotograffau/delweddau/fideo o ansawdd tystiolaethol ym mhob golau, yn enwedig y gallu i adnabod wynebau. Rhaid sicrhau nad oes dim byd yn ffordd y camerâu teledu cylch cyfyng.<br><br>2. Cytunir ar niferoedd a lleoliad yr holl gamerâu gyda'r [Heddlu]. Caiff lleoliad y camerâu ei nodi ar gynllun o'r Safle Trwyddedig a gaiff ei gadw gyda'r drwydded a'i gyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu.<br><br>3. Rhaid i recordiadau'r system teledu cylch cyfyng gael stamp amser a dyddiad cywir arnynt, a rhaid eu cadw a'u storio mewn modd addas a diogel am o leiaf 31 diwrnod, a rhaid iddynt fod ar gael i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol eraill ar gais.<br><br>4. Rhaid i'r system teledu cylch cyfyng recordio'r ardaloedd canlynol:<br>a. Y tu allan i'r Safle;<br>b. Mynedfa/mynedfeydd ac allanfa/allanfeydd y Safle;<br>c. Ardaloedd cyhoeddus mewnol y Safle.<br><br>5. Ar bob adeg pan fydd y Safle ar agor i'r cyhoedd, rhaid i o leiaf un aelod o staff ar ddyletswydd, sy'n hyddysg mewn gweithredu'r system teledu cylch cyfyng, fod ar y Safle a gallu gweithredu'r system teledu cylch cyfyng.<br><br>6. Rhaid i'r aelod o staff sy'n gallu gweithredu'r system teledu cylch cyfyng allu dangos a chyflwyno i'r Heddlu, swyddog(ion) yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol eraill gopïau gwyliadwy o ddata neu recordiadau teledu cylch cyfyng diweddar (gan gynnwys fideo, delweddau a/neu ddata) mewn fformat recordiadwy (e.e. USB, cyfleuster tystiolaeth ar-lein neu |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddisg) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a/neu GDPR y DU (neu ddeddfwriaeth newydd arall).<br><br>7. Bydd y cyfleuster a ddefnyddir i drosglwyddo'r recordiadau teledu cylch cyfyng i fformat cludadwy cydnaws yn cael ei gadw ar y Safle.<br><br>8. Bydd Deiliad y Drwydded Safle yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 24 awr pan ddaw'n ymwybodol nad yw'r system teledu cylch cyfyng yn gweithio. |
| CD5 | **Polisi Herio 25 (Bwyta i mewn a chludfwyd)** | 1. Bydd Polisi Herio 25 ar waith ar y Safle. Bydd staff sy'n gwerthu alcohol yn gofyn i unrhyw gwsmer sy'n edrych yn iau na 25 oed, ac sy'n ceisio prynu neu yfed alcohol, ddangos prawf adnabod ffotograffig sy'n profi ei fod o leiaf 18 oed. Yr unig fathau derbyniol o brawf adnabod yw cardiau ffotograffig cydnabyddedig sydd â ffotograff o'r cwsmer, ei ddyddiad geni a marc holograffig arnynt, er enghraifft:<br><br>2. Unrhyw gerdyn Prawf Oedran sydd â hologram PASS arno; cerdyn dinesydd;<br><br>3. Proof GB;<br><br>4. trwydded yrru ffotograffig neu basbort.<br><br>5. Caiff arwyddion y gellir eu darllen yn glir eu harddangos mewn mannau amlwg lle y gall cwsmeriaid eu gweld a'u darllen yn hawdd, i ddatgan bod Polisi Herio 25 ar waith ar y Safle, ei bod yn bosibl y gofynnir i gwsmeriaid ddangos prawf o'u hoedran, a beth yw'r mathau derbyniol o brawf oedran. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion;<br><br>6. Ymhlith yr enghreifftiau o brawf adnabod priodol mae trwydded yrru neu basbort, cerdyn adnabod lluoedd arfog y DU ac unrhyw gerdyn a achredwyd gan y Cynllun Safonau Prawf Oedran (“PASS”) megis y cerdyn dinesydd.<br><br>7. Rhaid i bob aelod o staff sy'n gwerthu ac yn cyflenwi alcohol ar y Safle gael hyfforddiant llawn sy'n berthnasol i Ddeddf Trwyddedu 2003 (mewn perthynas â gwerthiannau â chyfyngiad oed, Polisi Herio 25 a gwrthod gwerthu i bersonau y credir eu bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau yn benodol) cyn y caniateir iddynt werthu neu gyflenwi unrhyw alcohol i'r cyhoedd ar y Safle neu wrth ddanfon nwyddau. Caiff hyfforddiant gloywi ei gynnal bob [chwe] mis ar gyfer yr holl staff, a'i ddogfennu yn y llyfr cofnodi hyfforddiant. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 8. Bydd llyfr cofnodi hyfforddiant (boed ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig) ar gyfer hyfforddiant o'r fath yn cael ei gadw / o fewn cyrraedd ar y Safle ar bob adeg a bydd yn cael ei gyflwyno ar unwaith i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol eraill fwrw golwg drosto ar y Safle ar gais. Bydd y cofnod hyfforddiant yn cynnwys enw'r hyfforddai, enw'r hyfforddwr, llofnod yr hyfforddai, llofnod yr hyfforddwr, dyddiad(au) yr hyfforddiant a datganiad bod yr hyfforddiant wedi cael ei roi.<br><br>9. Bydd cofnodion o holl hyfforddiant y staff ynghyd ag unrhyw ddeunydd hyfforddi a ddefnyddir, yn cael eu cadw a'u cynnal gan y Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu Ddeiliad y Drwydded Safle.<br><br>10. Bydd llyfr cofnodi cofrestr gwrthod (boed ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig) o werthiannau a wrthodwyd yn cael ei gynnal er mwyn dangos bod Polisi Herio 25 yn cael ei ddilyn yn effeithiol. Bydd y gofrestr yn cofnodi'r canlynol: dyddiad ac amser pob ymgais gan bersonau o dan 18 oed i brynu alcohol ac unrhyw werthiannau eraill a wrthodwyd; ac enw'r aelod o staff. Bydd y gofrestr yn cael ei chyflwyno ar unwaith i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol fwrw golwg drosti ar y Safle ar gais. |
| CD6 | **Polisi Herio 25 (Gwefan)** | 1. Caiff Polisi Herio 25 ei hyrwyddo ar wefan y cwmni. Gofynnir i bob cwsmer sy'n prynu alcohol gadarnhau ei fod yn 18 oed neu'n hŷn pan fydd yn gwneud archeb.<br><br>2. Gofynnir am dystiolaeth o oedran ar ffurf prawf adnabod ffotograffig gan unrhyw berson sy'n derbyn alcohol a gaiff ei ddanfon.<br><br>3. Os bydd yn ymddangos ei fod o dan 25 oed, bydd angen iddo ddangos prawf adnabod ffotograffig cyn i'r alcohol gael ei roi iddo. Ymhlith yr enghreifftiau o brawf adnabod priodol mae trwydded yrru neu basbort, cerdyn adnabod lluoedd arfog y DU ac unrhyw gardiau a gymeradwywyd gan y Cynllun Safonau Prawf Oedran (“PASS”). |
| CD7 | **Polisi Herio 25 (Amodau cyffredinol)** | 1. Bydd Polisi Herio 25 ar waith ar y Safle. Bydd staff sy'n gwerthu alcohol yn gofyn i unrhyw gwsmer sy'n edrych yn iau na 25 oed, ac sy'n ceisio prynu neu yfed alcohol, ddangos prawf adnabod ffotograffig sy'n profi ei fod o leiaf 18 oed. Yr unig fathau derbyniol o brawf adnabod |

| | | |
|---|---|---|
| | | yw cardiau ffotograffig cydnabyddedig sydd â ffotograff o'r cwsmer, ei ddyddiad geni a marc holograffig arnynt, er enghraifft:<br><br>a. Unrhyw gerdyn Prawf Oedran sydd â hologram PASS arno; cerdyn dinesydd;<br><br>b. Proof GB;<br><br>c. trwydded yrru ffotograffig neu basbort.<br><br>2. Caiff arwyddion y gellir eu darllen yn glir eu harddangos mewn mannau amlwg lle y gall cwsmeriaid eu gweld a'u darllen yn hawdd, i ddatgan bod Polisi Herio 25 ar waith ar y Safle, ei bod yn bosibl y gofynnir i gwsmeriaid ddangos prawf o'u hoedran, a beth yw'r mathau derbyniol o brawf oedran. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion.<br><br>3. Ymhlith yr enghreifftiau o brawf adnabod priodol mae trwydded yrru neu basbort, cerdyn adnabod lluoedd arfog y DU ac unrhyw gardiau a gymeradwywyd gan y Cynllun Safonau Prawf Oedran (“PASS”).<br><br>4. Rhaid i bob aelod o staff sy'n gwerthu ac yn cyflenwi alcohol ar y Safle gael hyfforddiant llawn sy'n berthnasol i Ddeddf Trwyddedu 2003 (mewn perthynas â gwerthiannau â chyfyngiad oed, Polisi Herio 25 a gwrthod gwerthu i bersonau y credir eu bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau yn benodol) cyn y caniateir iddynt werthu neu gyflenwi unrhyw alcohol i'r cyhoedd ar y Safle neu wrth ddanfon nwyddau. Caiff hyfforddiant gloywi ei gynnal bob [chwe] mis ar gyfer yr holl staff, a'i ddogfennu yn y llyfr cofnodi hyfforddiant.<br><br>5. Bydd llyfr cofnodi hyfforddiant (boed ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig) ar gyfer hyfforddiant o'r fath yn cael ei gadw / o fewn cyrraedd ar y Safle ar bob adeg a bydd yn cael ei gyflwyno ar unwaith i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol eraill fwrw golwg drosto ar y Safle ar gais. Bydd y cofnod hyfforddiant yn cynnwys enw'r hyfforddai, enw'r hyfforddwr, llofnod yr hyfforddai, llofnod yr hyfforddwr, dyddiad(au) yr hyfforddiant a datganiad bod yr hyfforddiant wedi cael ei roi.<br><br>6. Bydd cofnodion o holl hyfforddiant y staff ynghyd ag unrhyw ddeunydd hyfforddi a ddefnyddir, yn cael eu cadw a'u cynnal gan y Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu Ddeiliad y Drwydded Safle.<br><br>7. Bydd pob til yn atgoffa'r staff yn awtomatig i ofyn am brawf oedran pan fydd rhywun yn ceisio [prynu alcohol a/neu gynhyrchion â chyfyngiad oed]. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 8. Bydd llyfr cofnodi cofrestr gwrthod (boed ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig) o werthiannau a wrthodwyd yn cael ei gynnal er mwyn dangos bod Polisi Herio 25 yn cael ei ddilyn yn effeithiol. Bydd y gofrestr yn cofnodi'r canlynol: dyddiad ac amser pob ymgais gan bersonau o dan 18 oed i brynu alcohol ac unrhyw werthiannau eraill a wrthodwyd; ac enw'r aelod o staff. Bydd y gofrestr yn cael ei chyflwyno ar unwaith i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol fwrw golwg drosti ar y Safle ar gais.<br><br>9. Bydd y Deiliad Trwydded Safle yn sicrhau y bydd unrhyw gwmni trydydd parti y bydd yn ei gyflogi i ddanfon archebion alcohol ar ei ran yn gofyn am lofnod oedolyn pan fydd yn danfon pob archeb, er mwyn osgoi unrhyw werthiannau i bobl dan oed.<br><br>10. Os na fydd neb ar gael ar y Safle i dderbyn yr alcohol sy'n gallu dangos prawf oedran oni fydd yn ymddangos ei fod dros 25 oed, ni chaiff yr alcohol ei ddanfon.<br><br>11. Bydd Deiliad y Drwydded Safle yn sicrhau y bydd unrhyw gwmni trydydd parti y bydd yn ei gyflog i ddanfon archebion alcohol yn sicrhau y caiff yr alcohol ei ddanfon i'r cleient a archebodd yr alcohol, neu'n sicrhau bod unrhyw 'le diogel' a ddynodir gan y cleient fel man y gellir gadael yr alcohol ynddo mewn ardal sydd allan o olwg y cyhoedd a'r tu hwnt i gyrraedd unrhyw berson ifanc dan oed. |
| CD8 | **Goruchwylwyr drysau** | 1. Ar bob adeg, bydd Deiliad y Drwydded Safle yn cynnal asesiad risg er mwyn pennu'r angen am oruchwylwyr drysau sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ("SIA") ac yn sicrhau bod goruchwylwyr drysau ar ddyletswydd rhwng yr amseroedd ac yn y niferoedd sy'n ofynnol yn ôl yr asesiad risg. Hefyd, bydd pob un o'r goruchwylwyr drysau sydd wedi'u cofrestru ag SIA yn arddangos eu trwyddedau SIA mewn rhwymyn braich adlewyrchol tra byddant ar ddyletswydd.<br><br>2. Bydd Deiliad y Drwydded Safle yn sicrhau y bydd pob un o'r goruchwylwyr drysau'n gwisgo dillad a fydd yn ei gwneud hi'n amlwg mai goruchwylwyr drysau ydynt.<br><br>3. Caiff log dyddiol (boed ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig) ei gadw ar gyfer y goruchwylwyr drysau sydd ar ddyletswydd gan gynnwys eu henwau llawn, eu cyfeiriadau, eu rhifau trwydded SIA, eu cwmni/cwmnïau a'u hamseroedd dechrau a gorffen gweithio. Bydd y log yn cael ei gyflwyno i'r Heddlu, |

| | | |
|---|---|---|
| | | swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol fwrw golwg drosto ar gais;<br><br>4. Rhaid i'r Safle sicrhau bod o leiaf [nodwch nifer] o oruchwylwyr drysau ar ddyletswydd pryd bynnag y caiff Adloniant a Reoleiddir ei gynnal.<br>*Nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol — Nifer y goruchwylwyr*<br>a. 1 – 100 — 2<br>b. 100 – 200 — 3<br>c. 200 – 400 — 4<br>d. 400 – 600 — 5<br>e. 600 – 800 — 6<br>f. 800 – 1,000 — 9<br>g. 1,000 – 1,200 — 10<br>h. 1,200 – 1,400 — 11<br>i. 1,400 – 1,600 — 12<br>j. 1,600 – 1,800 — 13<br>k. 1,800 – 2,000 — 14<br>l. Mwy na 2,000 – o leiaf 14 ac unrhyw stiwardiaid eraill a fydd yn ofynnol gan y Prif Swyddog Tân, yr Awdurdod Trwyddedu, Swyddog Trwyddedu'r Heddlu neu Awdurdodau Cyfrifol eraill.<br><br>5. Bob nos Wener a nos Sadwrn, dydd Sul unrhyw ŵyl banc, Noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan, a Dydd [nodwch] bydd o leiaf ddau oruchwyliwr drysau sydd wedi'u cofrestru ag SIA ar ddyletswydd o [21:00] o'r gloch nes y bydd y cyhoedd i gyd wedi gadael y Safle.<br><br>6. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n sicrhau'r canlynol:<br>a. Bydd gan bob un o'r goruchwylwyr drysau trwyddedig sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch sydd ar ddyletswydd ar y Safle gamera fideo a wisgir ar y corff sy'n gallu recordio sain a fideo mewn unrhyw olau ac sy'n gallu cynhyrchu llun yr ystyrir ei fod o safon adnabod.<br>b. Caiff pob recordiad ei storio'n ddiogel am o leiaf 31 diwrnod gyda stamp dyddiad ac amser;<br>c. Bydd modd i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol weld y recordiadau ar unwaith ar gais drwy gydol y cyfnod 31 diwrnod hwnnw.<br><br>7. Caiff o leiaf [nodwch nifer] o oruchwylwyr drysau sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ("SIA") eu cyflogi ar y Safle o [nodwch amser] o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod pan fydd y Safle ar agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy y tu hwnt i hanner nos a nes y bydd pob aelod o'r cyhoedd |

| | | |
|---|---|---|
| | | wedi gadael y Safle. Caiff o leiaf [*nodwch nifer*] o oruchwylwyr drysau sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch eu cyflogi ar y Safle o [*nodwch amser*] ar [*nodwch ddiwrnodau*] nes y bydd pob aelod o'r cyhoedd wedi gadael y Safle [ar gyfer lleoliad dawnsio neu glwb mawr, ychwaneger]: – a bydd o leiaf [*nodwch nifer*] ohonynt yn fenywaidd.<br><br>8. Caiff o leiaf [nodwch nifer] o oruchwylwyr drysau sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch eu cyflogi ar y Safle o [nodwch amser] ar unrhyw ddiwrnod pan fydd amseroedd ansafonol ar waith nes y bydd pob aelod o'r cyhoedd wedi gadael y Safle.<br><br>9. Caiff o leiaf [nodwch nifer] o oruchwylwyr drysau sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch eu cyflogi o [nodwch amser] o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod pan fydd y Safle ar agor i'r cyhoedd ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy y tu hwnt i hanner nos a nes y bydd pob aelod o'r cyhoedd wedi gadael y Safle.<br><br>10. Bydd nifer y goruchwylwyr drysau trwyddedig sydd ar ddyletswydd yn y lleoliad cyn iddo ddechrau gweithredu fel clwb nos yn cael ei asesu yn unol â'r capasiti disgwyliedig gan gynnwys rhestr gwesteion a gwerthiannau tocynnau ymlaen llaw. Bydd goruchwylwyr drysau'n dechrau eu shifft o leiaf [1] awr cyn i'r lleoliad agor. |
| CD9 | **Digwyddiad (Cyffredinol)** | 1. Bydd yr Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu'n cael o leiaf [nodwch nifer] diwrnod o rybudd ysgrifenedig pan gaiff unrhyw achlysur arbennig amhenodol (uchafswm o [nodwch nifer] fesul blwyddyn galendr fel y nodir ar flaen y drwydded) ei drefnu. Caiff manylion y digwyddiad eu rhannu â'r Heddlu ymlaen llaw a bydd gan yr Heddlu hawl absoliwt i feto ym mhob achos.<br><br>2. Cytunir ar union ddiwrnodau a dyddiadau'r digwyddiad gyda'r Awdurdod Trwyddedu a'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch o leiaf [nifer] wythnos ymlaen llaw. |
| CD10 | **Digwyddiad (Cynllun Rheoli Digwyddiad)** | 1. Bydd yn rhaid i Ddeiliad y Drwydded Safle gydymffurfio â'r Cynllun Rheoli Digwyddiad ar bob adeg.<br><br>2. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n cyflwyno'r Cynllun Rheoli Digwyddiad (sy'n benodol ar gyfer digwyddiad dan sylw) i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu ac awdurdodau perthnasol o leiaf |

| | | |
|---|---|---|
| | | [ddau] fis calendr cyn diwrnod cyntaf y digwyddiad (ar gais). Bydd y Cynllun Rheoli Digwyddiad yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):<br><br>a. Datganiad Covid-19 (os bydd hynny'n briodol);<br>b. Cynllun Rheoli Mynediad;<br>c. Cynllun Tywydd Garw;<br>d. Cynllun Rheoli Alcohol;<br>e. Cynllun Rheoli Safle Gwersylla;<br>f. Gweithdrefn Ganslo;<br>g. Cynllun Teledu Cylch Cyfyng;<br>h. Cynllun Cyfathrebu;<br>i. Polisi Plant ac Oedolion Agored i Niwed;<br>j. Cynllun Rheoli Torf (gan gynnwys Cynllun Diogelwch a Stiwardio);<br>k. Polisi Cyffuriau;<br>l. Cynllun Rheoli Allanfeydd;<br>m. Gweithdrefnau Gadael mewn Argyfwng;<br>n. Datganiad o Fwriad Rheoli Digwyddiad;<br>o. Cynllun Meddygol Digwyddiad;<br>p. Cynllun Rheoli Risg Tân;<br>q. Cynllun Rheoli Diogelwch Tân;<br>r. Asesiad Priffyrdd;<br>s. Cynllun Rheoli Mynedfeydd;<br>t. Cynllun Goleuadau;<br>u. Cynllun Cyfraith Martyn / Gwrthderfysgaeth;<br>v. Cynllun Meddygol;<br>w. Cynllun Rheoli Sŵn;<br>x. Polisi Eitemau Gwaharddedig a Chwilio;<br>y. Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus;<br>z. Asesiadau Risg;<br>aa. Glanweithdra;<br>bb. Cynllun Diogelwch a Lleihau Troseddau;<br>cc. Cynllun(iau) Safle;<br>dd. Datganiad Cynaliadwyedd;<br>ee. Telerau ac Amodau Mynediad;<br>ff. Cynllun Rheoli Bwyd Masnachwyr;<br>gg. Cynllun Rheoli Traffig;<br>hh. Asesiad Trafnidiaeth;<br>ii. Cynllun Rheoli Gwastraff a Sbwriel.<br><br>3. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bydd Deiliad y Drwydded Safle'n sicrhau y caiff y digwyddiad ei gynnal yn unol â'r Cynllun Rheoli Digwyddiad.<br><br>4. Caiff Cynllun Rheoli Digwyddiad penodol ar gyfer y digwyddiad a'r safle ei ddatblygu a'i rannu â'r Awdurdod Trwyddedu a'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch. Caiff y drafft cyntaf ei rannu o leiaf [ddau] fis cyn y digwyddiad.<br><br>5. Ar ôl i'r Cynllun Rheoli Digwyddiad gael ei gylchredeg, bydd yn rhaid i Ddeiliad y Drwydded Safle ymgynghori â'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch a rhoi sylw dyladwy i unrhyw sylwadau a wneir gan unrhyw Awdurdod Cyfrifol ynglŷn â chynnwys y ddogfen. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 6. Caiff y fersiwn derfynol o'r Cynllun Rheoli Digwyddiad ei chyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu a'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch o leiaf [21] diwrnod cyn y digwyddiad.<br><br>7. Ar ôl i'r fersiwn derfynol o'r Cynllun Rheoli Digwyddiad gael ei chyflwyno, ond cyn i'r digwyddiad ddechrau, os bydd Deiliad y Drwydded Safle'n credu bod rhaid gwneud addasiadau i'r Cynllun Rheoli Digwyddiad, caiff yr Awdurdod Trwyddedu a'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch eu hysbysu ynghylch yr addasiadau arfaethedig. Ni chaiff yr un addasiad ei wneud i'r Cynllun Rheoli Digwyddiad terfynol oni fydd yr Awdurdod Trwyddedu wedi cymeradwyo hynny'n ysgrifenedig. |
| CD11 | **Bwyd** | 1. Ar ôl [23:00] o'r gloch, dim ond bwyd i'w fwyta oddi ar y Safle y caniateir ei werthu.<br><br>2. Bydd bwyd ar gael ar bob adeg pan gaiff y Safle ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy. |
| CD12 | **Garej, gorsaf betrol, siop neu rywle tebyg (Gwerthiannau yn ystod y nos)** | 1. Rhwng [23:00] o'r gloch a [06:00] o'r gloch, caiff holl ddrysau'r Safle eu cau a bydd pob gwasanaeth a/neu drafodiad yn digwydd drwy ffenestr dalu yn unig. Bydd system teledu cylch cyfyng yn gwylio'r ffenestr dalu yn uniongyrchol. |
| CD13 | **Hysbysiadau (Rhif(au) ffôn cyswllt)** | 1. Rhaid i rif ffôn uniongyrchol ar gyfer y rheolwr ar ddyletswydd gael ei arddangos mewn man amlwg lle y gall y cyhoedd ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r Safle. Rhaid bod rhywun ar gael i ateb y rhif ffôn ar bob adeg pan fydd y Safle ar agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy.<br><br>2. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n rhoi rhif ffôn [llinell dir a/neu symudol] yn y Safle i drigolion a busnesau lleol. Rhaid bod rhywun ar gael i ateb y rhif ffôn ar bob adeg pan fydd y Safle ar agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy. |
| CD14 | **Hysbysiadau (Yr Heddlu/Atal Troseddu)** | 1. Caiff hysbysiadau clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau strategol ac amlwg ym mhob rhan o'r Safle i ddatgan y caiff yr Heddlu wybod os caiff unrhyw un ei ddarganfod â sylweddau a reolir neu arfau ymosodol yn ei feddiant.<br><br>2. Caiff hysbysiadau clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau strategol ac amlwg wrth brif fynedfa'r Safle i ddatgan na chaniateir mynd â chyffuriau i mewn i'r Safle a'i bod yn bosibl y bydd goruchwylwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | | drysau, staff diogelwch neu berson cyfrifol enwebedig yn cynnal chwiliadau.<br><br>3. Caiff hysbysiadau clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau strategol ac amlwg ym mhob rhan o'r Safle i roi gwybod i'r cwsmeriaid bod angen bod yn ymwybodol o bigwyr pocedi neu gipwyr bagiau, ac y dylent warchod eu heiddo a chadw golwg ar eu bagiau.<br><br>4. Caiff hysbysiadau clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau strategol ac amlwg ym mhob rhan o'r Safle i rannu enw pwynt cyswllt i gwsmeriaid os byddant yn dymuno rhoi gwybod am bryderon.<br><br>5. Caiff hysbysiadau clir a darllenadwy sy'n nodi'r polisi derbyn eu harddangos ar wal allanol y fynedfa i'r Safle.<br><br>6. Caiff hysbysiadau clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau strategol ac amlwg ym mhob rhan o'r Safle i roi gwybod bod system teledu cylch cyfyng wedi cael ei gosod a'i bod ar waith ar y Safle. |
| CD15 | **Cynwysyddion agored** | 1. Ni chaniateir i gwsmeriaid fynd â photeli na llestri gwydr (sy'n cynnwys diodydd alcoholaidd neu beidio) i mewn i'r Safle.<br><br>2. Ni chaniateir i gwsmeriaid fynd â diodydd (alcoholaidd neu beidio) a gyflenwyd gan y Safle allan o'r Safle mewn cynwysyddion [agored a/neu seliedig].<br><br>3. Ni chaiff alcohol ei werthu mewn cynhwysydd agored na chael ei yfed o fewn y Safle Trwyddedig. |
| CD16 | **Botymau panig** | 1. Caiff y botymau panig a osodir yn y Safle eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr effeithiol. |
| CD17 | **Deiliad Trwydded Bersonol** | 1. Bydd Deiliad Trwydded Bersonol yn bresennol ar y Safle pryd bynnag y bydd yn masnachu ar ôl [21:00] o'r gloch.<br><br>2. Rhaid i Ddeiliad Trwydded Bersonol fod yn bresennol ar y Safle i oruchwylio pob gwerthiant alcohol.<br><br>3. Bydd Deiliad Trwydded Bersonol yn bresennol ar bob adeg pan fydd y Safle ar agor i'r cyhoedd. |
| CD18 | **Cynwysyddion plastig a gwydr gwydn** | 1. Rhaid i bob diod gael ei gweini mewn [cynhwysydd polycarbonad / plastig / gwydr gwydn] agored.<br><br>2. Rhaid i bob diod a werthir i gael ei hyfed yn y |

| | | |
|---|---|---|
| | | [nodwch ardal] gael ei gweini mewn [cynhwysydd plastig / gwydr gwydn].<br><br>3. Penderfynir ar y defnydd o [gynwysyddion gwydr gwydn / plastig] yn ardaloedd allanol y Safle yn dilyn asesiad risg gan y Goruchwyliwr Safle Dynodedig gan roi sylw dyladwy i ffactorau lliniaru perthnasol y digwyddiad dan sylw.<br><br>4. Os bydd yn debygol y caiff diodydd (alcoholaidd neu beidio) eu hyfed yn yr awyr agored, e.e. gardd gwrw/gerddi cwrw, gwyliau ac ati, rhaid iddynt gael eu gweini mewn [cynwysyddion polycarbonad / plastig / gwydr gwydn].<br><br>5. Ni chaniateir i gwsmeriaid sy'n dal cynwysyddion gwydr fynd ar y llawr dawnsio ar unrhyw adeg. |
| CD19 | **Cardiau Prawf Oedran** | 1. Gofynnir am dystiolaeth o oedran ar ffurf prawf adnabod ffotograffig gan unrhyw berson sy'n ymddangos i'r rhai sy'n gwerthu neu'n cyflenwi alcohol fel pe bai o dan [18/21/25] oed ac sy'n ceisio prynu alcohol.<br><br>2. Ymhlith yr enghreifftiau o brawf adnabod priodol mae trwydded yrru neu basbort, cerdyn adnabod lluoedd arfog y DU ac unrhyw gardiau a gymeradwywyd gan y Cynllun Safonau Prawf Oedran ("PASS"). |
| CD20 | **Cyfrifoldeb Deiliad y Drwydded Safle** | 1. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n cymryd rhan ym Mhartneriaeth Lleihau Troseddau Busnes Castell-nedd Port Talbot neu bartneriaeth neu gynllun tebyg, a bydd Deiliad y Drwydded Safle neu gynrychiolydd addas yn mynd i bob cyfarfod.<br><br>2. Cyn gynted â phosibl, ac o fewn [un] mis ar ôl i'r Drwydded hon gael ei rhoi beth bynnag a fo, bydd y Safle'n ymuno â'r cynllun [Pubwatch] lleol neu gynllun lleihau troseddu lleol arall a gymeradwywyd gan yr Heddlu, a'r cynllun radio lleol os oes un ar gael.<br><br>3. Ni chaiff yr un person sy'n gweithredu ar ran y Safle nac ar ran person sy'n cynnal neu'n ceisio cynnal gweithgaredd trwyddedadwy achosi, caniatáu, cyflogi na galluogi, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, am dâl neu fel arall, i berson arall/personau eraill lithio na thowtio aelodau o'r cyhoedd ar unrhyw briffordd gyhoeddus yng nghyffiniau'r Safle, at ddibenion denu cwsmeriaid i mewn i'r Safle. Gwaherddir dosbarthu taflenni neu ddeunyddiau tebyg o'r Safle hefyd, boed yn union y tu allan i'r Safle neu yn y cyffiniau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 4. Bydd Deiliad y Drwydded Safle a'r Goruchwyliwr Safle Dynodedig yn sicrhau na fydd personau sy'n gyfrifol am brynu alcohol yn cyfnewid stoc â'r un ffynhonnell arall, yn rhoi benthyg stoc iddi nac yn cael benthyg stoc ganddi, oni bai mai lleoliad arall sy'n eiddo i'r un cwmni ac yn cael ei weithredu ganddo ac sydd hefyd yn prynu ei stoc gan gyfanwerthwr awdurdodedig yw'r ffynhonnell honno.<br><br>5. Caiff arwyddion amlwg eu harddangos ym mhob un o fynedfeydd y Safle i ddatgan na fydd y Safle'n prynu nwyddau gan neb sy'n galw heibio. Caiff yr arwyddion eu harddangos p'un a fydd mynediad i'r cyhoedd yn y fynedfa honno ai peidio.<br><br>6. Caiff copïau clir a darllenadwy o'r dogfennau y cyfeirir atynt yn Amod (rhif) uchod eu cadw ar y Safle a'u cyflwyno i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol fwrw golwg drostynt ar gais.<br><br>7. Caiff copïau o'r dogfennau y cyfeirir atynt yn Amod (rhif) uchod eu cadw ar y Safle am gyfnod o [12] mis o leiaf.<br><br>8. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n sicrhau y bydd staff sy'n gadael yn y nos/yn gynnar yn y bore pan fydd y Safle wedi rhoi'r gorau i fasnachu yn ymddwyn mewn ffordd sy'n osgoi tarfu ar drigolion a busnesau gerllaw.<br><br>9. Caiff golau uwchfioled ei brynu a'i ddefnyddio yn y storfa er mwyn archwilio'r holl eitemau o stoc a brynir sydd â stamp tollau arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn ddilys.<br><br>10. Os daw'r masnachwr yn ymwybodol ei bod yn bosibl nad oes tollau wedi'u talu am unrhyw alcohol, bydd yn rhoi gwybod i'r Heddlu ar unwaith. |
| CD21 | **Amodau bwyty** | 1. Dim ond ar yr amodau canlynol y caiff y Safle weithredu fel bwyty:<br>a. Os bydd staff yn tywys cwsmeriaid at eu byrddau neu os bydd cwsmeriaid yn dewis eu byrddau;<br>b. Os mai drwy wasanaeth gweinydd yn unig y caiff alcohol ei gyflenwi;<br>c. Os bydd darparu bwyd ar ffurf prydau bwrdd sylweddol a gaiff eu paratoi ar y Safle a'u gweini a'u bwyta wrth fyrddau gan ddefnyddio llestri nad ydynt yn dafladwy;<br>d. Os na fydd yn darparu gwasanaeth cludfwyd sy'n gwerthu bwydydd neu ddiodydd i'w |

| | | |
|---|---|---|
| | | bwyta a'u hyfed ar unwaith oddi ar y Safle;<br>e. Os bydd diodydd addas heblaw alcohol ar gael i'r un graddau ag alcohol i'w hyfed gyda phryd bwyd neu'n ategol i bryd bwyd fel arall;<br>f. Os na fydd alcohol yn cael ei werthu na'i gyflenwi, heblaw i'w yfed gan bersonau sy'n eistedd yn y Safle ac sy'n bwyta prydau bwrdd sylweddol yno mewn gwirionedd, ac ar yr amod y bydd personau o'r fath yn yfed alcohol yn ategol at brydau o'r fath.<br><br>At ddibenion yr Amod hwn, ystyr "pryd bwrdd sylweddol" yw pryd y gellid disgwyl iddo gael ei weini fel prif bryd canol dydd neu brif bryd nos, neu fel prif gwrs mewn pryd o'r fath ac a gaiff ei fwyta gan berson sy'n eistedd wrth fwrdd neu gownter neu adeiledd arall sy'n cyflawni'r un diben â bwrdd ac na chaiff ei ddefnyddio i weini lluniaeth i'w bwyta a'i hyfed gan bersonau nad ydynt yn eistedd wrth fwrdd neu adeiledd sy'n cyflawni'r un diben â bwrdd.<br><br>Er gwaethaf yr Amod hwn, caniateir i gwsmeriaid fynd â photeli gwin a gyflenwyd yn ategol at eu pryd bwyd ac sydd wedi'u hyfed yn rhannol a'u hailselio oddi ar y Safle.<br><br>2. Dim ond gyda phrydau bwyd ac i'w yfed yn ystod prydau bwyd, ac os caiff ei gyflenwi a'i yfed ac os telir amdano ar yr un pryd â phrydau bwyd, y caiff alcohol ei werthu neu ei gyflenwi i bersonau yn ardal y bwyty [a nodir ar y cynllun] . |
| CD22 | **Defnydd cyfyngedig o'r Drwydded** | 1. Bydd darpariaeth adloniant a reolir [cerddoriaeth fyw] wedi'i chyfyngu i'r digwyddiadau hynny sy'n breifat a phan na fydd mynediad i aelodau o'r cyhoedd.<br><br>2. Bydd mynediad i aelodau o'r cyhoedd wedi'i gyfyngu i ddigwyddiadau preifat a drefnir ymlaen llaw a'r achlysuron penodol a restrir ar dudalen [un] y Drwydded hon. |
| CD23 | **Cyfyngiad ar ardaloedd yfed** | 1. Dim ond yn [nodwch ardal] y Safle y caniateir yfed diodydd alcoholaidd.<br><br>2. Dim ond yn yr ardaloedd hynny a ddynodir ar y cynlluniau cymeradwy a gyflwynir i'r Awdurdod Trwyddedu y caniateir cynnal gweithgareddau trwyddedadwy.<br><br>3. Rhaid i'r ardal eistedd yn y Safle gael ei chlirio erbyn [23:00] o'r gloch ac ni chaniateir ei defnyddio wedi hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| CD24 | **Diogelwch (Mynediad/prawf adnabod/sganio)** | 1. Ni chaniateir i'r un person [y gwelir neu yr amheuir ei fod yn cario neu dan ddylanwad] cyffuriau / yn cario arf ymosodol gael mynediad i'r Safle.<br><br>2. Bydd y Safle'n gosod ac yn cynnal a chadw system sganio prawf adnabod electronig gydnabyddedig ar gyfer cwsmeriaid sy'n mynd i mewn i'r Safle.<br><br>3. Bydd y system ar waith ar bob adeg pan fydd staff drws ar ddyletswydd. Caiff pob person sy'n mynd i mewn i'r Safle ei sganio.<br><br>4. Dylai'r system allu rhannu rhybuddion â lleoliadau eraill sy'n defnyddio offer sganio prawf adnabod tebyg, adnabod hologram cerdyn adnabod a darllen pasbortau a chardiau adnabod, gan gynnwys cardiau oedran a gymeradwywyd gan y Cynllun Safonau Prawf Oedran (“PASS”).<br><br>5. Dylai'r system allu cynnal profion i weld p'un a yw dogfen yn ddilys neu'n ffug.<br><br>6. Rhaid i'r system gydymffurfio â chanllawiau arferion da'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer sganio prawf adnabod mewn clybiau a bariau.<br><br>7. Bydd gwybodaeth am y defnydd o'r offer sganio yn cael ei chyflwyno i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol.<br><br>8. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n gosod ac yn cynnal a chadw system electronig ar gyfer gwirio oedran a manylion adnabod (“EIAVS”) a gymeradwywyd gan yr Heddlu ac a fydd yn dangos ffotograff wyneb llawn o gwsmeriaid sy'n mynd i mewn i'r Safle.<br><br>9. Bydd yr EIAVS ar waith:<br>a. Ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn o [21:00] o'r gloch neu pan fydd goruchwylwyr drysau'n dechrau gweithio yn y Safle os bydd y goruchwylwyr drysau'n dechrau gweithio cyn [21:00] o'r gloch.<br>b. Ar adeg pob digwyddiad chwaraeon mawr, gwyliau banc, Calan Gaeaf, Noswyl Nadolig a Nos Galan o [21:00] o'r gloch neu pan fydd goruchwylwyr drysau'n dechrau gweithio os bydd y goruchwylwyr drysau'n dechrau gweithio cyn [21:00] o'r gloch.<br><br>10. Bydd yr EIAVS yn gysylltiedig â chronfa ddata ganolog a gymeradwywyd gan yr Heddlu a bydd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | diweddaru'n awtomatig.<br><br>11. Bydd yr EIAVS, os daw cais i law gan yr Heddlu, yn argraffu adroddiad a fydd yn cynnwys ffotograff wyneb llawn a manylion adnabod yr unigolyn y gofynnodd yr Heddlu am hynny ar ei gyfer.<br><br>12. Rhaid i bob cwsmer gael ei sganio i mewn drwy'r EIAVS ac eithrio'r cwsmeriaid hynny y rhoddwyd mynediad iddynt i'r Safle â chymeradwyaeth ysgrifenedig aelod o'r tîm rheoli neu'r Goruchwyliwr Safle Dynodedig. Bydd y gymeradwyaeth ysgrifenedig yn cynnwys y canlynol: enw'r Goruchwyliwr Safle Dynodedig/Rheolwr, disgrifiad o'r person, a'r rheswm dros roi cymeradwyaeth o'r fath. Rhaid i'r gymeradwyaeth ysgrifenedig gael ei chadw am gyfnod o 28 diwrnod a'i chyflwyno i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol os byddant yn gofyn amdani. |
| CD25 | **Diogelwch (Cyffredinol)** | 1. Bydd y Safle'n gweithredu polisi ffenestri clir er mwyn atal gwerthiannau alcohol i bobl dan oed, gwerthiannau drwy ddirprwy, a loetran y tu allan. |
| CD26 | **Diogelwch (Digwyddiadau diogelwch)** | 1. Bydd log digwyddiadau diogelwch (boed ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig) yn cael ei gadw a'i gynnal ar y Safle a'i gyflwyno i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol fwrw golwg drosto ar gais. Caiff y log digwyddiadau diogelwch ei gwblhau o fewn 24 awr i'r digwyddiad a rhaid iddo gofnodi'r canlynol:<br>a. Pob trosedd y rhoddwyd gwybod i'r Safle amdani;<br>b. Pob achos o daflu cwsmer allan;<br>c. Unrhyw gwynion a gafwyd;<br>d. Unrhyw achosion o anhrefn;<br>e. Pob achos o atafaelu cyffuriau neu arfau;<br>f. Unrhyw namau yn y system teledu cylch cyfyng, offer chwilio neu offer sganio;<br>g. Unrhyw achosion o wrthod gwerthu alcohol;<br>h. Unrhyw ymweliad gan unrhyw Awdurdod Cyfrifol neu wasanaeth brys;<br><br>Rhaid i'r log gynnwys y dyddiad, yr amser, enw'r aelod o staff sy'n cofnodi'r digwyddiad, manylion y digwyddiad ac unrhyw gamau a gymerwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2. Bydd unrhyw berson a gaiff ei ddarganfod yn delio cyffuriau yn cael ei gadw yn y Safle a bydd yr Heddlu'n cael gwybod ar unwaith. Caiff cyffuriau a atafaelwyd eu rhoi i'r Heddlu.<br><br>3. Caiff coffr cyffuriau diogel ei osod ar y Safle, a chaiff yr allweddi iddo eu cadw gan yr Heddlu. Caiff cofnod ysgrifenedig o'r eitemau a roddir yn y coffr ei wneud mewn log cyffuriau a'i gadw'n ddiogel mewn bagiau tystiolaeth a ddarperir gan yr Heddlu.<br><br>4. Bydd log cyffuriau (boed ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig) yn cael ei gadw a'i gynnal ar y Safle. Caiff y log ei ddefnyddio i gofnodi unrhyw eitemau a roddir yn y coffr cyffuriau. Bydd y log yn cynnwys y dyddiad, yr amser, enw'r aelod o staff sy'n gwneud y cofnod, ynghyd â manylion y cyffuriau ac unrhyw gamau a gymerwyd.<br><br>5. Os caiff ymosodiad difrifol ei gyflawni ar y Safle (neu os ymddengys fod hynny wedi digwydd), bydd y rheolwyr yn sicrhau bod y canlynol yn digwydd ar unwaith:<br><br>a. Caiff yr Heddlu (a Gwasanaeth Ambiwlans y GIG lle bo hynny'n briodol) eu galw'n ddi-oed;<br><br>b. Cymerir pob cam rhesymol ymarferol i gadw unrhyw unigolion sydd dan amheuaeth ar y Safle cyn i'r Heddlu gyrraedd;<br><br>c. Caiff safle'r drosedd ei gadw fel y mae er mwyn i'r Heddlu allu cynnal ymchwiliad fforensig llawn;<br><br>d. Cymerir unrhyw gamau eraill (fel y bo'n briodol) er mwyn diogelu pawb sy'n bresennol ar y Safle yn llawn. |
| CD27 | **Diogelwch**<br>**(Polisi chwilio)** | 1. Caiff polisi chwilio am gyffuriau, fel y cytunir arno gyda'r Heddlu, ei ddilyn fel amod ar gyfer caniatáu mynediad i'r Safle. Bydd y Safle'n caniatáu i'r Heddlu gynnal unrhyw ymgyrch gyffuriau ar y Safle.<br><br>2. Bydd y Goruchwyliwr Safle Dynodedig yn caniatáu i'r Heddlu gynnal unrhyw ymarfer neu ymgyrch ar y Safle. Mae hyn yn cynnwys defnyddio peiriant profi am gyffuriau Itemiser neu gi cyffuriau i archwilio'r Safle neu |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwsmeriaid ar y Safle fel amod mynediad (ond nid yw wedi'i gyfyngu i hynny).<br><br>3. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded Safle roi pob rhagofal ar waith er mwyn atal cyffuriau rhag mynd i mewn i'r Safle. Rhaid i bawb sy'n mynd i mewn i ddigwyddiad (ac eithrio'r rhai sydd â hawl i fynd i mewn yn unol ag a.179 o Ddeddf Trwyddedu 2003), gan gynnwys y rhai sydd ar y rhestr gwesteion a chyflogeion, gael eu chwilio. Rhaid i'r chwiliad gynnwys dillad allanol, pocedi a bagiau. Bydd yn rhaid i bolisi o'r fath ar gyfer chwilio pawb ar adeg mynediad gael ei gynnal ar adegau prysur ac eithrio pan fydd yr Heddlu wedi mynnu y dylid atal y chwiliadau dros dro er budd diogelwch y cyhoedd. Rhaid i'r chwiliadau gael eu cynnal gan oruchwylwyr drysau o'r un rhyw sydd wedi'u cofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.<br><br>4. Caiff hysbysiad amlwg ei arddangos yn y fynedfa i'r lleoliad i roi gwybod i gwsmeriaid:<br>a. Am y polisi chwilio;<br>b. Na chaniateir mynediad nes y bydd chwiliad wedi cael ei gynnal;<br>c. Y bydd personau y caiff unrhyw gyffuriau neu arfau ymosodol eu darganfod yn eu meddiant yn cael eu cadw ar y Safle ac y bydd yr Heddlu'n cael eu galw. |
| CD28 | **Digwyddiadau chwaraeon** | 1. Cyn unrhyw "Ddigwyddiad Chwaraeon Dynodedig" (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Digwyddiadau Chwaraeon (Rheoli Alcohol etc.) 1985), bydd Deiliad y Drwydded Safle'n sicrhau'r canlynol:<br>a. Caiff gwerthiannau alcohol mewn perthynas â chaniau o gwrw neu seidr eu cyfyngu i ddim mwy na [phedwar] can fesul person am o leiaf [bedair] awr cyn i'r Digwyddiad Chwaraeon Dynodedig perthnasol ddechrau;<br>b. Ni chaiff alcohol ei werthu mewn poteli na chynwysyddion gwydr yn ystod y [pedair] awr cyn i'r Digwyddiad Chwaraeon Dynodedig ddechrau;<br>c. Bydd gwerthiannau alcohol yn dod i ben am gyfnod o [un] awr yn union cyn i'r Digwyddiad Chwaraeon Dynodedig perthnasol ddechrau;<br>d. Ar unrhyw ddiwrnod pan fydd Digwyddiad Chwaraeon Dynodedig perthnasol yn cael ei gynnal, ni fydd y Safle'n hysbysebu argaeledd cwrw neu seidr o ganlyniad i ymgyrch hyrwyddo gan siop leol yn allanol mewn ffordd sy'n debygol o fod yr unig atyniad i ddenu personau i'r Safle sydd naill ai'n bresennol yn y Digwyddiad Chwaraeon |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dynodedig neu yng nghyffiniau'r Safle o ganlyniad i'r Digwyddiad Chwaraeon Dynodedig;<br>e. Rhoddir gwybod i bob aelod o staff sy'n gweithio yn y Safle am yr Amod hwn cyn iddynt dderbyn eu swyddi;<br>f. Ar ddiwrnod y Digwyddiad Chwaraeon Dynodedig perthnasol, yn unol â chyfarwyddyd un o swyddogion yr Heddlu, am resymau'n ymwneud ag atal troseddu ac anhrefn neu ddiogelwch y cyhoedd, bydd y Safle'n rhoi'r gorau i werthu alcohol ar unwaith nes iddo gael cyfarwyddyd pellach gan yr Heddlu neu nes y bydd y Digwyddiad Chwaraeon Dynodedig wedi gorffen. |
| CD29 | **Arwyddion**<br>**(I nodi oriau agor)** | 1. Caiff hysbysiadau clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau strategol ac amlwg ar y Safle neu'n union y tu allan i'r Safle i nodi'r oriau arferol yn unol â thelerau'r Drwydded Safle neu'r Dystysgrif Safle Clwb pan ganiateir i weithgareddau trwyddedadwy gael eu cynnal. |
| CD30 | **Staffio**<br>**(Cyffredinol)** | 1. Bydd o leiaf ddau aelod o staff yn bresennol ar y Safle ar bob adeg pan fydd y [siop/lleoliad] ar agor y tu hwnt i [23:00] o'r gloch.<br>2. Bydd y staff yn goruchwylio ardaloedd a gweithgareddau'r cwsmeriaid yn rheolaidd. |
| CD31 | **Staffio**<br>**(Hyfforddiant)** | 1. Rhaid i bob aelod o staff sy'n gwerthu ac yn cyflenwi alcohol ar y Safle gael hyfforddiant llawn sy'n berthnasol i Ddeddf Trwyddedu 2003 (mewn perthynas â gwerthiannau â chyfyngiad oed, Polisi Herio 25 a gwrthod gwerthu i bersonau y credir eu bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau yn benodol) cyn y caniateir iddynt werthu neu gyflenwi unrhyw alcohol i'r cyhoedd ar y Safle neu wrth ddanfon nwyddau. Caiff hyfforddiant gloywi ei gynnal bob [chwe] mis ar gyfer yr holl staff, a'i ddogfennu yn y llyfr cofnodi hyfforddiant.<br>2. Bydd llyfr cofnodi hyfforddiant (boed ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig) ar gyfer hyfforddiant o'r fath yn cael ei gadw / o fewn cyrraedd ar y Safle ar bob adeg a bydd yn cael ei gyflwyno ar unwaith i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol eraill fwrw golwg drosto ar y Safle ar gais. Bydd y cofnod hyfforddiant yn cynnwys enw'r hyfforddai, enw'r hyfforddwr, llofnod yr hyfforddai, llofnod yr hyfforddwr, dyddiad(au) yr hyfforddiant a datganiad |

| | | |
|---|---|---|
| | | bod yr hyfforddiant wedi cael ei roi.<br><br>3. Bydd cofnodion o holl hyfforddiant y staff ynghyd ag unrhyw ddeunydd hyfforddi a ddefnyddir, yn cael eu cadw a'u cynnal gan y Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu Ddeiliad y Drwydded Safle.<br><br>4. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n defnyddio llawlyfr hyfforddi a bydd pob aelod o staff yn cael hyfforddiant addas ar atal gwerthiannau dan oed cyn iddynt werthu unrhyw alcohol. |
| CD32 | **Cyfathrebu drwy negeseuon testun/radio** | 1. Bydd cyswllt cyfathrebu testun/radio dwyffordd digonol sy'n cysylltu'r Safle â'r Heddlu lleol ar gael ar y Safle pan fydd ar agor i'r cyhoedd.<br><br>2. Bydd yn rhaid i'r cyswllt testun/radio fod ar gael i'r Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu aelod cyfrifol o staff a chael ei fonitro ganddo ar bob adeg pan fydd y Safle ar agor i'r cyhoedd.<br><br>3. Rhaid cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan yr Heddlu dros y cyswllt testun/radio pryd bynnag y cânt eu rhoi.<br><br>4. Bydd y Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu aelod cyfrifol o staff yn rhoi gwybod i bwynt cyswllt y cytunwyd arno yn yr Heddlu am bob achos o droseddu neu anhrefn drwy'r cyswllt testun/radio. |
| CD33 | **Toiledau** | 1. Rhaid i'r holl gyfleusterau glanweithdra gael eu staffio'n barhaus gan bersonau â chymwysterau addas tra bydd y Safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy. |

# Diogelwch y cyhoedd

| | | |
|---|---|---|
| PS1 | **Terfyn ar niferoedd** | 1. Uchafswm nifer y personau y caniateir iddynt fod ar y Safle ar unrhyw adeg fydd (nodwch nifer).<br><br>2. Uchafswm nifer y personau y caniateir iddynt fod yn y (nodwch ardal) ar unrhyw adeg fydd (nodwch nifer).<br><br>3. Pan gaiff Adloniant a Reoleiddir ei ddarparu, bydd Deiliad y Drwydded Safle'n gosod a/neu'n gweithredu |

| | | |
|---|---|---|
| | | system/dyfais fonitro er mwyn cadw cyfrif cyfredol o'r holl bersonau sy'n bresennol yn y Safle ar unrhyw adeg yn ystod oriau trwyddedadwy. Bydd y cyfanswm hwn yn cynnwys staff. Ni chaniateir i'r cyfanswm fod yn fwy na'r terfyn ar niferoedd a roddir gan [y Drwydded Safle/yr Awdurdod Trwyddedu]. Caiff y cyfanswm hwn ei rannu â'r Heddlu a swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol ar gais.<br><br>4. Caiff system addas ei rhoi ar waith i fonitro nifer y personau sydd yn y Safle er mwyn sicrhau nad oes gormod o bobl yno.<br><br>5. Caiff system addas ei rhoi ar waith i fonitro nifer y personau sydd yn y (nodwch ardal) er mwyn sicrhau nad oes gormod o bobl yno. |
| PS2 | **Cyfrifoldeb y Rheolwr ar Ddyletswydd/Safle Trwyddedig** | 1. Bydd y Rheolwr ar Ddyletswydd yn gyfarwydd â holl amodau'r Drwydded.<br><br>2. Ni fydd y Rheolwr ar Ddyletswydd yn ymwneud ag unrhyw ddyletswyddau a fydd yn atal trefniadau goruchwylio cyffredinol y Safle.<br><br>3. Bydd y staff yn gyfarwydd â holl ofynion ac amodau'r Drwydded.<br><br>4. Bydd aelod o staff ar ddyletswydd yn yr ystafell gotiau drwy gydol yr amser y bydd yn cael ei defnyddio. |
| PS3 | **Hypnotiaeth** | 1. Ni chaiff neb gynnal ar y Safle yr un arddangosfa, arddangosiad na pherfformiad sy'n cynnwys hypnotiaeth, mesmeriaeth na'r un weithred neu broses debyg sy'n peri neu y bwriedir iddi beri i unrhyw berson arall fynd i unrhyw fath o gwsg neu berlewyg a fydd yn cynyddu neu y bwriedir iddo gynyddu tueddiad meddwl y person hwnnw i ddilyn awgrymiadau neu gyfarwyddiadau.<br><br>NODER: Nid yw'r amod hwn yn berthnasol i arddangosfeydd a gynhelir yn unol â darpariaethau a.2(1A) ac a.5 o Ddeddf Hypnotiaeth 1952. |
| PS4 | **Cynlluniau** | 1. Bydd y Cynllun Trwyddedu Llawr Gwaelod presennol, sef lluniad rhif [nodwch] fel y'i gwelir yn y Drwydded Safle yn parhau i fod mewn grym nes y bydd y gwaith arfaethedig wedi'i gwblhau fel y rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu amdano.<br><br>2. Pan fydd y gwaith arfaethedig wedi'i gwblhau fel y rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu amdano, |

| | | |
|---|---|---|
| | | daw'r Cynllun Trwydded Llawr Gwaelod arfaethedig, sef lluniad rhif [nodwch] fel y'i gwelir yn y Drwydded Safle, i rym. |
| PS5 | **Trefniadau diogelwch (Cyffredinol)** | . 1. Bydd y trefniadau cymeradwy ar y Safle, gan gynnwys darpariaethau ffordd o ddianc, offer rhybuddio mewn argyfwng, y gosodiadau trydanol a'r offer mecanyddol, yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn ar bob adeg berthnasol.<br><br>. 2. Bydd y ffordd o ddianc a ddarperir ar gyfer y Safle yn cael ei chadw'n rhydd o rwystrau a pheryglon baglu, a bydd ar gael ar unwaith ac wedi'i nodi'n glir yn unol â'r cynlluniau a ddarperir.<br><br>. 3. Bydd drws pob allanfa argyfwng ar gael ar bob adeg berthnasol heb ddefnyddio allwedd, cod, cerdyn na dull tebyg.<br><br>. 4. Caiff pob drws argyfwng ei gynnal a'i gadw'n effeithiol, bydd yn gallu cau ar ei ben ei hun ac ni fydd yn cael ei ddal ar agor heblaw gan ddyfais gymeradwy.<br><br>. 5. Caiff ymylon stepiau a grisiau eu cynnal a'u cadw fel y byddant i'w gweld yn amlwg.<br><br>6. Bydd yr holl ffabrigau, llenni a nodweddion tebyg, gan gynnwys defnyddiau a ddefnyddir i orffennu a dodrefnu, naill ai'n anhylosg neu'n wrthdan yn naturiol neu wedi'u trin i fod yn wrthdan. Bydd unrhyw ffabrigau a ddefnyddir mewn ystafelloedd dianc (heblaw cynteddau), ardaloedd adloniant neu ystafelloedd digwyddiadau, yn anhylosg.<br><br>. 7. Caiff y tystysgrifau a restrir isod eu cyflwyno i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol ar gais ysgrifenedig:<br>a. Unrhyw fatri neu system goleuadau argyfwng dros dro neu barhaol;<br>b. Unrhyw osodiadau trydanol dros dro neu barhaol;<br>c. Unrhyw system rhybuddio mewn argyfwng dros dro neu barhaol.<br><br>. |
| PS6 | **Trefniadau diogelwch (Asesiadau risg)** | 1. Caiff dogfen reoli ar gyfer digwyddiad penodol ei chyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu sy'n amlinellu strwythur, cyfrifoldebau a manylion cyswllt arfaethedig y rheolwyr ar gyfer pob digwyddiad unigol, ynghyd â manylion y trefniadau ar gyfer |

| | | |
|---|---|---|
| | | trefnu, rheoli, monitro ac adolygu fel y'u nodir yn yr asesiad risg ar gyfer y digwyddiad penodol. Ym mhob achos, caiff y ddogfen hon ei chyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu o leiaf [21] diwrnod cyn y digwyddiad (ac eithrio digwyddiadau lle y bydd y gwesteion yn eistedd gan amlaf, pan gaiff y ddogfen reoli ei chyflwyno o leiaf [14] diwrnod cyn y digwyddiad).<br>2. Ar gyfer pob digwyddiad a gynhelir o dan y Drwydded, caiff Dogfen Rheoli Diogelwch Digwyddiad (ar gyfer y digwyddiad penodol) ei chwblhau sy'n amlinellu strwythur, cyfrifoldebau a manylion cyswllt arfaethedig y rheolwyr ar gyfer pob digwyddiad unigol, ynghyd â manylion y trefniadau ar gyfer trefnu, rheoli, monitro ac adolygu fel y'u nodir yn yr asesiad risg ar gyfer y digwyddiad penodol.<br>3. Ym mhob achos, caiff y ddogfen hon ei chyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu, y swyddog sy'n ymdrin â diogelwch y cyhoedd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, o leiaf [21] diwrnod cyn y digwyddiad (ac eithrio digwyddiadau lle y bydd y gwesteion yn eistedd gan amlaf, pan gaiff y ddogfen reoli ei chyflwyno o leiaf [14] diwrnod cyn y digwyddiad).<br>4. Bydd gan y Swyddog Diogelwch y Cyhoedd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân hawl absoliwt i feto os na fyddant yn fodlon ar y mesurau arfaethedig. |
| PS7 | **Adloniant rhywiol** | 1. [Heblaw mewn ystafelloedd gwely mewn gwesty] Ni chaniateir sioeau stripio na noethni, a bydd pob person wedi'i wisgo'n weddus ar bob adeg, ac eithrio pan fydd y Safle'n gweithredu dan awdurdodiad trwydded Lleoliad Adloniant Rhywiol. |
| PS8 | **Effeithiau arbennig** | 1. Caiff unrhyw effeithiau arbennig neu osodiadau mecanyddol eu trefnu, eu gweithredu a'u storio mewn ffordd sy'n sicrhau cyn lleied â phosibl o risg i ddiogelwch y bobl sy'n defnyddio'r Safle. Bydd yn rhaid rhoi [10] diwrnod o rybudd ymlaen llaw i'r Awdurdod Trwyddedu, os na fydd caniatâd wedi'i roi'n flaenorol, cyn defnyddio'r effeithiau arbennig canlynol:<br>a. Iâ sych a niwl cryogenig;<br>b. Peiriannau mwg a chynhyrchwyr niwl; |

| | | |
|---|---|---|
| | | c. Pyrotechneg gan gynnwys tân gwyllt;<br>d. Arfau tanio;<br>e. Laserau;<br>f. Ffrwydron a sylweddau hynod fflamadwy;<br>g. Fflamau go iawn;<br>h. Goleuadau strôb. |

## Atal niwsans cyhoeddus

| | | |
|---|---|---|
| PN1 | **Hysbysebion** | 1. Ni chaniateir i hysbysebion o unrhyw fath (gan gynnwys placardiau, posteri, sticeri, taflenni, lluniau, llythyrau, arwyddion neu farciau eraill) sy'n hysbysebu neu'n hyrwyddo'r sefydliad, ei Safle, neu unrhyw rai o'i ddigwyddiadau, cyfleusterau, nwyddau neu wasanaethau, gael eu harysgrifo na'u gosod ar wyneb y briffordd, nac ar unrhyw adeilad, adeiledd, gwaith, celfi stryd, coeden nac unrhyw eiddo arall, i'w dosbarthu i'r cyhoedd. |
| PN2 | **Cerddoriaeth/sain wedi'i chwyddo** | 1. Ar adegau pan fydd cerddoriaeth/sain fyw a/neu recordiedig wedi'i chwyddo'n cael ei chwarae yn y Safle:<br>a. Bydd pob ffenestr yn aros ar gau;<br>b. Bydd pob drws yn aros ar gau ac eithrio at ddibenion mynd i mewn ac allan (heb gynnwys drysau allanol system fynediad drysau dwbl ac oni fydd hynny'n groes i'r rhagofalon/gweithdrefnau tân).<br><br>2. Ni chaiff seinyddion ar gyfer chwyddo cerddoriaeth/sain eu gosod ym mynedfa/mynedfeydd ac allanfa/allanfeydd y Safle.<br><br>3. Ni chaiff seinyddion ar gyfer chwyddo cerddoriaeth/sain eu gosod ar y tu allan i'r Safle nac ar y tu allan i unrhyw adeilad sy'n rhan o'r Safle.<br><br>4. Ni chaniateir cerddoriaeth/sain fyw a/neu recordiedig wedi'i chwyddo y tu mewn i'r Safle rhwng [23:00] o'r gloch ac [11:00] o'r gloch.<br><br>5. Ni chaniateir defnyddio'r [ystafell/ardal] fel lleoliad ar gyfer chwarae cerddoriaeth/sain wedi'i chwyddo. |

| | | |
|---|---|---|
| PN3 | **Llyfr (Cwynion)** | 1. Caiff llyfr cwynion (boed ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig) o'r holl gwynion a wneir gan drigolion neu fusnesau lleol ynglŷn â gweithrediad y Safle ei gadw a'i gynnal gan Ddeiliad y Drwydded Safle. Bydd y llyfr yn cael ei gyflwyno ar unwaith i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol fwrw golwg drosto ar y Safle ar gais.<br><br>2. Caiff unrhyw gwynion (gan gynnwys sŵn) a wneir eu logio a'u cofnodi yn y llyfr cwynion ac ymchwilir iddynt o fewn [48] awr ar ôl i'r gŵyn gael ei gwneud. Bydd y manylion a gaiff eu cofnodi pan ddaw cwyn i law fel a ganlyn:<br>a. Enw a chyfeiriad yr achwynydd, testun y gŵyn, a ble/sut yr effeithiwyd ar yr achwynydd;<br>b. Manylion dilysu/gwirio'r gŵyn, h.y. manylion canfyddiadau'r ymchwiliad;<br>c. Camau unioni a gymerwyd. Os na chymerwyd camau unioni, rhaid rhoi cyfiawnhad;<br>d. Cofnod o unrhyw gyfathrebu â'r achwynydd/achwynwyr i roi gwybod beth a wnaed i fynd i'r afael â'r gŵyn/cwynion. |
| PN4 | **Danfon nwyddau** | 1. Ni chaiff nwyddau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau trwyddedadwy ar y Safle eu danfon na'u casglu rhwng [nodwch oriau] o'r gloch.<br><br>2. Dim ond i'r fynedfa [gefn] y caiff nwyddau eu danfon. |
| PN5 | **Polisi gwasgaru** | 1. Bydd polisi gwasgaru'n dechrau [30] munud cyn i'r Safle gau, a bydd yn cynnwys y canlynol:<br>a. Arafu tempo cerddoriaeth a gostwng lefel y sain;<br>b. Codi lefel y goleuadau'n raddol;<br>c. Cyhoeddi bod diodydd meddal ar gael a rhannu manylion gwasanaeth tacsis sy'n gysylltiedig â'r Safle;<br>d. Troi'r goleuadau tŷ ymlaen [10] munud cyn i'r bar gau.<br><br>2. Rhaid i'r ffordd y bydd cwsmeriaid yn gwasgaru o'r Safle gael ei rheoli yn unol â'r canlynol: |

| | | |
|---|---|---|
| | | a. Caiff arwyddion clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau amlwg wrth bob allanfa o'r Safle, yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion lleol a gadael y Safle a'r ardal yn dawel. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion.<br><br>b. Cyhoeddiadau cyhoeddus yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar drigolion gerllaw;<br><br>c. Cyfnod o [nodwch] munud pan fydd [lefel sain y gerddoriaeth yn gostwng / lefel y goleuadau'n cynyddu / gwerthiannau alcohol yn dod i ben].<br><br>3. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y bydd unrhyw gwsmeriaid sy'n loetran y tu allan i'r Safle yn gwasgaru'n gyflym ac na fyddant yn ymgynnull. |
| PN6 | **Cyfnod gorffen yfed/pwyllo** | 1. Rhoddir y gorau i gyflenwi alcohol a darparu Adloniant a Reoleiddir [30] munud cyn amseroedd cau'r Safle.<br><br>2. Bydd y Safle'n cau i'r cyhoedd [30] munud ar ôl i'r gweithgareddau trwyddedadwy ddod i ben. |
| PN7 | **Mynediad i'r Safle** | 1. Bydd ffyrdd i mewn ac allan wedi'u cyfyngu i'r brif fynedfa ar [enw'r stryd], ac eithrio mewn argyfwng.<br><br>2. Ni chaniateir mynediad nac ailfynediad i'r Safle ar ôl [amser] o'r gloch.<br><br>3. Ni chaniateir mynediad nac ailfynediad i'r Safle ar ôl [23:00] o'r gloch ac eithrio cwsmeriaid y caniatawyd iddynt adael y Safle dros dro (e.e. i smygu neu wneud galwad ffôn).<br><br>4. Ni chaniateir i gwsmeriaid y caniateir iddynt adael y Safle dros dro ac yna ddychwelyd (e.e. i smygu neu wneud galwad ffôn) fynd â chynwysyddion gwydr gyda nhw.<br><br>5. Caiff cwsmeriaid y caniateir iddynt adael y Safle dros dro i smygu ac yna ddychwelyd eu cyfyngu i ardal smygu ddynodedig a ddiffinnir fel [nodwch y lleoliad/marc ar y cynllun]. Ni chaniateir i fwy na [nodwch nifer] o gwsmeriaid aros yn yr ardal smygu ddynodedig ar unrhyw adeg. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 6. Caiff hysbysiadau clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau amlwg mewn unrhyw ardal a ddefnyddir ar gyfer smygu, yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion a busnesau lleol a defnyddio'r ardal yn dawel. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion. |
| PN8 | **Ardal[oedd] yfed allanol** | 1. Ni chaniateir defnyddio'r un ardal yfed allanol (gan gynnwys gerddi cwrw) ar ôl [nodwch yr amser] o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, a [nodwch yr amser] ar ddydd Sul, ac ni fydd cwsmeriaid ynddi erbyn i'r Safle agor i'r cyhoedd.<br><br>2. Rhoddir y gorau i gyflenwi alcohol ym mhob ardal yfed allanol am [nodwch yr amser] o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac am [nodwch yr amser] o'r gloch ar ddydd Sul. Caniateir cyfnod o [20 munud] ar ôl rhoi'r gorau i gyflenwi alcohol ym mhob ardal yfed allanol o ddydd Llun i ddydd Sul, er mwyn gorffen yfed/gwasgaru.<br><br>3. Caiff arwyddion clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau amlwg ym mhob ardal yfed allanol yn nodi na chaniateir defnyddio'r ardaloedd ar ôl [nodwch yr amser] o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac am [nodwch yr amser] ar ddydd Sul. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion.<br><br>4. Ni chaniateir defnyddio ardal[oedd] allanol y Safle ar gyfer Adloniant a Reoleiddir.<br><br>5. Caiff arwyddion clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau amlwg ym mhob ardal yfed allanol, yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion lleol a gadael y Safle a'r ardal yn dawel. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion.<br><br>6. Caiff arwyddion clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau amlwg ym mhob ardal yfed allanol, yn gofyn i gwsmeriaid adael y Safle yn drefnus. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion.<br><br>7. Bydd goruchwylwyr drysau a/neu staff yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, y bydd cwsmeriaid mewn ardal[oedd] allanol yn ymddwyn mewn modd trefnus sy'n ystyriol o gymdogion.<br><br>8. Caiff arwyddion clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau amlwg ym mhob ardal yfed allanol, yn gofyn i gwsmeriaid ymddwyn mewn modd trefnus sy'n ystyriol o gymdogion. Dylid sicrhau bob amser nad |

| | | |
|---|---|---|
| | | oes dim byd yn cuddio'r arwyddion.<br><br>9. Caiff arwyddion clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau amlwg ym mhob ardal yfed allanol, yn gofyn i gwsmeriaid barchu'r cymdogion a defnyddio'r ardal[oedd] yn dawel. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion.<br><br>10. Caiff yr holl gadeiriau a byrddau allanol eu symud i mewn i'r Safle neu eu symud i rywle arall o'r ardal allanol erbyn [nodwch amser] o'r gloch bob dydd.<br><br>11. Caiff yr ardal ei defnyddio fel ardal smygu a bydd staff a swyddogion diogelwch yn monitro'r ardal ac yn annog cwsmeriaid i ddychwelyd i'r lleoliad yn gyflym.<br><br>12. Ni chaniateir i gerddoriaeth/sain fyw a/neu recordiedig wedi'i chwyddo fod yn glywadwy yn yr un ardal yfed allanol.<br><br>13. Bydd ardal[oedd] allanol y Safle yn rhoi'r gorau i fasnachu am [22:00] o'r gloch ac yn glir erbyn [22:30] o'r gloch (heb gynnwys yr ardal smygu).<br><br>14. Ni chaniateir defnyddio unrhyw ardal[oedd] allanol ar y safle ar gyfer dangos darllediadau ffrwd fyw ar sgrin ar unrhyw adeg.<br><br>15. Ni chaniateir i fwy na [nodwch nifer] o gwsmeriaid fynd i mewn i [diffiniwch ardal(oedd) allanol] y Safle nac aros yno ar unrhyw adeg rhwng [nodwch] o'r gloch.<br><br>16. Caiff y bar allanol (a leolir fel y dangosir ar y cynllun a welir yn [Atodiad rhif] ei ddefnyddio [nodwch oriau a diwrnodau] yn unig a bydd ar gau ar bob adeg arall.<br><br>17. Bydd ardal y patio allanol yn glir o gwsmeriaid erbyn [nodwch amser] o'r gloch a dim ond at ddibenion smygu y caniateir i bersonau ddefnyddio'r ardal honno ar ôl hynny. |
| PN9 | **Mygdarthau** | 1. Ni chaniateir i fygdarthau, stêm nac arogleuon gael eu hallyrru o'r Safle mewn ffordd a fyddai'n peri niwsans i unrhyw bersonau sy'n byw neu'u cynnal busnes yn ardal y Safle. |
| PN10 | **Bwydydd a Diodydd Poeth** | 1. Ni chaniateir gwerthu bwydydd poeth na diodydd poeth i'w bwyta a'u hyfed oddi ar y Safle ar ôl [23:00] o'r gloch. |

| | | |
|---|---|---|
| PN11 | **Oriau Cau (Amser Haf Prydain)** | 1. Ar y bore pan fydd Amser Safonol Greenwich yn newid yn Amser Haf Prydain, ychwanegir awr at yr amser y daw unrhyw weithgareddau i ben a'r amser cau ar gyfer y Safle os bydd yr amseroedd hynny ar ôl [01:00] o'r gloch. |
| PN12 | **Amser Mynediad Hwyraf** | 1. Ni chaniateir mynediad nac ailfynediad i'r Safle ar ôl [nodwch amseroedd].<br><br>2. Bydd amser mynediad hwyaf o hanner nos [00:00 o'r gloch] yn berthnasol ar nos Wener a nos Sadwrn a bydd arwydd priodol sy'n datgan hynny yn cael ei arddangos ar y fynedfa i'r Safle. |
| PN13 | **Goleuadau** | 1. Ni chaniateir i oleuadau sy'n fflachio neu'n arbennig o lachar ar y Safle neu'r tu allan iddo beri niwsans i eiddo gerllaw, oni bai eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal troseddu ac anhrefn. |
| PN14 | **Sbwriel** | 1. Am [nodwch amser] bydd yn rhaid i [nodwch ardaloedd] y tu allan i'r Safle, gan gynnwys [nodwch ardaloedd] gael eu sgubo a/neu eu golchi, a bydd yn rhaid i sbwriel a sgubion y gellir eu priodoli i'r Safle gael eu casglu a'u storio [nodwch drefniadau ar gyfer storio a chasglu].<br><br>2. Os bydd y Safle'n darparu Lluniaeth gyda'r Hwyr i'w bwyta a'i hyfed oddi ar y Safle, bydd yn rhaid darparu digon o finiau gwastraff wrth bob un o'r allanfeydd neu'n agos atynt, er mwyn i bobl allu gwaredu gwastraff.<br><br>3. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n sicrhau bod yr holl staff yn wyliadwrus ynglŷn â materion sy'n ymwneud â sbwriel, gan archwilio'r Safle'n rheolaidd yn ystod oriau agor er mwyn sicrhau ei fod yn lân ac yn daclus ac y caiff blaen y Safle ei sgubo o leiaf [unwaith] bob diwrnod masnachu.<br><br>4. Yn ystod oriau gweithredu'r Safle, bydd Deiliad y Drwydded Safle'n sicrhau bod mesurau digonol ar waith i gael gwared ar sbwriel neu wastraff a'i atal rhag cronni neu gael ei achosi gan gwsmeriaid yn yr ardal yn union y tu allan i'r Safle, ac y caiff yr ardal hon ei sgubo a'i golchi, ac y caiff sbwriel a sgubion eu casglu a'u storio yn unol â'r trefniadau storio sbwriel cymeradwy erbyn diwedd y diwrnod gwaith.<br><br>5. Caiff yr holl wastraff ei gyflwyno a'i osod allan yn briodol i gael ei gasglu o leiaf [30] munud cyn yr |

| | | |
|---|---|---|
| | | amseroedd casglu a drefnwyd.<br><br>6. Ni chaniateir i wastraff na deunyddiau y gellir eu hailgylchu, gan gynnwys poteli, gael eu symud, eu symud ymaith na'u gosod mewn ardaloedd awyr agored rhwng [23:00] o'r gloch ac [08:00] o'r gloch ar y diwrnod canlynol. |
| PN15 | **Perfformiad[au] Byw** | 1. Caiff cerddoriaeth fyw ei chyfyngu i ddim mwy na [phedwar] perfformiwr yn y [bar] ar unrhyw adeg.<br><br>2. Bydd yn rhaid i gerddoriaeth fyw ddod i ben [30] munud cyn i gyflenwi alcohol ddod i ben (dim mwy na [36] o achlysuron y flwyddyn).<br><br>3. Bydd cerddoriaeth fyw wedi'i chyfyngu i [nodwch nifer] gwaith yr wythnos a bydd yn dod i ben erbyn [nodwch amser] fan bellaf, oni fydd y gerddoriaeth yn rhan o ddigwyddiad preifat. |
| PN16 | **Cyfrifoldeb y Rheolwr/Rheolwyr** | 1. Bydd y rheolwr ar ddyletswydd, gan wisgo gwasgod lachar, yn patrolio'r tu allan i'r Safle'n rheolaidd pan fydd gweithgareddau trwyddedadwy'n cael eu cynnal.<br><br>2. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n sicrhau bod unrhyw giw i fynd i mewn i'r Safle sy'n ffurfio y tu allan i'r Safle yn drefnus ac yn cael ei oruchwylio gan staff drws er mwyn sicrhau na fydd niwsans cyhoeddus na rhwystr ar y briffordd gyhoeddus. |
| PN17 | **Sŵn (Arolwg Acwsteg)** | 1. Ni chaniateir Adloniant a Reoleiddir, ar ffurf cerddoriaeth fyw a/neu recordiedig (wedi'i chwyddo neu beidio) ar y Safle nes y bydd Deiliad y Drwydded Safle'n comisiynu arolwg acwsteg (ar ffurf Asesiad o Effaith Sŵn) i gael ei gynnal gan ymgynghorydd acwsteg annibynnol er mwyn dod o hyd i ffynonellau posibl o ollwng sain sy'n debygol o darfu ar drigolion neu fusnesau lleol, o ystyried natur yr adloniant a ddarperir.<br><br>Rhaid cyflwyno copi o'r Asesiad o Effaith Sŵn, ynghyd â'r holl dystiolaeth ategol o gydymffurfiaeth â'r gofynion, i'r Awdurdod Trwyddedu a'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd.<br><br>Ni chaniateir Adloniant a Reoleiddir nes bod Deiliad y Drwydded Safle wedi cwblhau'r holl waith cyweirio a bod y mesurau rheoli a argymhellir yn yr Asesiad o Effaith |

| | | |
|---|---|---|
| | | Sŵn wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn er boddhad ysgrifenedig yr Awdurdod Trwyddedu a/neu'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd.<br><br>Er mwyn cydymffurfio â'r uchod, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:<br>a. Rhaid i'r Asesiad o Effaith Sŵn gael ei gynnal gan ymgynghorydd acwsteg annibynnol, a fydd yn aelod o Gymdeithas yr Ymgynghorwyr Sŵn ac yn aelod o'r Sefydliad Acwsteg;<br>b. Bydd dull yr Asesiad o Effaith Sŵn yn cyd-fynd â chanllawiau cyfredol y DU, a'r Safonau Prydeinig, a chytunir arno gyda'r Awdurdod Trwyddedu a/neu'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd cyn i'r asesiad ddechrau;<br>c. Cyn i'r mesur rheoli gael ei roi ar waith, bydd yr Awdurdod Trwyddedu a/neu'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn cael cyfle i fwrw golwg dros yr Asesiad o Effaith Sŵn, a'i argymhellion, a gwneud sylwadau arnynt.<br><br>2. Ni chaniateir Adloniant a Reoleiddir, boed yn cael ei reoleiddio neu wedi'i ddadreoleiddio gan Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012, yn [y Safle/yr ystafell] nes y bydd Deiliad y Drwydded Safle yn comisiynu arolwg acwsteg (ar ffurf Asesiad o Effaith Sŵn) i gael ei gynnal gan ymgynghorydd acwsteg annibynnol er mwyn dod o hyd i ffynonellau posibl o ollwng sain sy'n debygol o darfu ar drigolion neu fusnesau lleol, o ystyried natur yr adloniant a ddarperir.<br><br>Rhaid cyflwyno copi o'r Asesiad o Effaith Sŵn, ynghyd â'r holl dystiolaeth ategol o gydymffurfiaeth â'r gofynion, i'r Awdurdod Trwyddedu a'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd.<br><br>Ni chaniateir Adloniant a Reoleiddir nes bod Deiliad y Drwydded Safle wedi cwblhau'r holl waith cyweirio a bod y mesurau rheoli a argymhellir yn yr Asesiad o Effaith Sŵn wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn er boddhad ysgrifenedig yr Awdurdod Trwyddedu a/neu'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd.<br><br>Er mwyn cydymffurfio â'r uchod, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:<br>a. Rhaid i'r Asesiad o Effaith Sŵn gael ei gynnal gan ymgynghorydd acwsteg annibynnol, a fydd yn aelod o Gymdeithas yr Ymgynghorwyr Sŵn ac yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | aelod o'r Sefydliad Acwsteg;<br>b. Bydd dull yr Asesiad o Effaith Sŵn yn cyd-fynd â chanllawiau cyfredol y DU, a'r Safonau Prydeinig, a chytunir arno gyda'r Awdurdod Trwyddedu a/neu'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd cyn i'r asesiad ddechrau;<br>c. Cyn i'r mesur rheoli gael ei roi ar waith, bydd yr Awdurdod Trwyddedu a/neu'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn cael cyfle i fwrw golwg dros yr Asesiad o Effaith Sŵn, a'i argymhellion, a gwneud sylwadau arnynt.<br><br>3. Os bydd newid sylweddol i'r amgylchedd sain lleol, bydd yr ymgynghorydd acwsteg yn cynnal Asesiad o Effaith Sŵn amgylchynol pellach.<br><br>4. Caniateir Adloniant a Reoleiddir yn unol â'r Asesiad o Effaith Sŵn. Bydd yr holl adloniant yn yr [ardal/ystafell] yn ddarostyngedig i'r Cynllun Rheoli Sŵn y cytunwyd arno, ac yn cael ei ddarparu drwy ddyfais cyfyngu ar sŵn a fydd wedi'i gosod ar lefel y cytunwyd arni gyda'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd. |
| PN18 | **Sŵn (Cyffredinol)** | 1. Bydd Deiliad y Drwydded Safle neu berson enwebedig yn cynnal arsylwadau sŵn rhagweithiol y tu allan i'r Safle o leiaf unwaith yr [awr] tra bydd Adloniant a Reoleiddir yn cael ei ddarparu, ac yn cymryd unrhyw gamau unioni angenrheidiol.<br>2. Bydd llyfr cofnodi sŵn (boed ar ffurf ysgrifenedig neu ar ffurf electronig) o arsylwadau sŵn rhagweithiol yn cael ei gynnal. Bydd y llyfr cofnodi'n cynnwys dyddiad ac amser y sŵn, unrhyw broblemau a ddarganfuwyd, a pha gamau unioni a gymerwyd, lle bo hynny'n berthnasol. Bydd y llyfr cofnodi'n cael ei gyflwyno ar unwaith i'r Heddlu, swyddog(ion) awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu Awdurdodau Cyfrifol fwrw golwg drosto ar y Safle ar gais.<br>3. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n sicrhau na chaiff niwsans ei achosi gan sŵn a gynhyrchir o'r Safle na dirgryniadau a drawsyrrir drwy adeiledd y Safle. Mae hyn yn cynnwys sŵn a gynhyrchir gan unrhyw Adloniant a Reoleiddir ar ffurf cerddoriaeth/sain fyw a/neu recordiedig wedi'i chwyddo, systemau gwresogi a/neu aerdymheru, offer, cyfarpar awyru a/neu oeri mecanyddol, na fyddant yn glywadwy i drigolion a/neu fusnesau lleol. |
| PN19 | **Sŵn (Cynllun Rheoli Sŵn)** | 1. Caiff Cynllun Rheoli Sŵn ei gyflwyno i un o swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu a'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd ei archwilio a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd yn rhaid dilyn y Cynllun Rheoli Sŵn a chydymffurfio'n llawn ag ef. Caiff y mesurau rheoli a ragnodir yn y Cynllun Rheoli Sŵn eu rhoi ar waith ar bob adeg pan fydd y Safle'n gweithredu ac yn darparu Adloniant a Reoleiddir. Bydd y Cynllun Rheoli Sŵn yn gwneud y canlynol:<br>a. Ymdrin â phob gweithgaredd ar y Safle (gan gynnwys defnyddio'r ardal smygu a ffyrdd i mewn ac allan o'r Safle);<br>b. Diffinio'n glir y camau i'w cymryd i gyflawni'r canlynol:<br>i. Lledaenu, cyfrifo, mapio sain a/neu bethau tebyg;<br>ii. Cydymffurfiaeth (e.e. monitro lleoliadau/arsylwadau) â'r lefel sŵn y cytunwyd arni ar gyfer cerddoriaeth<br>o fewn y Safle<br>c. Cynnwys manylion sut mae Deiliad y Drwydded Safle'n bwriadu sicrhau y cydymffurfir ag amodau sŵn yn y Safle;<br>d. Diffinio'n glir y trefniadau monitro sŵn a'r lleoliadau i'w monitro, er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r pedwar Amcan Trwyddedu;<br>e. Ystyried gweithgareddau sensitif eraill y gall y digwyddiad[au] effeithio arnynt;<br>f. Diffinio'n glir y trefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r pedwar Amcan Trwyddedu drwy gydol y digwyddiad[au], a threfniadau rheoli'r sefydliad i sicrhau hynny;<br>g. Disgrifio'r camau unioni lle/os bydd canfyddiad bod cerddoriaeth wedi dianc yn amhriodol;<br>h. Diffinio'n glir y trefniadau ar gyfer derbyn cwynion gan drigolion a busnesau lleol ynglŷn â sŵn a materion eraill sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer y digwyddiad, clirio ar ei ôl, a seilwaith y digwyddiad ei hun, ac ymateb i'r cwynion hynny;<br>i. Caiff y cynllun ei adolygu'n rheolaidd a chaiff unrhyw newidiadau angenrheidiol eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu er mwyn cael cymeradwyaeth ysgrifenedig. |

| | | |
|---|---|---|
| PN20 | **Sŵn**<br>**(Dyfais Cyfyngu ar Sain)** | 1. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n darparu system neu ddyfais a fydd yn rheoli'r lefelau clywadwy uchaf ar gyfer cerddoriaeth/sain a gaiff ei chwarae ar y Safle ar lefel benodedig, a bydd yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol:<br><br>a. Caiff y system neu'r ddyfais ei gosod ar y Safle a'i gosod, o fewn [tri] mis i ddyddiad [rhoi'r/amrywio'r/adolygu'r] Drwydded, ar lefel a gymeradwyir gan un o swyddogion awdurdodedig y Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a chaiff y lefel hon ei haddasu wedi hynny yn unol â'i gyfarwyddyd pan fydd o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er mwyn atal niwsans cyhoeddus;<br><br>b. Caiff yr holl gerddoriaeth/sain a gaiff ei chwarae ar y Safle ei chwarae drwy'r system neu'r ddyfais hon;<br><br>c. Ni chaiff y system neu'r ddyfais ei haddasu/newid/disodli heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan un o swyddogion awdurdodedig y Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd;<br><br>d. Caiff y system neu'r ddyfais ei chynnal a'i chadw mewn cyflwr diogel a gymeradwyir gan un o swyddogion awdurdodedig yr Adran Iechyd yr Amgylchedd, fel na fydd modd ymyrryd â hi'n hawdd;<br><br>e. Caiff y system neu'r ddyfais ei monitro a'i chynnal a'i chadw mewn cyflwr effeithiol fel na fydd lefelau uchaf y gerddoriaeth a gaiff ei chwarae ar y Safle yn uwch na'r lefel a bennwyd. |
| PN21 | **Sŵn**<br>**(Dyfais Cyfyngu ar Sain – Cyfrinair)** | 1. Caiff yr allwedd/cyfrinair ar gyfer y ddyfais cyfyngu ar sain a osodir ar y Safle ei chadw/ei gadw ar y Safle gan drydydd parti a enwebir gan Ddeiliad y Drwydded Safle ac a gymeradwyir gan yr Awdurdod Trwyddedu ac ni chaniateir newid y lefelau penodedig heb gydsyniad y Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd. |
| PN22 | **Sŵn**<br>**(Dyfais Cyfyngu ar Sain – Cynlluniau a Manylebau)** | 1. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n cyflwyno cynlluniau a manylebau manwl ar gyfer y system(au) sain a osodir ac a gaiff ei chynnal a'i chadw/eu cynnal a'u cadw ar y Safle i'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd erbyn [nodwch ddyddiad] i gael cymeradwyaeth ac ni |

| | | |
|---|---|---|
| | | chaniateir ychwanegiadau/newidiadau/amnewidiadau i'r system heb gydsyniad y Gwasanaeth. |
| PN23 | **Hysbysiadau** | 1. Caiff arwyddion clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau amlwg wrth bob allanfa o'r Safle, yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion lleol a gadael y Safle a'r ardal yn dawel. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion.<br><br>2. Caiff arwyddion clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau amlwg yn agos at bob allanfa o'r Safle, yn gofyn i gwsmeriaid adael y Safle yn drefnus. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion. |
| PN24 | **Cyfyngiad ar Luniaeth gyda'r Hwyr** | Darperir Lluniaeth gyda'r Hwyr ar ôl [nodwch amser] o'r gloch o ddydd Iau i ddydd Sadwrn i bersonau sy'n bresennol mewn digwyddiadau a drefnwyd ymlaen llaw neu i berfformwyr, trefnwyr digwyddiadau a gwesteion gwirioneddol y rhagddywededig yn unig. |
| PN25 | **Cyfyngiad ar Drwydded** | 1. Byrddau wedi'u gosod ar gyfer gwasanaeth bwyd fydd ym mhrif ardal ddigwyddiadau'r Safle yn bennaf. Bydd byrddau bob amser wedi'u gosod ar gyfer gwasanaeth bwyd yn yr ardal bwyty a nodir ar gynllun y Safle. |
| PN26 | **Cyfyngiad ar Adloniant a Reoleiddir** | 1. Bydd y cyfyngiadau canlynol yn berthnasol i ardaloedd trwyddedadwy'r Safle:<br><br>a. [Nodwch ardal]: Bydd darpariaeth Adloniant a Reoleiddir wedi'i chyfyngu i gerddoriaeth/sain fyw a/neu recordiedig wedi'i chwyddo sy'n cynnwys dim mwy na [dau] berfformiwr ar unrhyw adeg.<br><br>b. [Nodwch ardal]: Bydd darpariaeth Adloniant a Reoleiddir wedi'i chyfyngu i gerddoriaeth/sain fyw a/neu recordiedig wedi'i chwyddo sy'n cynnwys dim mwy na [phedwar] perfformiwr ar unrhyw adeg a throellwyr disgiau ar gyfer digwyddiadau preifat yn unig. |
| PN27 | **Sbwriel** | 1. Ni chaniateir rhoi sbwriel – megis poteli – mewn cynwysyddion y tu allan i'r Safle rhwng [nodwch amseroedd]. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2. Dim ond rhwng [nodwch amser] a [nodwch amser] a [nodwch amser] a [nodwch amser] y caniateir rhoi sbwriel y tu allan i'r Safle ar y briffordd gyhoeddus i'w gasglu.<br><br>3. Rhaid i sbwriel a gaiff ei adael ar y briffordd gyhoeddus gael ei roi yn union wrth ymyl mynedfa'r Safle ar y stryd.<br><br>4. Rhaid i finiau a sachau sbwriel ddangos enw'r busnes neu'r casglwr gwastraff a rhif ffôn cyswllt.<br><br>5. Caiff sbwriel – megis gwydr a photeli – ei gasglu'n aml er mwyn sicrhau na fydd cynwysyddion gwag a brynwyd o'r Safle yn cronni yn y Safle neu'n agos ato. |
| PN28 | **Cwmnïau Tacsis** | 1. Bydd y Safle'n cynnal trefniant â chwmnïau minicabiau/tacsis gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth yn uniongyrchol i'r Safle. Bydd y Safle'n annog ei gwsmeriaid i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn lle bynnag y bo modd.<br><br>2. Dylid annog cwsmeriaid sy'n aros y tu allan am finicabiau/tacsis i aros y tu mewn i'r Safle a chaiff hysbysiad ei arddangos i ddatgan hynny. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion.<br><br>3. Bydd Deiliad y Drwydded Safle'n rhoi trefniant ar waith gyda chwmni minicabiau/tacsis trwyddedig addas er mwyn darparu gwasanaeth i gwsmeriaid.<br><br>4. Dylid cynghori'r cwsmeriaid sy'n aros am finicabiau/tacsis i aros y tu mewn i'r Safle ac y bydd y gyrwyr minicabiau/tacsis yn galw heibio'r Safle i gasglu teithwyr penodol.<br><br>5. Caiff swyddog tacsis ei gyflogi ar y Safle er mwyn helpu cwsmeriaid i wasgaru ar nosweithiau pan gaiff cwsmeriaid eu derbyn i'r Safle ar ôl [02:00] o'r gloch. |
| PN29 | **Ffenestri a Drysau** | 1. Rhaid cadw pob ffenestr a drws allanol ar gau ar bob adeg pan fydd Adloniant a Reoleiddir yn cael ei ddarparu/ar ôl [nodwch amser]. Caniateir agor y drysau i bobl fynd i mewn ac allan o'r Safle yn arferol ond rhaid eu cau'n syth wedyn.<br><br>2. Bydd yr holl ffenestri a drysau allanol yn aros ar gau ar ôl [21:00] o'r gloch, neu ar unrhyw adeg pan fydd Adloniant a Reoleiddir yn cael ei ddarparu, ac eithrio er |

| | | |
|---|---|---|
| | | mwyn i bersonau fynd i mewn ac allan o'r Safle ar unwaith.<br><br>3. Bydd y ffenestri ar y llawr cyntaf yng nghefn y Safle yn aros ar gau a bydd y drysau ar y llawr cyntaf yng nghefn y Safle a'r drws allanol ar ochr [nodwch ardal] y Safle yn aros ar gau, ac eithrio pan fydd pobl yn mynd i mewn ac allan, pan gaiff y Safle ei ddefnyddio ar gyfer Adloniant a Reoleiddir. |

## Amddiffyn Plant Rhag Niwed

| | | |
|---|---|---|
| CH1 | **Mynediad i Blant i Safle Trwyddedig (Cyffredinol)** | 1. Ni chaniateir i blant o dan 18 oed gael mynediad i'r [Safle/ardal adloniant] pan fydd y Safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer [nodwch weithgaredd trwyddedadwy] / ar unrhyw adeg.<br><br>2. Ni chaniateir i bersonau o dan [18] oed fod ar y Safle tra bydd ar agor ar gyfer busnes.<br><br>3. Ni chaniateir i blant o dan 16 oed nad oes oedolyn gyda nhw gael mynediad ar ôl [23:00] o'r gloch pan fydd y Safle'n gweini alcohol i'w yfed ar y Safle.<br><br>4. Cyfyngir ar fynediad plant o dan 18 oed rhwng [nodwch amseroedd].<br><br>5. Ni chaniateir i bersonau o dan 18 oed gael mynediad i'r Safle oni fydd oedolyn cyfrifol gyda nhw ar ôl hanner nos [00:00 o'r gloch].<br><br>6. Ni chaniateir i blant o dan 16/18 oed gael mynediad i'r Safle ar ôl [nodwch] o'r gloch.<br><br>7. Ni chaniateir i blant (o dan 18 oed) nad oes oedolyn gyda nhw gael mynediad i'r Safle ar unrhyw adeg.<br><br>8. Rhoddir gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu o leiaf 28 diwrnod cyn unrhyw ddigwyddiad y caniateir i blant o dan 18 oed fynd iddo. Os caniateir mynediad i bersonau o dan 18 oed ar ôl [21:00] o'r gloch, rhoddir 14 diwrnod o rybudd ynghylch y digwyddiad arfaethedig i'r Heddlu a'r Awdurdod Trwyddedu. Ceidw'r Heddlu hawl i roi feto ar y digwyddiad. |
| CH2 | **Adloniant i Blant** | 1. Ni chaniateir i adloniant a gyflwynir yn arbennig i blant gael ei ddarparu i blant heb gydsyniad ysgrifenedig yr Awdurdod Trwyddedu. Rhoddir o leiaf 14 diwrnod o rybudd i'r Awdurdod Trwyddedu |

| | | |
|---|---|---|
| | | ynghylch unrhyw fwriad i ddarparu adloniant o'r fath mewn Safle na chaiff ei ddefnyddio ar gyfer adloniant plant fel arfer. |
| CH3 | **Hysbysiadau (Gwerthiannau/Mynediad i Blant)** | 1. Caiff hysbysiadau clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau strategol ac amlwg ar y Safle, yn nodi'r cyfyngiadau ar werthiannau i blant. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion.<br><br>2. Caiff hysbysiadau clir a darllenadwy eu harddangos mewn mannau strategol ac amlwg ar y Safle neu'n union y tu allan iddo, yn nodi'r cyfyngiadau ar ganiatáu mynediad i blant. Dylid sicrhau bob amser nad oes dim byd yn cuddio'r arwyddion. |
| CH4 | **Gwaharddiad ar Ddefnydd (Natur Rywiol)** | 1. Ni chaniateir yr adloniant canlynol:<br><br>a. Unrhyw berfformiad byw neu arddangosiad byw sy'n cynnwys noethni ac sydd o natur sy'n golygu ei bod yn rhaid ei bod yn rhesymol tybio ei fod yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu gan mwyaf at ddibenion cyffroi unrhyw aelod o'r gynulleidfa yn rhywiol (boed yn eiriol neu drwy ddulliau eraill);<br><br>b. Dim adloniant oedolion.<br><br>2. Ni chaniateir unrhyw berfformiad, gwasanaeth neu arddangosfa adloniant sy'n cynnwys noethni neu gyffroi rhywiol a fyddai'n cyd-fynd â'r diffiniad o sefydliad rhyw yn Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 fel y'i diwygiwyd.<br><br>NODER: Nid yw'r amod hwn yn berthnasol i adloniant sy'n rhan annatod o berfformiad trwyddedig o ddrama. |
| CH5 | **Digwyddiadau i Bobl Ifanc dan Oed** | 1. Os cynhelir digwyddiad[au] a hyrwyddir a/neu a farchnetir yn allanol ar y Safle sy'n cynnwys personau o dan 18 oed, ni chaniateir cyflenwi nac yfed alcohol yn y Safle;<br><br>2. Os cynhelir digwyddiad[au] a hyrwyddir a/neu a farchnetir yn allanol ar y Safle sy'n cynnwys personau o dan 18 oed, bydd o leiaf ddau oruchwyliwr drysau sydd wedi'u cofrestru ag SIA ar ddyletswydd o [30] munud cyn yr amser dechrau a hysbysebwyd ar gyfer y digwyddiad tan [30 munud] ar ôl yr amser gorffen a hysbysebwyd ar gyfer y digwyddiad. |

# A.177A o Ddeddf Trwyddedu 2003 / Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012

| | | |
|---|---|---|
| LA1 | **Adran 177A, Deddf Trwyddedu 2003** | 1. Nid ystyrir bod darparu adloniant sy'n cynnwys perfformio cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth recordiedig yn gyfystyr â darparu Adloniant a Reoleiddir ar yr amodau canlynol:<br><br>a. Bod y gerddoriaeth yn digwydd ar Safle sydd wedi'i awdurdodi gan Drwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb i gael ei ddefnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed ar y Safle;<br><br>b. Ar adeg y gerddoriaeth, bod y Safle ar agor at ddibenion cael ei ddefnyddio i gyflenwi alcohol i'w yfed ar y Safle;<br><br>c. Os caiff y gerddoriaeth ei chwyddo, ei bod yn digwydd o flaen cynulleidfa o ddim mwy na 500 o gwsmeriaid;<br><br>d. Bod y gerddoriaeth yn digwydd rhwng [08:00] o'r gloch a [23:00] o'r gloch ar yr un diwrnod.<br><br>Ni fydd yr un o amodau'r Drwydded Safle neu'r Dystysgrif Safle Clwb a nodir isod sy'n ymwneud â cherddoriaeth fyw, cerddoriaeth recordiedig neu'r naill a'r llall yn cael effaith mewn perthynas â'r gerddoriaeth. |
| LA2 | **Adran 177A, Deddf Trwyddedu 2003** | 1. Ni fydd effaith y dadreoleiddio a ddarperir gan adran 177A o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn berthnasol i'r Safle hwn. Bydd yr holl amodau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth fyw a cherddoriaeth recordiedig yn berthnasol ar bob adeg pan fydd y Safle ar agor i'r cyhoedd.<br><br>2. Yn rhinwedd a.177A o Ddeddf Trwyddedu 2003, bydd amodau'r Drwydded Safle sy'n ymwneud ag Adloniant a Reoleiddir mewn grym rhwng [08:00] o'r gloch a [23:00] o'r gloch. |

# Atodiad 3 – Trefn y Trafodion

**CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol**

**Trefn y Trafodion – Gwrandawiadau**

Mae Trefn y Trafodion a nodir isod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r canlynol: Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005; Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Trafodion Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau Trwyddedu) (Trwyddedau Mangreoedd a Datganiadau Dros Dro) (Cymru a Lloegr) 2007; Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020; Deddf Trwyddedu 2003; a Deddf Gamblo 2005.

1. **Eitemau Rhagarweiniol**

   Ar ddechrau'r gwrandawiad, caiff y Cadeirydd ei ethol drwy fwyafrif syml o'r Aelodau sy'n bresennol.

2. **Cyflwyniadau**

   Bydd y Cadeirydd yn gwneud y canlynol:

   a. Cyflwyno ei hun cyn cadarnhau'r cyfarfod, y dyddiad, yr amser a'r materion i'w hystyried;

   b. Rhoi gwybod i'r partïon y bydd y gwrandawiad yn cael ei weddarlledu ar y pryd;

   c. Gofyn i bawb sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad ddiffodd eu microffonau tra bydd rhywun arall yn siarad, a dim ond troi eu microffonau ymlaen pan fydd angen iddynt siarad neu pan fyddant yn dymuno siarad (*Yn berthnasol i bobl sy'n bresennol o bell neu i wrandawiadau hybrid yn unig*);

   d. Atgoffa pawb sy'n bresennol, os byddant yn dymuno siarad yn ystod y gwrandawiad, y dylent wneud hynny ar ôl defnyddio'r cyfleuster codi llaw, ac ar ôl cael eu gwahodd i siarad gan y

Cadeirydd (*Yn berthnasol i bobl sy'n bresennol o bell neu i wrandawiadau hybrid yn unig*).

Bydd hyn yn helpu i atal cyfranogwyr rhag siarad ar draws ei gilydd, ac yn sicrhau y bydd pawb yn gallu clywed y siaradwr “byw”. Os na fydd y cyfleuster codi llaw ar gael i gyfranogwr, bydd yn gallu defnyddio'r cyfleuster “sgwrsio” yn lle hynny, a bydd yn gallu siarad ar ôl i'r Cadeirydd ei wahodd i siarad.

**3. Galw Cofrestr**

Yn seiliedig ar y rhestr a fydd wedi cael ei pharatoi gan y Gwasanaethau Democrataidd, bydd y Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd i alw cofrestr yn nhrefn yr wyddor o'r rhai sy'n bresennol, yn y drefn ganlynol:

a. Yr Is-bwyllgor;

b. Aelod(au) Eraill;

c. Swyddog(ion) y Cyngor;

d. Y Ceisydd(ion);

e. Yr holl Awdurdodau Cyfrifol;

f. Unrhyw Berson(au) â Diddordeb.

Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn gofyn i bawb sy'n bresennol gadarnhau eu bod yn gallu clywed y gwrandawiad a chymryd rhan ynddo.

**4. Datganiadau o Fuddiant**

Bydd y Cadeirydd yn delio ag unrhyw ddatganiadau o fuddiant. Bydd yr Aelodau, yn nhrefn yr wyddor, yn nodi ar lafar a oes ganddynt unrhyw fuddiannau i'w datgan.

Dylai'r Aelodau sicrhau eu bod yn cael cyngor ar unrhyw bosibilrwydd o fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Mr Craig Griffiths) neu'r Prif Gyfreithiwr – Ymgyfreitha (Mr Michael Shaw), cyn y gwrandawiad.

5. **Cworwm a Rheolau Gweithdrefnau**

Wedyn, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau bod cworwm ac felly y gall y gwrandawiad fynd rhagddo.

Bydd y Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau hynny sy'n bresennol am y Rheolau Gweithdrefnau, a'r canllawiau a roddwyd i Aelodau ar fod yn bresennol o bell (*os bydd hynny'n berthnasol*), ac yn gofyn i bawb weithio yn unol â nhw.

6. **Dogfennaeth**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau bod gan bob un o'r Aelodau a'r cyfranogwyr set lawn o bapurau. Wedyn, bydd y Cadeirydd yn gwahodd y partïon i wneud sylwadau ynghylch cynnwys dogfennaeth ychwanegol, os bydd angen.

Caiff unrhyw ddogfennaeth ychwanegol y bydd *pob* parti'n cytuno arni ei dosbarthu a rhoddir digon o amser i'r rhai sy'n bresennol ystyried ei chynnwys. Os cyflwynir dogfennaeth ychwanegol helaeth, gall yr Is-bwyllgor ohirio'r gwrandawiad os bydd o'r farn y byddai hynny'n gofalu am egwyddorion cyfiawnder naturiol, a budd y cyhoedd, yn well.

Bydd yr Is-bwyllgor yn ystyried unrhyw geisiadau i dystiolaeth ddogfennol ychwanegol, neu wybodaeth arall, gael ei chyflwyno gan unrhyw barti.

7. **Adroddiad gan Reolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio Cyfreithiol**

Bydd y Rheolwr Rheoleiddio Cyfreithiol, neu unrhyw Swyddog Rheoleiddio Cyfreithiol nad yw wedi'i ddynodi'n Awdurdod Cyfrifol, yn gwneud y canlynol:

a. Cyflwyno'r adroddiad;

b. Amlinellu natur y cais;

c. Mynd i'r afael â'r wybodaeth gefndir;

d. Rhoi unrhyw ddiweddariad(au).

8. **Cwestiynau i Reolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio Cyfreithiol**

Gellir gofyn cwestiynau i'r Rheolwr Rheoleiddio Cyfreithiol – neu unrhyw Swyddog Rheoleiddio Cyfreithiol nad yw wedi'i ddynodi'n Awdurdod Cyfrifol – yn y drefn ganlynol:

a. Y Ceisydd(ion)/cynrychiolydd;

b. Yr holl Awdurdodau Cyfrifol (*os byddant yn bresennol*). Mae hyn yn cynnwys: Heddlu De Cymru, Adran Iechyd yr Amgylchedd ac ati. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd gan bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol hawl i ofyn cwestiynau.

c. Aelod o'r Ward (*os bydd yn bresennol*);

d. Unrhyw Berson(au) â Diddordeb;

e. Yr Is-bwyllgor;

f. Y Gwasanaethau Cyfreithiol.

9. **Cyflwyniadau gan y Ceisydd(ion)**

Gwahoddir y Ceisydd(ion)/cynrychiolydd i annerch yr Is-bwyllgor.

10. **Cyflwyniadau gan dystion y Ceisydd(ion) (*os byddant yn bresennol*)**

Gwahoddir pob un o dystion y Ceisydd(ion) i annerch yr Is-bwyllgor, os bydd yr Is-bwyllgor wedi caniatáu hynny.

11. **Cyflwyniadau gan yr Awdurdodau Cyfrifol (*os byddant yn bresennol)***

Gwahoddir pob Awdurdod Cyfrifol i annerch yr Is-bwyllgor.

12. **Cyflwyniadau gan yr Aelod o'r Ward (*os bydd yn bresennol*)**

Gwahoddir yr Aelod o'r Ward i annerch yr Is-bwyllgor.

13. **Cyflwyniadau gan Berson(au) â Diddordeb (*os bydd(ant) yn bresennol*)**

Gwahoddir pob Person â Diddordeb i annerch yr Is-bwyllgor.

Os bydd grŵp mawr o gefnogwyr neu wrthwynebwyr i'r cais, dylid annog y grŵp/grwpiau i benodi un llefarydd er mwyn arbed amser ac osgoi dyblygu.

**14.Cwestiynau i'r Partïon**

Bydd pob parti'n cael cyfle i ofyn cwestiynau i unrhyw barti arall, gan gynnwys unrhyw dyst(ion). Gweler isod ym mha drefn y gall y partïon ofyn cwestiynau. Pan fydd un parti wedi gorffen gofyn ei gwestiynau i'r *holl* bartïon, tro'r parti nesaf fydd hi i ofyn cwestiynau wedyn. Dyma'r drefn:

a. Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio Cyfreithiol;

b. Y Ceisydd(ion)/cynrychiolydd;

c. Yr holl Awdurdodau Cyfrifol (*os byddant yn bresennol*). *Pan fydd un Awdurdod Cyfrifol wedi gofyn ei gwestiynau, tro'r Awdurdod Cyfrifol nesaf fydd hi i ofyn cwestiynau. Caiff y broses hon ei hailadrodd nes y bydd pob Awdurdod Cyfrifol wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau;*

d. Aelod o'r Ward (os bydd yn bresennol);

e. Unrhyw Berson(au) â Diddordeb. Pan fydd un Person â Diddordeb wedi gofyn ei gwestiynau, tro'r Person â Diddordeb nesaf (os bydd un yn bresennol) fydd hi i ofyn cwestiynau. Caiff y broses hon ei hailadrodd nes y bydd pob Person â Diddordeb wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau;

f. Yr Is-bwyllgor;

g. Y Gwasanaethau Cyfreithiol;

h. Cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau pellach.

**15.Cyflwyniad(au) Ychwanegol**

Mae'r Aelodau'n cydnabod ei bod yn bosibl y bydd unrhyw barti am wneud cyflwyniadau ychwanegol ar ôl i gwestiynau gael eu gofyn neu eu hateb. Felly, bydd yr Aelodau'n cynnig cyfle i wneud cyflwyniadau pellach. Gellir gwneud unrhyw gyflwyniadau yn y drefn ganlynol:

a. Y Ceisydd(ion)/cynrychiolydd;

b. Unrhyw Awdurdodau Cyfrifol eraill (*os byddant yn bresennol*);

c. Aelod o'r Ward (os bydd yn bresennol);

d. Unrhyw Berson(au) arall/eraill â Diddordeb.

**16. Datganiadau i Gloi**

Wedyn, bydd y Cadeirydd yn gwahodd pob parti i wneud datganiadau i gloi. Bydd y datganiadau i gloi yn y drefn ganlynol:

a. Yr holl Awdurdodau Cyfrifol (*os byddant yn bresennol*) (*oni bai mai Awdurdod Cyfrifol yw'r Ceisydd*);

b. Aelod o'r Ward (*os bydd yn bresennol*);

c. Unrhyw Berson(au) â Diddordeb;

d. Y Ceisydd(ion)/cynrychiolydd.

Er eglurder, ni chaniateir i'r un parti gyflwyno gwybodaeth newydd. Ni chaniateir gofyn cwestiynau pellach. Cyfle i bob parti roi crynodeb fydd hyn.

**17. Ymneilltuo i Drafod**

Bydd y Cadeirydd yn gwneud y canlynol:

a. Cadarnhau bod yr Is-bwyllgor wedi darllen yr eitem sy'n cael ei hystyried, ac wedi clywed yr holl gyflwyniadau;

b. Gofyn i'r partïon a ydynt yn fodlon eu bod wedi cael gwrandawiad teg, ac yna ddod â'r trafodion i ben;

c. Rhoi gwybod i'r partïon y bydd angen iddynt adael y gwrandawiad, ac y cânt wybod penderfyniad yr Is-bwyllgor cyn gynted â phosibl;

d. Gwahodd yr Aelodau i basio penderfyniad i beidio â chynnwys y wasg na'r cyhoedd (gan gynnwys yr holl bartïon a'u cynrychiolwyr) yn unol â'r canlynol:

   i. Rheoliad 14 (2) o Reoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005; neu

   ii. Reoliad 8 (2) o Reoliadau Deddf Gamblo 8 (Trafodion Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau Trwyddedu) (Trwyddedau

Mangreoedd a Datganiadau Dros Dro) (Cymru a Lloegr) 2007

e. Gofyn i bawb ond Aelodau'r Is-bwyllgor adael y gwrandawiad er mwyn iddynt drafod. I gynorthwyo'r Aelodau, bydd gan y Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd hawl i aros gyda'r Is-bwyllgor;

f. Cadarnhau y bydd yr offer recordio a gweddarlledu'n cael eu diffodd.

**18.Trafodaethau (sesiwn breifat)**

Bydd y Cadeirydd yn gwneud y canlynol:

a. Agor y drafodaeth, a cheisio barn yr Aelodau ar y cais, a'r holl faterion y byddant wedi gwrando arnynt;

b. Cynnig cynnal pleidlais ar y mater, pan fydd trafodaeth lawn a gonest wedi cael ei chynnal;

c. Gofyn am gynigydd ac eilydd i'r argymhelliad;

d. Gofyn i'r cynigydd a'r eilydd ddatgan mai nhw yw'r cynigydd a'r eilydd. Os bydd unrhyw anghytuno, penderfynir ar unrhyw fater drwy fwyafrif syml o'r pleidleisiau a gaiff eu bwrw;

e. Gofyn i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd gadarnhau canlyniad y bleidlais;

f. Gofyn i'r Aelodau beth yw'r rhesymau dros eu penderfyniad. Cytunir ar y canfyddiadau ffeithiol sylweddol ac unrhyw amodau (os bydd angen) a chânt eu cofnodi'n ysgrifenedig.

**19.Penderfyniad**

Bydd yr Is-bwyllgor yn penderfynu a all y gwrandawiad ailddechrau ar ffurf gwrandawiad cyhoeddus. Os bydd y gwrandawiad yn ailddechrau ar ffurf gwrandawiad cyhoeddus, bydd y Cadeirydd yn gwneud y canlynol:

a. Cyhoeddi'r penderfyniad;

b. Rhoi rhesymau dros y penderfyniad;

c. Nodi'r amodau trwydded a gaiff eu gosod (*os bydd hynny'n berthnasol*).

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n hysbysu'r partïon yn ysgrifenedig ynghylch penderfyniad yr Is-bwyllgor, a'u hawliau apelio.

Bydd y Cadeirydd yn symud ymlaen i'r eitem nesaf.

Pan fydd yr holl faterion wedi cael eu hystyried, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau bod y gwrandawiad wedi dod i ben.

# Atodiad 4 – Dolenni i Bolisïau Corfforaethol

1. Strategaeth Gorfforaethol Castell-nedd Port Talbot

https://www.npt.gov.uk/cy/cyngor/strategaethau-a-pholisiau/blaenoriaethau-a-pherfformiad/strategaeth-gorfforaethol-2025-2028/

2. Strategaeth Ddigwyddiadau Castell-nedd Port Talbot

https://media.npt.gov.uk/media/xc5n3oyu/ref26310-npt-event-strategy-2024-2035-digital-stp.pdf

3. Cynllun Rheoli Cyrchfan Castell-nedd Port Talbot

https://www.npt.gov.uk/cy/cyngor/strategaethau-a-pholisiau/pobl-a-lleoedd/

4. Strategaeth Ddiwylliant Castell-nedd Port Talbot

https://www.npt.gov.uk/cy/cyngor/strategaethau-a-pholisiau/pobl-a-lleoedd/

5. Cynllun Cydraddoldeb Strategol Castell-nedd Port Talbot

https://www.npt.gov.uk/cy/cyngor/strategaethau-a-pholisiau/cydraddoldeb/cynllun-cydraddoldeb-strategol/

# Atodiad 5 – Gweithdrefn Dosbarthu Ffilmiau

# GWEITHDREFNAU AWDURDODI FFILMIAU

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Y Cyngor, yn rhinwedd ei rôl fel yr Awdurdod Trwyddedu, yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am awdurdodi arddangosiadau ffilmiau cyhoeddus. Mae Adran 20 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (y Ddeddf) yn darparu, lle y bydd Trwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb yn awdurdodi arddangosiad(au) ffilm(iau), ei bod yn rhaid i'r drwydded gynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfyngu ar fynediad plant i ffilmiau yn unol ag argymhellion a roddir gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) neu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun. Felly, rhaid cyfyngu ar fynediad plant i weithgareddau lle y dangosir unrhyw ffilm(iau) yn unol â'r canlynol:

- NAILL AI dosbarthiad y BBFC;
- NEU, os nad yw'r ffilm wedi'i dosbarthu gan y BBFC, unrhyw argymhellion a wneir gan yr Awdurdod Trwyddedu.

1.2 Os bydd safle'n dymuno neu'n bwriadu dangos ffilm(iau), rhaid bod gan y lleoliad hwnnw Drwydded Safle, Tystysgrif Safle Clwb, Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro neu esemptiad o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr Awdurdod Trwyddedu.

1.3 Diffinnir plant fel unrhyw unigolion o dan 18 oed.

1.4 O dan Ddeddf Trwyddedu 2003, diffinnir dangosiad ffilm fel gweithgaredd lle y caiff darluniau byw eu dangos.

1.5 I grynhoi, rhaid i bob dangosiad ffilm cyhoeddus ar safle trwyddedig fod naill ai wedi'i ddosbarthu gan y BBFC neu wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu yn unol â phwerau Deddf Trwyddedu 2003.

1.6 Wrth awdurdodi ffilm(iau), bydd yn rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (y Canllawiau Cenedlaethol) bob amser.

1.7 Mae'n bosibl y gofynnir i'r Awdurdod Trwyddedu awdurdodi ffilm sydd eisoes wedi cael ei dosbarthu gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) dan ddau amgylchiad gwahanol:

a) gall dosbarthwr ffilm apelio yn erbyn penderfyniad y BBFC a gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu ailddosbarthu/awdurdodi'r ffilm ar gyfer dangosiad lleol (gydag argymhellion ynghylch cyfyngiadau oed);
b) gall parti annibynnol ofyn i'r Awdurdod Trwyddedu ailddosbarthu/awdurdodi'r ffilm ar gyfer dangosiad lleol (gydag argymhellion ynghylch cyfyngiadau oed).

1.8 Hefyd, mae'n bosibl y gofynnir i'r Awdurdod Trwyddedu awdurdodi dangosiad ar gyfer ffilm(iau) sydd heb ei/eu dosbarthu. Bydd hyn fel arfer yn digwydd yn yr achosion canlynol:

- Gŵyl ffilmiau dros gyfnod penodol
- Dangosiad untro o ffilm
- Rhaghysbyseb ar gyfer ffilm

1.9 Yn unol â pharagraff 10.31 y Canllawiau Cenedlaethol, amddiffyn plant rhag niwed fydd prif flaenoriaeth yr Awdurdod Trwyddedu. Ni fydd yn defnyddio ei bwerau i sensora ffilmiau oni fydd rheswm clir dros gredu bod hynny'n ofynnol er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

1.10 O dan Ddeddf Trwyddedu 2003, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu gyflawni ei swyddogaethau gyda'r bwriad o hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. O ran dangosiadau a gwyliau ffilmiau, yr Amcan Trwyddedu mwyaf perthnasol yw Amddiffyn Plant Rhag Niwed.

## 2. EGWYDDORION WRTH BENDERFYNU AR GEISIADAU

2.1 Bydd y BBFC yn dosbarthu ffilmiau yn unol â'i ganllawiau cyhoeddedig, sy'n seiliedig ar waith ymchwil helaeth i farn y cyhoedd a chyngor proffesiynol. Mae'r Canllawiau Cenedlaethol o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn argymell y canlynol:

"Licensing Authorities should not duplicate the BBFC's work by choosing to classify films themselves. The classifications recommended by the BBFC should be those normally applied unless there are very good local reasons for a Licensing Authority to adopt this role. Licensing Authorities should note that the provisions of the 2003 Act enable them to specify the Board in the licence or certificate and, in relation to individual films, to notify the holder or club that it will make a recommendation for that particular film"

2.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried bod y system ddosbarthu a ddefnyddir gan y BBFC yn cael ei deall a'i derbyn yn genedlaethol. Felly, bydd yn defnyddio'r system hon, ac unrhyw ddiwygiadau a wneir iddi, fel pwynt cyfeirio ar gyfer penderfynu ar ei argymhelliad/argymhellion ynghylch cyfyngu ar fynediad plant i'r ffilm(iau). Fodd bynnag, dylid nodi na fydd yn rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ddilyn y canllawiau hyn.

2.3 Os bydd safle trwyddedig yn awyddus i ddangos ffilm nad yw wedi cael ei dosbarthu gan y BBFC, yna cyfrifoldeb yr Awdurdod Trwyddedu fydd awdurdodi'r ffilm honno. Felly, dilynir y gweithdrefnau a amlinellir yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

2.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod yr egwyddor yn Neddf Hawliau Dynol 1998 y dylai oedolion fod yn rhydd i ddewis eu hadloniant eu hunain. Ni ddylai deunydd dorri cyfraith trosedd, gan gynnwys deunydd

y tybir ei fod yn anllad o dan y dehongliad cyfredol o Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 neu ddeunydd a grëwyd drwy gyflawni trosedd.

2.5 Bydd yn rhaid i geisyddion sicrhau bod yr holl ddeunydd y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn cydymffurfio â'r dehongliad cyfredol o Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad 1959, Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall, ac nad yw wedi cael ei greu drwy gyflawni trosedd.

2.6 Dim ond pan ddangosir y ffilm(iau) o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a phan na fydd hynny'n effeithio ar yr awdurdodiad na'r argymhellion mewn unrhyw fwrdeistref arall y bydd unrhyw awdurdodiad i ddangos ffilm(iau) gan yr Awdurdod Trwyddedu yn berthnasol.

2.7 Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu wedi awdurdodi ffilm, bydd wedi'i hawdurdodi ar gyfer dangosiad penodol neu ŵyl benodol yn unig, yn amodol ar yr argymhellion a wneir gan yr Awdurdod Trwyddedu (oni wneir cais pellach i ailddosbarthu'r ffilm). Bydd manylion yr awdurdodiad, gan gynnwys unrhyw argymhellion, ar gael gan yr Adran Drwyddedu ac wedi'u rhestru ar wefan y Cyngor.

2.8 Bydd unrhyw awdurdodiad a roddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi'i gyfyngu'n gyfan gwbl i'r awdurdodiad o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a thybir y bydd yr holl gydsyniadau a thrwyddedau trydydd parti perthnasol mewn perthynas ag unrhyw a phob hawlfraint, gwybodaeth gyfrinachol a hawl eiddo deallusol arall wedi'u sicrhau.

2.9 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried pob awdurdodiad yn ôl ei rinwedd ei hun ac mae'n bosibl y bydd yn gwneud argymhellion ychwanegol a mwy penodol os bydd yn tybio eu bod yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r Amcan Trwyddedu Amddiffyn Plant Rhag Niwed. Mae argymhellion enghreifftiol i'w cynnwys i'w gweld yn Atodiad 1.

2.10 Os bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n awdurdodi dangos deunydd heb ei ddosbarthu, bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu gael ymrwymiad gan y ceisydd na fydd dim o'r deunydd a gaiff ei ddangos yn groes i'r dehongliad cyfredol o Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad 1959, Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 nac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall, ac nad yw wedi cael ei greu drwy gyflawni trosedd. Hefyd, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n atebol am unrhyw ddeunydd sydd wedi cael ei greu drwy gyflawni trosedd. Cyfrifoldeb y ceisydd fydd sicrhau na fydd yr un ffilm na rhaghysbyseb yn torri'r gyfraith.

2.11 Os bydd yr Awdurdod Trwyddedu wedi penderfynu gwrthod awdurdodi ffilm(iau), rhoddir rhesymau clir a chryno.

## 3. GWEITHDREFN AR GYFER CEISIADAU I AWDURDODI AILDDOSBARTHU ER MWYN CYMERADWYO FFILMIAU SYDD EISOES WEDI'U DOSBARTHU GAN Y BBFC

3.1 Caiff ceisiadau i awdurdodi ffilmiau sydd eisoes wedi'u dosbarthu gan y BBFC eu hatgyfeirio at yr Is-bwyllgor Trwyddedu a fydd yn penderfynu arnynt ar ran yr Awdurdod Trwyddedu. Bydd yr Is-bwyllgor hwn yn cynnwys tri Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu. Dylai ceisiadau gael eu cyflwyno ar ffurflen gais yr Awdurdod Trwyddedu, sydd ar gael gan yr Adran Drwyddedu, Canolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ.

3.2 Yn unol ag Atodiad D Rhan 5 o'r Canllawiau Cenedlaethol, dylid cyflwyno copi o'r ffilm(iau) mewn fformat DVD (neu fformat digidol arall y cytunir arno) gyda phob cais, lle bo modd, er mwyn osgoi oedi, a hynny ar draul y ceisydd. Os na fydd hyn yn bosibl, gwneir trefniadau i'r ffilm gael ei gwylio mewn lleoliad addas. Bydd hyn yn rhoi amser i'r Is-bwyllgor Trwyddedu wylio ac awdurdodi'r ffilm(iau) er mwyn i ddeiliad y drwydded allu glynu wrth unrhyw argymhellion ynghylch cyfyngiadau oed a wneir gan yr Awdurdod Trwyddedu. Beth bynnag a fo, dylid cyflwyno pob cais ar ffurflen gais yr Awdurdod Trwyddedu o leiaf 28 diwrnod cyn y dangosiad arfaethedig.

3.3 Os bydd unigolyn neu sefydliad nad yw'n gysylltiedig â'r ffilm(iau) yn gofyn am ailddosbarthu ffilm(iau) sydd wedi cael ei/eu dosbarthu gan y BBFC, ni fydd disgwyl iddo gyflwyno copi o'r ffilm(iau). Wedyn, bydd yr

Awdurdod Trwyddedu'n gwneud trefniadau addas i wylio'r ffilm. Hefyd, dan yr amgylchiadau hyn, derbynnir ei bod yn bosibl na fydd modd rhoi **28 diwrnod** o rybudd cyn y dangosiad arfaethedig.

3.4 Rhaid i bob cais gael ei gyflwyno ynghyd â rhesymau manwl drosto. Ymdrinnir â cheisiadau mor gyflym â phosibl, oherwydd gwerthfawrogir mai dim ond am gyfnod cymharol fyr y caiff ffilmiau eu dangos mewn sinemâu yn gyffredinol.

3.5 Ar ôl hynny, bydd yr Is-bwyllgor yn gwylio'r ffilm gyfan ac yn ei hasesu yn erbyn canllawiau'r BBFC a'r Canllawiau Cenedlaethol. Bydd yr Is-bwyllgor yn rhoi Hysbysiad o Benderfyniad ynghylch yr awdurdodiad o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad gwylio. Wedyn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi gwybod yn ffurfiol i'r ceisydd am unrhyw argymhelliad/argymhellion sy'n cyfyngu ar fynediad plant i'r ffilm(iau).

3.6 Rhaid i geisiadau fod yn berthnasol i'r Amcan Trwyddedu Amddiffyn Plant Rhag Niwed ac ni chânt fod yn wamal, yn flinderus, nac yn ailadroddus. Hefyd, gall ceisiadau fod yn berthnasol i'r Amcan Trwyddedu Atal Troseddu ac Anhrefn, ond dim ond mewn perthynas â mynd yn groes i'r dehongliad cyfredol o Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

3.7 Yn unol ag Atodiad D Rhan 5 o'r Canllawiau Cenedlaethol, os bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n argymell bod ffilm(iau) yn perthyn i gategori cyfyngiad oed, ni chaniateir mynediad i'r un person o dan yr oedran penodedig. Os bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n argymell bod ffilm(iau) yn perthyn i gategori sy'n ei gwneud yn ofynnol i oedolyn fod yn bresennol gydag unrhyw bersonau o dan oedran penodedig, ni chaniateir mynediad i'r un person o dan yr oedran penodedig sy'n bresennol heb oedolyn.

3.8 Dan yr amgylchiadau hyn, bydd yn ofynnol i ddeiliad y drwydded arddangos hysbysiad mewn man amlwg sy'n nodi'r gofynion a'r cyfyngiadau oed perthnasol yn glir. O ran geiriad hysbysiadau o'r fath, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi sylw i'r Canllawiau Cenedlaethol, e.e:

“NI CHANIATEIR MYNEDIAD I BERSONAU O DAN [*NODWCH OEDRAN PRIODOL*] OED I'R UN RHAN O'R RHAGLEN”

Neu

“DIM OND OS BYDD YN BRESENNOL GYDAG OEDOLYN Y CANIATEIR I UNRHYW BERSON O DAN [*NODWCH OEDRAN PRIODOL*] OED GAEL MYNEDIAD I'R RHAGLEN”

## 4. GWEITHDREFN AR GYFER AWDURDODI FFILMIAU NAD YDYNT WEDI CAEL EU DOSBARTHU GAN Y BBFC NEU GYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

4.1 Caiff ceisiadau i awdurdodi eu hystyried gan swyddogion yn unol â phwerau dirprwyedig yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, gall unrhyw gais i awdurdodi ffilm sydd heb ei dosbarthu gael ei atgyfeirio gan y Swyddog Trwyddedu neu yn ôl ei ddisgresiwn at yr Is-bwyllgor Trwyddedu er mwyn iddo benderfynu arno.

4.2 Dylid cyflwyno ceisiadau ar ffurflen gais yr Awdurdod Trwyddedu o leiaf **28 diwrnod** cyn y dangosiad arfaethedig. Os rhoddir llai na 28 diwrnod o rybudd, ni chaiff yr un cais i adolygu penderfyniad swyddog ynghylch y cais ei ystyried. Gellir cael ffurflenni cais gan yr Adran Drwyddedu, Canolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ.

4.3 Dylai cais i awdurdodi gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- gwneuthurwr y ffilm;
- unrhyw argymhelliad a wnaed gan wneuthurwr y ffilm ynghylch terfyn oedran ar gyfer y gynulleidfa y bwriedir dangos y ffilm iddi;
- unrhyw ddosbarthiad sydd eisoes wedi'i roi gan gorff dosbarthu sydd eisoes yn bodoli, boed yn y DU neu'r tu allan iddi;
- crynodeb o'r deunydd yn y ffilm y mae'r arddangoswr yn credu ei fod yn debygol o gael dylanwad ar y terfyn oedran ar gyfer y gynulleidfa y

caiff y ffilm ei dangos iddi. Os bydd ceisydd yn ceisio awdurdodiad ar gyfer dangos y ffilm i bersonau o dan 18 oed a throsodd yn unig, ni fydd angen crynodeb manwl;

- gwefan ddilys a chyfreithlon lle mae'r ffilm, neu ran o'r ffilm, ar gael i'w gwylio am ddim, os yw hynny'n hysbys;
- unrhyw gynigion ynghylch cyfyngiadau oed ar gyfer y ffilm y mae'r ceisydd yn bwriadu eu rhoi ar waith;
- manylion y ffordd y caiff cyfyngiadau oed eu gorfodi.

4.4 Os bydd swyddogion, yn ôl eu disgresiwn, yn penderfynu ei bod yn bosibl llunio argymhellion i ddeiliad y drwydded mewn perthynas â dangos y ffilm yn seiliedig ar y wybodaeth hon, mae'n bosibl y caiff argymhellion eu gwneud ar y sail hon yn unig.

4.5 Fodd bynnag, yn unol ag Atodiad D Rhan 5 o'r Canllawiau Cenedlaethol, gall y Swyddog Trwyddedu, yn ôl ei ddisgresiwn, benderfynu gofyn am gopi o'r ffilm(iau) mewn fformat DVD (neu fformat digidol arall y cytunir arno), a hynny ar draul y ceisydd. Os na fydd hyn yn bosibl, gall y Swyddog Trwyddedu gytuno i drefnu lleoliad addas ar gyfer gwylio'r ffilm(iau).

4.6 Tra bydd yn gwylio'r ffilm(iau), gall y Swyddog Trwyddedu roi sylw i Ganllawiau'r BBFC a'r Canllawiau Cenedlaethol a bydd yn rhoi Hysbysiad o Benderfyniad ynghylch y cais o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad gwylio.

4.7 Wrth ystyried pob cais o'r fath, bydd y Swyddog Trwyddedu'n rhoi sylw arbennig i'r Amcan Trwyddedu Amddiffyn Plant Rhag Niwed.

4.8 Yn unol ag Atodiad D Rhan 5 o'r Canllawiau Cenedlaethol, os bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n argymell bod ffilm(iau) yn perthyn i gategori cyfyngiad oed, ni chaniateir mynediad i'r un person o dan yr oedran penodedig. Os bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n argymell bod ffilm(iau) yn perthyn i gategori sy'n ei gwneud yn ofynnol i oedolyn fod yn bresennol gydag unrhyw bersonau o dan oedran penodedig, ni chaniateir mynediad i'r un person o dan yr oedran penodedig sy'n bresennol heb oedolyn.

4.9 Dan yr amgylchiadau hyn, bydd yn ofynnol i ddeiliad y drwydded arddangos hysbysiad mewn man amlwg sy'n nodi'r gofynion a'r

cyfyngiadau oed perthnasol yn glir. O ran geiriad hysbysiadau o'r fath, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n defnyddio'r enghraifft a nodir yn y Canllawiau Cenedlaethol:

"NI CHANIATEIR MYNEDIAD I BERSONAU O DAN [*NODWCH OEDRAN PRIODOL*] OED I'R UN RHAN O'R RHAGLEN"

Neu

"DIM OND OS BYDD YN BRESENNOL GYDAG OEDOLYN Y CANIATEIR I UNRHYW BERSON O DAN [*NODWCH OEDRAN PRIODOL*] GAEL MYNEDIAD I'R RHAGLEN"

4.10 Er mwyn sicrhau y caiff yr Amcanion Trwyddedu Amddiffyn Plant Rhag Niwed ac Atal Troseddu ac Anhrefn eu hyrwyddo, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi cyngor ffurfiol i ddeiliad y drwydded a'r ceisydd ar unrhyw argymhelliad/argymhellion ynghylch cyfyngu ar oedran mynediad i blant i'r ffilm(iau). Gall hyn hefyd gynnwys unrhyw hysbysiadau perthnasol y bydd yn ofynnol i ddeiliad y drwydded eu harddangos y tu mewn a'r tu allan i'r safle. Bydd disgwyl i'r safle trwyddedig sy'n cynnal y dangosiad ffilm gydymffurfio â'r argymhellion hyn.

4.11 Os gwneir ceisiadau i'r Awdurdod Trwyddedu am gael dangos ffilm(iau) i bersonau 18 oed a throsodd, bydd yn ofynnol i ddeiliad y drwydded arddangos hysbysiad mewn man amlwg sy'n nodi bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi awdurdodi'r ffilm(iau) ond heb ei/eu gwylio. Dylai'r datganiad hwn gael ei gynnwys mewn unrhyw lenyddiaeth hyrwyddo ac ar unrhyw wefan berthnasol gan gynnwys gwefan deiliad y drwydded lle bo hynny'n berthnasol.

4.12 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod yr egwyddor y dylai oedolion fod yn rhydd i ddewis eu hadloniant eu hunain ac ni fydd yn mynd yn groes i'r egwyddor hon fel arfer – felly, ni chaiff ceisiadau eu gwrthod fel arfer. Fodd bynnag, ym mhob achos, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r ceisydd ddilyn Canllawiau'r BBFC ar gyfer ffilmiau â chyfyngiadau 18 ar R18.

4.13 Ac eithrio lle y rhoddir llai na 28 diwrnod o rybudd ynghylch y cais, bydd gan y ceisydd hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad y Swyddog Trwyddedu gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu.

## ADRAN 20 DEDDF TRWYDDEDU 2003: DANGOS FFILMIAU

4.14 Bydd pob safle y caniateir iddo ddangos ffilmiau yn ddarostyngedig i'r amodau gorfodol canlynol:

- Os bydd Trwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb yn awdurdodi dangos ffilmiau, bydd yn rhaid i'r Drwydded neu'r Dystysgrif gynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfyngu ar fynediad i blant i unrhyw ddangosiad ffilm yn unol â'r paragraffau hyn.
- Os bydd corff dosbarthu ffilmiau wedi'i enwi yn y drwydded neu'r dystysgrif, oni fydd paragraff 3 (b) isod yn berthnasol, bydd yn rhaid cyfyngu ar fynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad gan y corff hwnnw.
- Os na fydd corff dosbarthu ffilmiau wedi'i enwi yn y Drwydded neu'r Dystysgrif, neu os bydd yr Awdurdod Trwyddedu wedi rhoi gwybod i ddeiliad y Drwydded neu'r Clwb sydd â'r Dystysgrif fod y paragraff hwn yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, bydd yn rhaid cyfyngu ar fynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad gan yr Awdurdod Trwyddedu.

4.15 Yn y paragraffau hyn, ystyr "plant" yw personau o dan 18 oed ac ystyr "corff dosbarthu ffilmiau" yw'r person neu'r personau a ddynodwyd yn awdurdod o dan Adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (awdurdod i benderfynu ar addasrwydd gwaith fideo i'w ddosbarthu).

## 5. ESEMPTIADAU AR GYFER DANGOS FFILMIAU

5.1 Bydd dangos ffilm(iau) wedi'i esemptio rhag cael ei reoleiddio gan Ddeddf Trwyddedu 2003 os:

- Bydd yn cynnwys arddangosyn neu'n rhan o arddangosyn a gaiff ei arddangos at unrhyw un o ddibenion amgueddfa neu oriel gelf (nid yw'r Ddeddf yn diffinio amgueddfa nac oriel gelf felly cymerir ystyr gwreiddiol y term), neu
- Ei unig neu brif ddiben yw:
  - arddangos unrhyw gynnyrch;
  - hysbysebu unrhyw nwyddau neu wasanaethau (heb gynnwys hysbysebu ffilmiau), neu
  - roi gwybodaeth, addysg neu gyfarwyddyd

**Atodiad 1**

**Argymhellion enghreifftiol mewn perthynas â ffilmiau a awdurdodir i gael eu dangos:**

a. Yr argymhelliad oedran, e.e:

> “NI CHANIATEIR MYNEDIAD I BERSONAU O DAN [*NODWCH OEDRAN PRIODOL*] OED I'R UN RHAN O'R RHAGLEN”
>
> Neu
>
> “DIM OND OS BYDD YN BRESENNOL GYDAG OEDOLYN Y CANIATEIR I UNRHYW BERSON O DAN [*NODWCH OEDRAN PRIODOL*] OED GAEL MYNEDIAD I'R RHAGLEN”

b. Dylai deiliad y Drwydded Safle neu'r Dystysgrif Safle Clwb fabwysiadu polisi a gweithdrefn rheoli addas er mwyn monitro a gorfodi'r argymhellion ynghylch cyfyngiadau oed.

c. Dylai deiliad y Drwydded Safle neu'r Dystysgrif Safle Clwb arddangos hysbysiad mewn man amlwg sy'n datgan yn glir bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi awdurdodi'r ffilm(iau) i bobl [NODWCH OEDRAN PRIODOL] oed a throsodd ei/eu gwylio, ond nad yw o reidrwydd wedi ei/eu gwylio.

d. Dylai'r cyfyngiad oed sy'n berthnasol i ddangos y ffilm gael ei gynnwys mewn unrhyw lenyddiaeth hyrwyddo ac ar unrhyw wefan berthnasol gan gynnwys gwefan deiliad y drwydded neu'r dangoswr lle bo hynny'n berthnasol.